



Rhaglen Gyflawn

Gwasanaethau Democraidd
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Dyddiad ac Amser

2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 14EG MAWRTH, 2017

Lleoliad

Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor,

Caernarfon LL55 1SH

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

lowrihafevans@gwynedd.gov.uk

01286 679 878

(Dosbarthwyd 7 Mawrth 2017)

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

AELODAETH (18)

Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Edgar Wyn Owen
Annwen Hughes
W. Tudor Owen

Craig ab Iago
Dilwyn Morgan
E. Caerwyn Roberts
Sedd wag

Annwen Daniels
Linda Morgan
Gruffydd Williams

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Eric M. Jones
Angela Russell
Louise Hughes

Nigel Pickavance
Mike Stevens

Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Endaf Cooke

Llafur (1)

Y Cynghorydd
Glyn Thomas

Democratiaid Rhydfrydol (1)

Y Cynghorydd
Stephen W. Churchman

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am abs
enoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 24.1.17 fel rhai cywir

5. ADOLYGIAD CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY

9 - 28

Aelod Cabinet: Cyngorydd Dafydd Meurig

Ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet

6. ARGYMHELLION ADRODDIAD YMCHWILIAD CRAFFU 29 - 108 TREFNIADAU CYNLLUNIO

Aelod Cabinet: Cyngorydd Dafydd Meurig

Ystyried Adroddiad Ymchwiliad Craffu Cynllunio

7. YMCHWILIAD CRAFFU GORFODAETH STRYD - DIWEDDARIAD 109 - 116

Aelod Cabinet : Cyngorydd John Wynn Jones

Derbyn adroddiad gan yr Aelod Cabinet ar weithredu argymhellion yr Ymchwiliad Craffu

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU DYDD IAU, 24 IONAWR 2017

YN BRESENNOL: E. Caerwyn Roberts (Cadeirydd)
Dilwyn Morgan (Is Gadeirydd)

Y CYNGHORWYR: Stephen Churchman, Annwen Daniels, Annwen Hughes, Louise Hughes, Eric M. Jones, Linda Morgan, Edgar Wyn Owen, Nigel Pickavance, Angela Russell, Mike Stevens, Glyn Thomas a Gruffydd Williams

SWYDDOGION: Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

HEFYD YN BRESENNOL:

- a) Mewn perthynas ag eitem 5 ar y rhaglen - Cyngorydd Mandy Williams - Davies (Aelod Cabinet), Llŷr B Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig)
- b) Mewn perthynas ag eitem 6 ar y rhaglen - Cyngorydd Mair Rowlands (Aelod Cabinet), Ian Jones (Uwch Reolwr Cymunedau Iach)
- c) Mewn perthynas ag eitem 7 ar y rhaglen - Cyngorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet), Owen Owens (Uwch Reolwr Systemau Addysg)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorwyr Craig ab Iago a Tudor Owen

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd yr aelod canlynol fuddiant personol am y rhesymau a nodir:

- Y Cyngorydd Linda Morgan yn eitem 7 ar y rhaglen, oherwydd ei bod yn gweithio yng Ngholeg Meirion Dwyfor

Roedd yr Aelod o'r farn ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y cais a nodir.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 24 11 2016 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

5. TORIADAU RHEOLAU TRAETHAU

Cyflwynwyd adroddiad cychwynnol gan yr Aelod Cabinet, yn amlinellu effaith y toriadau a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn (Mawrth 2016) ar gyllidebau rheoli traethau Baner Las a Baner Werdd. Amlygwyd yr oblygiadau a ragwelwyd ond, gan nad oedd y toriadau wedi eu gweithredu yn llawn, roedd yn anodd rhoi adroddiad manwl ar yr effaith hyd yma. Er efallai yn gynamserol i drafod yr effaith yn y cyfnod trosiannol, derbyniwyd bod angen cynnal y drafodaeth a chadw llygad ar yr effaith bosib.

Mewn ymateb i'r adroddiad, gwnaed cais i ystyried sefyllfa Morfa Nefyn a Nefyn gan nad ydynt bellach yn cael gwarchodaeth. Nododd y Cynghorydd Lleol nad yw'r arbenigedd gan y Cyngor Cymuned i dderbyn y cyfrifoldeb ac amlygwyd bod y Cyngor Cymuned yn ystyried rhoi'r brydles yn ôl i'r Goron.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y sylwadau canlynol ynglŷn â thraethau Morfa Nefyn a Nefyn:

- Os na fydd y Cyngor Cymuned a Chyngor Gwynedd yn mynd i warchod y traethau yma, pwy fydd yn cymryd y cyfrifoldeb?
- Rhaid dwyn perswâd ar Ystâd y Goron i dderbyn cyfrifoldeb
- Pa drefniadau sydd mewn lle cyn gollwng cyfrifoldeb?
- A oes modd cyflwyno cynlluniau amgen?

Mewn ymateb i'r sylwadau, derbyniwyd bod sefyllfa Morfa Nefyn a Nefyn yn anodd a bod angen cynnal trafodaethau gyda'r perchnogion tir i sicrhau rheolaeth mynediad i'r traeth. Nodwyd bod y Cyngor efallai wedi bod yn rhy awyddus yn y gorffennol i dderbyn cyfrifoldeb dros reolaeth y traethau, ond bellach yng nghyd-destun toriadau, amserol fyddai cynnal trafodaethau gyda'r perchnogion tir ac amlygu iddynt y cyfrifoldeb a'r statws cyfreithiol sydd arnynt.

Petai Cyngor Tref Nefyn yn ildio eu prydles byddai eu cyfrifoldeb fel endid yn lleihau, a'r cyfrifoldeb yn disgyn ar Stad y Goron.

Amlygodd yr Uwch Reolwr y byddai yn cyfleu pryderon y Pwyllgor Craffu i Stad y Goron mewn cyfarfod ym mis Chwefror.

Amlygwyd y sylwadau canlynol am gynnwys yr adroddiad yn gyffredinol:

- Pryder am ddiogelwch y cyhoedd
- Angen rheolaeth dros fynediad peiriannau / cychod i'r traethau
- Y traethau yn un o brif asedau'r Sir ac felly rhaid eu gwarchod
- Baich y cyfrifoldeb ar y Cynghorau Cymuned
- Cyfrifoldeb moesol er nad yw yn statudol
- Beth yw cyfrifoldebau'r wardeniaid traeth
- A oes achubwyr bywyd yn cael eu cyflogi?
- Pwysig cynnwys gwirfoddolwyr mewn trefniadau gwarchod traethau
- Angen caniatáu i bobl leol gymryd rhan
- Beth yw dyfodol y Faner Las?

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod pwysleisiodd yr Uwch Reolwr nad oedd y cynigion yn rai yr oedd yr Adran wedi dymuno eu gweithredu, ond eu bod yn rhan o drefniadau Her Gwynedd. Eglurodd bod y sefyllfa yn un cymhleth iawn a bod y toriadau wedi eu gweithredu o fewn amserlen dynn iawn a bod y ffactorau yn wahanol iawn i bob ardal. Mewn sefyllfaoedd lle nad oedd y trefniadau wedi eu cadarnhau, nodwyd bod rhai sefydliadau lleol yn dangos diddordeb ac felly posib ystyried modelau addas.

Mewn ymateb i sylw am ddyfodol y Faner Las, amlygwyd bod nifer o ffactorau allanol yn dylanwadu ar hyn megis ansawdd y dŵr sydd tu hwnt i reolaeth y Cyngor. Nodwyd bod gofynion cynyddol ar wneud cais ac nad oedd gwarant na sicrwydd o lwyddiant y ceisiadau o flwyddyn i flwyddyn. Amlygwyd bod ceisiadau yn cael eu cyflwyno yn y drefn arferol gyda'r gofynion cynyddol yn gwneud y sefyllfa yn anodd.

Cynigiwyd ac eiliwyd i dderbyn yr adroddiad fel adroddiad cychwynnol ac ail ymweld â'r sefyllfa wedi i'r toriadau eu gweithredu yn llawn

Cynigiwyd gwelliant i'r cynnig o dderbyn yr adroddiad cychwynnol, ond bod angen rhoi ystyriaeth bellach i draeth Morfa Nefyn a Nefyn

Cynigiwyd gwelliant pellach i'r cynnig o dderbyn yr adroddiad cychwynnol, ond bod pryder am draethau Morfa Nefyn a Nefyn. Gwnaed cais i'r Adran drafod ar fyrder gyda'r Aelod Cabinet y ffordd ymlaen cyn y tymor gwyliau a chynnal adolygiad o'r traethau hyn.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad cychwynnol a cynigiwyd y sylwadau isod:

- **Bod pryder am draethau Morfa Nefyn a Nefyn**
- **Cais i'r Aelod Cabinet drafod ar fyrder gyda'r Adran Economi, y sefyllfa unigryw yma cyn y tymor gwyliau**
- **Derbyn adroddiad ar ddiwedd y tymor gwyliau o'r effeithiau yn llawn.**

6. DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y GWASANAETH CYMUNEDAU IACH I GWRDD GYDA THARGEDAU ARBEDION EFFEITHLONRWYDD A'R YMATEB I ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Cyflwynwyd adroddiad llawn gan yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned yn ymateb i holl gwestiynau Cyfarfod Paratoi'r Pwyllgor Craffu am ymateb y Gwasanaeth Cymunedau Iach i adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru 'Cyflawni a llai - Gwasanaethau Hamdden ynghyd a'r cynnydd y mae'r gwasanaeth yn ei wneud i gyflawni'r targed arbedion effeithlonrwydd fel y gosodwyd gan y Strategaeth Ariannol y Cyngor 2015 - 2018.

Amlygodd yr Aelod Cabinet bod y targed arbedion effeithlonrwydd yn un sylweddol a canmolwyd y Gwasanaeth am weithredu a chyfarch y targed.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chynnig gwasanaethau am ddim i deuluoedd difreintiedig, nodwyd nad oedd y canolfannau hamdden yn cynnig gostyngiad ar sail incwm, ond pecyn rhatach ar amseroedd tawel - ni fyddai'r gwasanaeth yn asesu lefelau incwm ar sail defnydd. Awgrymwyd bod modd edrych i mewn i hyn.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sesiynau Nofio am Ddim, adroddwyd mai penderfyniad y Cyngor oedd peidio caniatáu i rieni fynd i mewn i'r pwll am ddim a bod y Cynllun Nofio am Ddim yng Ngwynedd wedi derbyn lleihad sylweddol mewn grant.

Mewn ymateb i sylw nad oedd Gwynedd yn ymddangos yn rhoi cyfle cyfartal i blant chwarae, nodwyd bod pob plentyn yng Ngwynedd yn derbyn aelodaeth am ddim yn y Canolfannau Hamdden.

Diolchwyd i'r Gwasanaeth am yr adroddiad calonogol a llongyfarchwyd y gwasanaeth am wyrddroi'r sefyllfa. Er hynny, petai angen codi ffioedd yn uwch na chwyddiant, gwnaed sylw bod angen bod yn ofalus o beidio 'anfon pobl i ffwrdd'.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â rhannu ymarfer da, amlygwyd bod hyn yn cael ei wneud fwyaf drwy strwythur rheolaeth ardal (lle ceir un rheolwr yn gyfrifol am fwy nag un canolfan) a staff yn rhan o dimau ar draws y Gwasanaeth. Er hynny, pwysleisiwyd nad

oedd y targed wedi ei gyrraedd ac felly cyfeiriwyd at yr angen i ddarparu cynlluniau amgen er mwyn sicrhau darparu gwasanaeth cynaliadwy i'r dyfodol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y sylwadau canlynol:

- Rhaid ystyried dewisiadau eraill i leddfu colledion - awgrym bod angen gwaith ymchwil pellach cyn gweithredu
- Angen gweld gwell defnydd o adnoddau
- Angen denu mwy o bobl drwy'r drysau
- Efallai bod angen ystyried y canolfannau hamdden fel busnes yn hytrach na gwasanaeth
- Mae'r Canolfannau Hamdden yn hanfodol ar gyfer lechyd a Lles
- Rhaid ystyried gweithgareddau ychwanegol

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â phryd fydd y Gwasanaeth yn debygol o gyflwyno gwybodaeth am y modelau newydd, awgrymwyd y byddai cyfle i'r Pwyllgor graffu'r cynigion yn llawn ym mis Medi.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan ddiolch i'r Gwasanaeth am eu gwaith a nodi y byddai'r aelodau yn croesawu derbyn gwybodaeth am fodelau amgen ym Medi 2017.

7. CLUDIANT ADDYSG OI-16

Ymneilltuodd y Cynghorydd Linda Morgan o'r ystafell yn ystod y drafodaeth

Amlygodd y Cadeirydd bod y maes wedi ei graffu yn fanwl, ond mynegwyd siom gyda'r gweithrediad hyd yma.

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet ar y cynnydd pellach o ran gweithredu argymhellion Ymchwiliad Craffu Cludiant Addysg OI-16. Adroddwyd, bod y coleg yn wynebu anawsterau ariannol, a bellach wedi gwrthod gweithredu fel asiant. Nid oedd unrhyw resymau penodol dros beidio bod yn asiant wedi eu cyflwyno.

Amlygwyd bod y Polisi Cludiant wedi ei adolygu a bod trafodaethau rhwng y Cyngor a darparwyr cludiant wedi dwyn ffrwyth drwy ddyfalbarhad. Adroddwyd bod cytundeb ar hyblygrwydd amser teithio ar bob un o'r llwybrau ac eithrio un. (Nodwyd bod trafodaethau yn parhau gyda darparwr cludiant am y llwybr dan sylw). Er mwyn codi ymwybyddiaeth i'r newidiadau, nodwyd yr angen i drefnu ymgyrch gyhoedduswydd erbyn mis Mawrth.

Mewn ymateb i'r argymhelliad o gasglu data i ddarganfod os yw costau teithio yn arwain at fyfyrwyr yn disgyn allan o addysg bellach, nodwyd bod dau holiadur, ar gyfer y flwyddyn addysgiadol 2016 - 2017 yn cynnwys cwestiwn penodol ynglŷn â chludiant. Eglurwyd y byddai dadansoddiad o'r holiadur ar gael ar ddechrau tymor yr haf.

Adroddwyd bod Fforwm Defnyddwyr wedi ei sefydlu a bod yn llwyddiannus iawn fel modd o gynnal trafodaethau. Amlygwyd mai aelodau'r Fforwm yw cynrychiolwyr o'r Coleg, Swyddogion y Cyngor, Darparwyr Cludiant a Myfyrwyr. Awgrymwyd y gellid rhannu cofnodion y Fforwm i'r cyfarfod paratoi nesaf

Mynegodd yr Aelod Cabinet ei fod yn derbyn bod gweithredu'r argymhellion wedi cymryd amser, ond drwy ddyfalbarhad bod y mwyafrif o'r argymhellion oedd yn ymwneud a'r Cyngor wedi eu gweithredu. Un o'r prif lwyddiannau oedd sicrhau hyblygrwydd i'r tocyn teithio.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y sylwadau canlynol:

- Bod angen i'r Coleg dderbyn cyfrifoldeb dros y myfyrwyr
- Angen pwysleisio mai partneriaeth sydd yma rhwng y Coleg a'r Cyngor a bod angen i'r coleg chwarae eu rhan
- Angen parhau gyda holi'r Coleg i weithio fel asiant
- Coleg gyda chyfrifoldeb dros gael myfyrwyr i fynychu'r coleg
- Croesawu hyblygrwydd y tocyn - sgôp i ehangu oriau wedi 6pm?
- A fyddai modd dosbarthu holiadur i rieni?
- Awgrym i wahodd yr Aelod Cynulliad Mr Ken Skates (Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'c Isadeiledd) a chynrychiolwyr Coleg Menai i'r Pwyllgor nesaf er mwyn ceisio mynd at wraidd y broblem

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, er bod yr argymhellion wedi cymryd amser i'w gwireddu, ond gyda dyfalbarhad bod y sefyllfa wedi gwella. Cynigiwyd y sylwadau canlynol:

- Cofnodion y Fforwm Defnyddwyr i'w gyflwyno i'r cyfarfod paratoi nesaf
- Estyn gwahoddiad i Aelod Cynulliad Mr Ken Skates (Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'c Isadeiledd a Chynrychiolwyr Coleg Menai i gyfarfod o'r pwyllgor

Eitem 5

Pwyllgor	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad	14 Mawrth 2017
Teitl	Adolygiad Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
Aelod Cabinet	Y Cyngorydd Dafydd Meurig
Pwrpas	Diweddaru'r Pwyllgor ynglŷn â'r gwaith o adolygu a diweddaru'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

1. CEFNDIR

1.1 Adroddwyd i'r Pwyllgor yma ar y 22ain o Fedi 2016 ynglŷn â'r bwriad i adolygu a diweddaru'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT). Penderfyniad y Pwyllgor oedd:

- Cefnogi'r bwriad o adolygu a pharatoi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy i Wynedd a bod yr Adran Rheoleiddio yn adnabod dulliau o ddod ac Adnoddau ynghyd ar gyfer y gwaith.
- Bod yr Adran yn cysylltu gyda Llywodraeth Cymru i bwysu arnynt i gyllido'r adolygiad.
- Bod yr Aelod Cabinet yn cyflwyno adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor Craffu mewn oddeutu 6 mis.

1.2 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru'r Pwyllgor ar yr hyn sydd wedi ei wneud ac i ofyn am sylwadau'r Pwyllgor.

2. Y BROSES O BARATOI CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY NEWYDD A CHYNNYDD HYD YMA

2.1 Nodwyd yn adroddiad 22 Medi 16 bod y broses o adolygu a pharatoi'r CGHT i ddilyn canllawiau sydd wedi eu paratoi gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Canllawiau yn rhoi arweiniad ynglŷn â'r hyn sy'n ofynnol i'w wneud o fewn dau brif bennawd sef Materion Statudol a Materion atodol

Materion Statudol

- Y graddau y mae'r hawliau tramwy lleol yn bodloni gofynion y cyhoedd nawr ac yn y dyfodol
- Y cyfleoedd a gynigir gan hawliau tramwy lleol i wneud ymarfer corff a dulliau eraill o hamddena a mwynhau'r awyr agored yn ardal yr awdurdod.
- Pa mor hygyrch yw hawliau tramwy lleol i bobl ddall neu rannol ddall ac eraill a phroblemau symudedd?

Materion atodol

- Gwerthuso i ba raddau y cyflawnwyd y CGHT blaenorol
- Gwerthusiad o gyflwr y rhwydwaith ar hyn o bryd a'i hanes
- Cyfleoedd i gyfrannu at amcanion Teithio Llesol, amcanion Llesiant ac at gyflawni cynlluniau a blaenoriaethau eraill.

- 2.2 Gan gyfeirio at yr uchod gallaf adrodd ar y cynnydd hyd yma, ond yn gyntaf rhaid cyfeirio at y gofyn i hysbysu cyrff ac asiantaethau megis Cynghorau Cymuned a Thref, Siroedd Cyfagos, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Undebau Amaethyddol, Cymdeithas y Cerddwyr o fwriad y Cyngor i adolygu'r CGHT. Cyflawnir y dasg yma yn ystod mis Mawrth.

Ymgysylltu ac adnabod anghenion

- 2.3 Mae'r canllawiau yn rhoi pwyslais ar yr angen i ymgysylltu er mwyn derbyn barn y cyhoedd ynglŷn â chyflwr a defnydd y rhwydwaith hawliau tramwy bresennol. Rhaid hefyd gofyn sut gellir gwella'r rhwydwaith i gwrdd â gofynion y dyfodol. Maes o law bydd posibl bwydo argymhellion ar gyfer gwella ac addasu'r rhwydwaith i'r Cynllun Gweithredu ond mae'n anorfod bydd rhaid eu blaenoriaethu a'u cloriannu yn erbyn y sefyllfa ariannol.
- 2.4 Rhaid wrth ymgysylltu ceisio cyrraedd cynulleidfa mor eang â phosibl yn hytrach na dibynnu ar sylwadau'r mudiadau diddordeb boed yn gerddwyr, marchogwyr, beicwyr neu fodurwyr oddi ar y ffordd. Bydd cyfle yn sicr iddynt gyflwyno barn ac argymhellion yn ystod cyfnod yr adolygiad. Bwriedir, gyda chefnogaeth y tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu i gyflwyno holiadur ar wefan y Cyngor ynghyd a thargedu rhai carfanau penodol. Oherwydd cyfyngiadau ar ymgynghori gyda'r cyhoedd cyn etholiad y 4ydd o Fai rhaid aros tan ar ôl yr etholiad cyn cychwyn yr ymgynghori. **Gweler Atodiad 1, sy'n ddrafft o'r holiadur a chroesawir sylwadau'r Pwyllgor ar ei gynnwys.**

Gwerthuso i ba raddau y cyflawnwyd y CGHT blaenorol

- 2.5 Mae'r CGHT presennol yn cynnwys 43 o weithrediadau i'w cyflawni dros oes y Cynllun. O'r 43 adnabuwyd byddai angen adnoddau ychwanegol os am gyflawni 28 gweithred. Ystyriwyd byddai'n bosibl cyflawni 15 gweithred gyda'r adnoddau oedd ar gael ar adeg mabwysiadu'r Cynllun yn 2007. Bydd pob un o'r 43 gweithred yn cael eu gwerthuso ond cychwynwyd drwy edrych ar y 15 oedd ddim angen adnoddau ychwanegol, cyflwynir crynodeb o'r gweithrediadau a'r hyn a gyflawnwyd yn **Atodiad 2**.

Gwerthusiad o gyflwr y rhwydwaith

- 2.6 Er mai mater atodol yw gwerthusiad o gyflwr y rhwydwaith presennol rhaid serch hynny ceisio cael darlun sy'n adlewyrchu cyflwr presennol hawliau tramwy'r Sir. Nid yw'n ymarferol i geisio archwilio'r rhwydwaith cyfan sydd oddeutu 3,500km o hyd, hyd yn oed gyda staff penodol ni lwyddwyd i archwilio mwy na 35% o'r rhwydwaith adeg paratoi'r Cynllun gwreiddiol. Rhaid felly edrych ar dulliau gwahanol o archwilio gan wneud defnydd o'r dechnoleg ddiweddaraf sef :

- Gwneud defnydd o wybodaeth sydd gan y Parc Cenedlaethol
- Staff yr Uned Cefn Gwlad i gynnal archwiliadau.
- Defnydd o ddata sydd eisoes ar system CAMS (system mapio ddigidol sy'n cael ei ddefnyddio gan yr Uned Cefn Gwlad a Mynediad)
- Manteisio ar ymgyrch Pathwatch Cymdeithas y Cerddwyr, mae'r mudiad yn annog eu haelodau ac eraill i ddefnyddio ap ar ffon neu tablet i archwilio llwybrau. Mae'r wybodaeth eisoes yn cael ei ddanfon ymlaen i'r Cyngor a gellir ei drosglwyddo yn uniongyrchol i'r system CAMS.
- Gofynnir am wybodaeth gan y Cynghorau Cymuned a Thref, bydd hyn yn digwydd fel rhan o ddilyniant i ymgysylltu a fu dros y flwyddyn ddiwethaf ynglŷn â newid yn nhrefniadau ad-dalu costau cynnal llwybrau

2.7 Cyfeirir yn adroddiad 22 Medi 16 at yr angen am adnoddau ychwanegol tuag at yr adolygiad. Nid yw Llywodraeth Cymru am ymrwymo cyllid ychwanegol tuag at yr adolygiad ond bydd y rhaglen grant CGHT yn parhau a gall y Cyngor, os dymunant ddefnyddio rhan o'r grant tuag at adolygu'r Cynllun.

2.8 Mae'n werth pwysleisio bydd y CGHT yn cael ei baratoi ar y cyd ag Awdurdod Y Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) a'i fod yn rhan bwysig o'r drefn cydweithio sy'n cael ei ddatblygu rhwng Y Cyngor ac Awdurdod y Parc ym maes mynediad i gefn gwlad. **Cyflwynir yn Atodiad 3 , drafft o'r Egwyddorion Cydweithio rhwng y ddau gorff a chroesawir sylwadau'r Pwyllgor ar gynnwys y ddogfen.**

3. CAMAU NESAF AC ARGYMHELLION

3.1 Dyma'r prif gamau a meysydd gwaith dros y 6 mis nesaf.

- Parhau i gasglu gwybodaeth am gyflwr y rhwydwaith a chychwyn y gwaith o ddadansoddi'r wybodaeth.
- Ar y cyd a APCE i adnabod anghenion adnoddau.
- Cydweithio gyda'r Uned Cyfathrebu / Ymgysylltu i adnabod y dulliau gorau o ymgysylltu i gyrraedd y gynulleidfa ehangaf phosib. Cwblhau'r holiadur a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod Mai a Mehefin.
- Parhau i werthuso'r CGHT blaenorol.
- Edrych sut mae'r CGHT yn gorgyffwrdd a deddfwriaeth, cynlluniau a pholisïau eraill.
- Tuag at ddiwedd y cyfnod (oddeutu mis Medi) rhaid cychwyn ar y dasg o gyrraedd casgliadau yn seiliedig ar y wybodaeth fydd i law a llunio cyfeiriad ar gyfer y CGHT newydd.

3.1 Derbyn cefnogaeth y Pwyllgor ar y camau nesaf ynghyd a unrhyw sylwadau pellach.

3.2 Cyflwyno adroddiad cynnydd mewn oddeutu 6 mis.

ATODIAD 1 : Holiadur Drafft Draft questionnaire

Cyflwyniad

Yn yr holiadur yma rydym yn holi am Hawliau Tramwy .Nid yw Hawliau Tramwy yn cynnwys ffyrdd, ond maent yn cynnwys llwybrau troed a marchogaeth, a chilffyrdd. Yn ychwanegol rydym am i chwi gynnwys llwybrau drwy ganiatâd er enghraifft llwybrau Lonydd Glas neu lwybrau o fewn Parciau Gwledig neu warchodfeydd natur.

Y System Gategoreiddio

Yn yr holiadur rydym yn cyfeirio at y system o gategoreiddio hawliau tramwy sef trefn mae Cyngor Gwynedd wedi ei mabwysiadu er mwyn blaenoriaethu adnoddau tuag at gynnal y rhwydwaith hawliau tramwy sy'n golygu bod y mwyafrif o hawliau tramwy'r Sir yn disgyn i 1 o 4 categori. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i lwybrau yng nghategoriâu 1 a 2 sef oddeutu 45% o'r rhwydwaith.

Categori 1 :

Llwybrau sydd yn hwyluso symudiad pobl. Bydd i'r rhain ddefnydd sylweddol neu byddant yn ffurfio cysylltiadau a threfi , pentrefi neu rhwng cyfleusterau trafniadaeth gyhoeddus, meysydd parcio ac atyniadau.

Mae llwybrau Categori 1 yn cynnwys llwybrau a theithiau sy'n cael eu hyrwyddo gan Gyngor Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol gan gynnwys y Llwybr Arfordir ynghyd a llwybrau sy'n cysylltu ardaloedd trefol neu lwybrau o fewn ardaloedd trefol. Maent yn cynnwys y rhwydwaith Lonydd Glas a llwybrau sydd â photensial uchel i'w uwchraddio i fod yn llwybrau Teithio Lesol.

Categori 2

Llwybrau poblogaidd a ddefnyddir yn bennaf er pleser gan gynnwys llwybrau o amgylch cymunedau, llwybrau cerdded cylch neu fynediad i dir agored neu draethau.

Mae llwybrau Categori 2 yn cynnwys llwybrau sy'n cael eu hyrwyddo gan Gyngor Gwynedd , y Parc Cenedlaethol a mudiadau cymunedol gan gynnwys y Cyngorau Cymuned. Maent yn llwybrau sy'n llai tebygol o fod yn addas ar gyfer eu uwchraddio i fod yn llwybrau Teithio Llesol.

Categori 3

Llwybrau, er na chant eu defnyddio mor aml, sydd yn ffurfio cysylltiadau arwyddocaol rhwng llwybrau yng nghategoriâu 1 a 2. Maent yn llwybrau sydd a'r potensial i'w defnyddio i annog cerdded rhwng cymunedau neu i ffurfio rhan o daith gellir ei hyrwyddo yn y dyfodol.

Categori 4

Llwybrau heb unrhyw ddefnydd neu botensial amlwg lle ceir llwybrau amgen mewn categorïau uwch gerllaw.

Llwybrau sy'n gynnig ychydig neu ddim potensial i greu cysylltiadau defnyddiol neu i ffurfio rhan o daith i'w hyrwyddo.

Llwybrau sydd ag amheuaeth ynglŷn â'i statws ar y map diffiniol sy'n annhebyg o gael ei ddatrys.

Introduction

In this questionnaire, we will be asking you about Rights of Way. Rights of Way are not roads, but do include footpaths, bridleways and byways. In addition we want you to also consider permissive routes and access rights for example the Lonydd Glas paths or paths within the Country Parks or nature reserves.

Categorization system

In the questionnaire we refer to the system of categorising rights of way, this system has been adopted by Gwynedd Council to help prioritise resources for maintaining the rights of way network. Most paths in Gwynedd are in 1 of 4 categories. Currently Gwynedd Council prioritise resources to maintaining paths in categories 1 and 2, which are approximately 45% of the network.

Category 1

Paths that facilitate people's movement. These will usually already have significant usage or form connections within towns, villages or between public transport facilities, car parks, and pleasure attractions.

Category 1 paths will include routes promoted by Gwynedd Council, Snowdonia National Park including the Coast Path together with well-used urban and inter-urban paths. The Lonydd Glas network and paths with huge potential for up-grading to meet "Active Travel" requirements.

Category 2

Popular paths used mainly for pleasure and recreation including paths around communities, circular walks, access to beaches or rural promoted routes and popular rural paths giving access to Open Access land.

Routes promoted by Gwynedd Council and the Snowdonia National Park and Community groups if not included in Category 1. Paths with lesser potential for up-grading to meet "Active Travel" requirements.

Category 3

Paths, with only occasional use but whilst being less used, form connections between the paths in categories 1 and 2 or between communities where there is currently little to encourage walking or to form part of future promoted routes.

Category 4

Path with no obvious benefit or potential and where a reasonable convenient alternative route exists on higher category paths with little or no future potential for forming practical connections to other access.

Paths with known Definitive Map anomalies with little prospect of satisfactory resolution.

C.1 Pa mor aml ydych chi yn defnyddio hawliau tramwy ar gyfer rhai o'r gweithgareddau hyn yng nghefn gwlad ?

Q1 How often do you undertake any of the following activities in the countryside ?

	Dyddiol <i>Daily</i>	Dwywaith yr wythnos <i>Twice a week</i>	Wythnosol <i>Weekly</i>	Misol <i>Monthly</i>	Weithiau <i>Sometimes</i>	Byth <i>Never</i>
Cerdded Walking	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Beicio Cycling	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Marchogaeth Horse Riding	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gyrru coets Carriage driving	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Os ateboch chi BYTH i bob un o'r dewisiadau, ewch i G.2. Fel arall EWCH I G.3
If you answered NEVER to all choices, go to Q.2. Otherwise GO TO Q.3

C.2 Os nad ydych yn defnyddio Hawliau Tramwyo o gwbl, beth yw eich prif resymau am hynny? (Cofiwch am y diffiniad o Hawl Tramwyo)

Q.2 If you don't use Rights of Way at all what would you give as your main reason for this?(Remember about the definition of Rights of Way)

Ddim yn gwybod amdanynt	<i>Don't know of any</i>	<input type="checkbox"/>
Rhwyrstr ar y llwybr	<i>Way obstructed</i>	<input type="checkbox"/>
Dim angen / dim diddordeb	<i>No need / interest</i>	<input type="checkbox"/>
Arall – Eglurwch	<i>Other – PLEASE STATE:</i>	
.....	

C.3 Am faint o amser ydych chi'n gwneud un o'r gweithgareddau yma ar un tro
How long do you usually spend pursuing one of the above activities

Llai 'na ½ awr / Less than ½ hour	½ - 1 awr / ½ - 1 hour	1 – 2 awr / 1 – 2 hours	Mwy na 2 awr / 2 hours +
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

C.4 Beth yw eich prif resymau am ddefnyddio Hawl Tramwy?
 Marciwch y bocsus perthnasol

Q.4 What are the most frequent reasons for your use of Rights of Way?
 Please mark the boxes as appropriate

Mynd a'r ci am dro	I gadw'n heini (e.e. cerdded, rhedeg i gadw'n heini)	Diddordeb (e.e. cerdded / marchogaeth fel diddordeb)	Gwyllo bywyd gwyllt mwynhau'r tirwedd	I gael mynd at gyfleusterau (siop, ysgol, eglwys, gwaith)	Cymryd rhan mewn gweithgareddau ee dringo, pysgota, canwio, beicio mynydd,
<i>Dog walking</i>	<i>Healthy activity (e.g. Walk, run to keep fit)</i>	<i>Leisure activity (e.g. Walk or horseride as a hobby)</i>	<i>Viewing wildlife enjoying the landscape</i>	<i>Access to other facilities (shop, school, church work etc)</i>	<i>Taking part in activities eg climbing, fishing, canoeing, mountain biking</i>
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Arall' - eglurwch
 Other', please explain:

C.4 Pa un o'r dulliau yma o fynediad i gefn gwlad ydy'r gorau gennych chi?
 Rhowch eich 5 dewis gorau o 1 – 5. Pan fo 1= Dewis gorau i 5= 5ed dewis

Which of the following ways of accessing the countryside do you prefer?
 Rank your top 5, from 1 – 5. Where 1 = Most preferred to 5 = 5th preferred.

Llwybrau Cyhoeddus	Public footpaths	<input type="checkbox"/>
Hawliau Tramwyo eraill (e.e. Llwybrau marchogaeth neu cilffyrdd)	Other Rights of Way (bridleway, or byway)	<input type="checkbox"/>
Llwybrau sydd â hawl tramwyo (e.e. Rhwydwaith Lonydd Glas)	Permissive path (such as the Lonydd Glas network)	<input type="checkbox"/>
Tiroedd Coedwigaeth	Forestry land	<input type="checkbox"/>
Tiroedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	National Trust Land	<input type="checkbox"/>
Ffyrdd bach cefn gwlad	Quiet country lanes	<input type="checkbox"/>
Tiroedd sydd â Mynediad Agored	Open Access Land	<input type="checkbox"/>

C.5 Pa rai o'r canlynol fydddech yn mynd efo chi? Marciwch y bocsys perthnasol

Q5 Which of the following (if any) would you be likely to take with you? Please mark the boxes as appropriate

Map	Ci	Pram	Beic	Cadair Olwyn
<i>Map</i>	<i>Dog</i>	<i>Pram or pushchair</i>	<i>Bicycle</i>	<i>Wheelchair</i>
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Dŵr / diod	Bwyd	Ffon smart / tablet	Ceffyl	Arall
<i>Water / drink</i>	<i>Food</i>	<i>Smart pone / tablet</i>	<i>Horse</i>	<i>Other</i>
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Os mai Arall oedd eich ateb, eglurwch:
If you said 'Other', please explain:

C.6 Pa broblemau, os o gwbl ydych chi wedi dod are eu traws wrth ddefnyddio hawliau tramwy yng Ngwynedd

Sgoriwch rhwng 1 : effaith bychan iawn i fyny i 10 : ,methu defnyddio'r llwybr
Ticiwch a sgoriwch bob blwch sy'n berthnasol

Q6. When using rights of way in Gwynedd, what problems if any have you come across.

Score between 1 : minor impact up to 10 : unable to use the path
Tick and score all relevant boxes

Math o broblem / type of problem	Ticiwch y problemau Tick problem	Sgôr effaith Score impact
Diffyg arwyddion neu arwyddion camarweiniol <i>Lack of signage or misleading signs</i>		
Gor dyfiant / coed wedi cwmpo <i>Vegetation / fallen trees</i>		
Wyneb anwastad , tyllau ,dwr neu mwd dwfn <i>Uneven surface , potholes , deep water or mud</i>		
Camfeydd neu giataiu mewn cyflwr gwael <i>Gates or stiles in poor condition</i>		
Pontydd mewn cyflwr gwael / peryglus <i>Bridges in poor condition / dangerous</i>		
Llwybr wedi ei rwystro'n fwriadol er enghraifft giataiu wedi eu cloi neu ffens ar draws y llwybr <i>Paths deliberately blocked for example locked gate or fence across path</i>		
Anifeiliaid ffarm <i>Farm animals</i>		
Baw ci <i>Dog mess</i>		

Cwn bygythiol <i>Aggressive dogs</i>		
Cael eich bygwth gan dirfeddianwr neu rhywun arall ar y llwybr <i>Threatening behaviour by landowner or other path users</i>		
Rhywbeth arall , eglurwch <i>Other , please explain</i>		

C.7 Pa fath o lwybr sydd fwyaf pwysig i chi? Nodwch eu pwysigrwydd o 1 i 5.
Ble mae 1= Eich dewis pwysicaf i 5= 5ed pwysicaf

Q7 Which of the following ways of accessing the countryside do you prefer?
Rank your top 5, from 1 – 5. Where 1 = Most preferred to 5 = 5th preferred.

Teithiau pellter hir	Long distance routes	<input type="checkbox"/>
Teithiau unionlin	Linear routes	<input type="checkbox"/>
Teithiau mewn cylch	Circular routes	<input type="checkbox"/>
Teithiau thema neu yn cael eu disgrifio	Themed or leaflet described routes	<input type="checkbox"/>
Taith leol yn fy ardal	Local walk in my neighbourhood	<input type="checkbox"/>

C.8 Sut fydddech yn cyrraedd llwybr cerdded? Marciwch y bocsys perthnasol

Q8 How would you normally access a walk? Please mark the appropriate boxes

Car	Bws	Trên	Beic	Cerdded	Arall
Car	Bus	Train	Cycle	Walk	Other
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Os mai Arall oedd eich ateb, eglurwch:
If you said 'Other', please explain:

C.9 Ble fydddech chi yn chwilio am wybodaeth am Hawliau Tramwyo?
Nodwch eich 5 dewis o 1 – 5. Rhowch 1= Fel y man ble fydddech fwyaf tebygol o chwilio am wybodaeth i 5= y 5ed lle fydddech yn edrych am wybodaeth.

Q9 Where would you be most likely to look for information about Rights of Way?
RANK YOUR TOP 5, FROM 1 – 5. WHERE 1 = MOST LIKELY 5 = 5TH MOST LIKELY.

Ar y we	On the internet	<input type="checkbox"/>
Canolfannau Gwybodaeth i Dwrisiaid	Tourist Information Centres	<input type="checkbox"/>
Swyddfeydd y Cyngor	Council Offices	<input type="checkbox"/>
Cyfoeth Naturiol Cymru	Natural Resources Wales	<input type="checkbox"/>
Parc Cenedlaethol	National Park	<input type="checkbox"/>
Llawlyfr	Guidebook	<input type="checkbox"/>

Llyfr gwybodaeth am gerdded	<i>Book of walks</i>	<input type="checkbox"/>
Map O.S.	<i>O.S. map</i>	<input type="checkbox"/>
Llyfrgell	<i>Library</i>	<input type="checkbox"/>
Gwybodaeth ar baneli	<i>On information panels</i>	<input type="checkbox"/>

C.10 Pa wybodaeth am Hawliau Tramwyo sydd fwyaf pwysig gennych chi? Nodwch nhw yn ôl eu pwysigrwydd i chi. Pan fo 1= Eich dewis pwysicaf, i 5= 5ed lleiaf pwysig

Q10 Which of the following types of information about Rights of Way are most important to you? Rank their importance, from 1 – 5. Where 1 = Most important to 5 = 5th most important.

Gwybodaeth gyffredinol am lwybrau cyhoeddus, defnydd ohonynt a chefn gwlad yn gyffredinol	<i>General information on public footpaths, their use and the countryside in general</i>	<input type="checkbox"/>
Hawliau cyfreithiol penodol	<i>Specific legal rights</i>	<input type="checkbox"/>
Union leoliadau dechrau llwybrau	<i>Specific location for the start of a path</i>	<input type="checkbox"/>
Pellter a pen i deithiau o leoliad penodol	<i>Destinations and distances available from a location</i>	<input type="checkbox"/>
Llwybrau wedi eu marcio â phaneli gwybodaeth	<i>Way marked routes with information panels</i>	<input type="checkbox"/>
Pamffledi am lwybrau	<i>Leaflets about routes</i>	<input type="checkbox"/>
Addasrwydd llwybr ar gyfer gwahanol 'alluoedd	<i>Suitability of route for different abilities</i>	<input type="checkbox"/>
Niferoedd a mathau o giataiu a chamfeydd	<i>Types and number of gates, stiles</i>	<input type="checkbox"/>
Trafnidiaeth a mynediad at lwybrau	<i>Suggested transport / access to a route</i>	<input type="checkbox"/>
Cyfleusterau ger llaw (toiledau, meysydd parcio, lluniaeth)	<i>Nearby facilities (toilets, parking, refreshments)</i>	<input type="checkbox"/>

C.11 Ydych yn credu fod y rhwydwaith hawliau tramwy presennol yn addas ac yn cwrdd â gofynion y mwyafrif o ddefnyddiwr.

Q11 Do you consider that the current network of rights of way is suitable and meets the needs of the majority of users.

Ydwyf / yes

Nac ydwyf / No

<p>Os nad yw'n addas beth ydych yn credu yw'r prif gamau dylid eu cymryd i wella'r rhwydwaith <i>If you consider that the network is not currently suitable what steps should be taken to improve the network</i></p> <p>Rhowch rhif yn y blwch sy'n adlewyrchu eich barn ar y cynnigion isod <i>Please give a score in the box which reflects your views</i></p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Cytuno'n llwyr / <i>Stongly agree</i> 2. Syniad da ond dim yn flaenoriaeth uchaf / <i>Good idea but not a high priority</i> 3. Dim barn arbennig / <i>No strong opinion</i> 4. Anghytuno ,dim yn flaenoriaeth / <i>Disagree, not a priority</i> 5. Anghytuno'n gryf / <i>Strongly disagree</i> 	
<p>Mae yna ormod o lwybrau gyda'r mwyafrif ddim yn cael defnydd a dylid canolbwyntio ar y lwybrau poblogaidd. <i>There are too many paths with the majority not used , the priority should be the popular paths</i></p>	
<p>Mae angen rhagor o lwybrau beic <i>More paths for cyclists are needed</i></p>	
<p>Mae angen rhagor o lwybrau marchogaeth <i>More paths for horse riding are needed</i></p>	
<p>Mae angen rhagor o lwybrau sy'n addas ar gyfer cadeiriau olwyn <i>More paths should be suitable for wheelchair use</i></p>	
<p>Dylid caniatáu beicwyr a ceffylau ar y mwyafrif o lwybrau troed <i>Cyclists and horse riders should be allowed to use most footpaths</i></p>	
<p>Dylid newid y ddeddfwriaeth i'w gwneud yn haws i Awdurdodau lleol greu, diddymu neu wyro hawliau tramwy er enghraifft i symud llwybr i ffwrdd o ffarth fferm neu i greu rhan newydd o'r Llwybr Arfordir. <i>Current legislation should be changed to allow Local Authorities to create, extinguish or divert rights of way , for example to move a path away from a farm yard or to create a new section of the Coast Path.</i></p>	
<p>Dylid dynodi rhagor o dir yn dir agored <i>More land should be designated as open access land</i></p>	
<p>Dylai twristiaid a busnesau twristiaeth gyfrannu tuag at gynnal hawliau tramwy <i>Tourist and tourism businesses should contribute to the maintenance of rights of way.</i></p>	

Rhywbeth arall , eglurwch
Any other point, please explain

C.12 Oes yna ardaloedd penodol neu leoliadau ble mae angen rhagor o lwybrau neu newid statws llwybr i ganiatau aml ddefnydd.

Q12 *Are there any specific areas or locations that require more paths or the status of existing paths should be changed to allow multiple use ?*

Oes / Yes

Nac oes / No

Eglurwch:
Explain:

C.13a Ydych chi'n gwybod beth yw "Map Diffiniol"?

Q.13a *Do you know what a "Definitive Map" is?*

Ydw / Yes

Na / No

Ewch i gwestiwn 14

Go to Question 14

C.13b Ydych chi erioed wedi edrych ar Fap Diffiniol Gwynedd?

Q.13b *Have you ever consulted the Gwynedd Definitive Map?*

Do/ Yes

Do / No

C.13c Gawsoch chi ateb boddhaol wrth edrych arno? Q.13c Did it answer your query satisfactorily?	
Do / Yes <input type="checkbox"/>	Naddo / No <input type="checkbox"/>
Os naddo, beth oedd y problem? <i>If not, what was the main problem?</i>	

C.14 Mae rhannau o Wynedd wedi ei ddynodi'n dir Mynediad Agored, ers y dynodiad yn 2005 ydych wedi :			
Q14 Parts of Gwynedd has been designated as Open Access Land , since the designation in 2005 available in Gwynedd have you :			
Beidio gwneud unrhyw ddefnydd o'r hawl <i>Not make any use of the right</i>	Gerdded ar draws caeau ymhobman <i>Wander across at large across the land</i>	Dilyn llwybrau dynodedig <i>Follow defined routes</i>	Arall <i>Other</i>
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

<p>C.15 Dros y blynyddoedd diweddar mae Cyngor Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol wedi wynebu toriadau i'w cyllidebau ar gyfer cynnal a gwella hawliau tramwy. Sut hoffech weld y ddau gorff yn blaenoriaethu adnoddau dros y blynyddoedd nesaf ? Rhowch sgôr yn erbyn y cynigion sy'n flaenoriaeth gennych gyda 1 fel y flaenoriaeth uchaf a 10 fel y flaenoriaeth isaf</p> <p><i>*cyfeiriwch at ddiffiniad o'r Categoriâu ar gychwyn yr holiadur</i></p> <p>Q15 Over recent years Gwynedd Council and the National Park have seen cuts in their budgets for maintaining and improving rights of way. How should both organisations prioritise their resources over the coming years? <i>Score each proposal according to your priorities, 1 being your highest priority and 10 your lowest priority.</i></p> <p><i>* Please refer to the definition of the categories at the beginning of the questionnaire</i></p>

<p>Cynnal llwybrau sydd o fewn *Categori 1 yn unig</p> <p><i>Maintain only Category 1 paths</i></p>	
<p>Cynnal llwybrau sydd yn *category 1 a 2 yn unig</p> <p><i>Maintain only Category 1 and 2 paths</i></p>	
<p>Cynnal pob llwybr sydd ar y map diffiniol fel bo'r angen a pheidio blaenoriaethu gwaith yn unol a'r drefn categoreiddio</p> <p><i>Maintain all paths on the definitive map as required rather than prioritise according to their category.</i></p>	
<p>Dylid blaenoriaethu adnoddau i lwybrau sy'n cael eu hyrwyddo ac yn denu ymwelwyr i'r ardal ee llwybr yr Arfordir, llwybrau'r Wyddfa, llwybrau hamdden y Parc Cenedlaethol Y Lonydd Glas a chylchdeithiau lleol.</p> <p><i>Prioritise resources to maintain promoted paths and paths that draw tourist into the area eg Coast Path, paths on Snowdon, the SNP leisure network, Lonydd Glas and local circular routes.</i></p>	
<p>Dylid sefydlu rhagor o lwybrau cylch a llwybrau hir sy'n cael eu hyrwyddo</p> <p><i>More circular paths and long distance routes should be established.</i></p>	
<p>Dylid roi blaenoriaeth i ddatrys anghydfod a phroblemau drwy gydweithio gyda pherchnogion tir a defnyddwyr.</p> <p><i>Give priority to resolving disputes and problems between landowners and users.</i></p>	
<p>Dylid rhoi rhagor o adnoddau i gynghorau Cymuned a Thref neu i fudiadau gwirfoddol i'w galluogi i gynnal y rhwydwaith hawliau tramwy</p> <p><i>More resources should be given to Community and Town Councils and voluntary organisations to enable them to maintain the rights of way network</i></p>	
<p>Dylid rhoi rhagor o bwyslais ar waith gorfodaeth i gynnal ac agor hawliau tramwy fydd yn arwain at gymryd camau cyfreithiol yn erbyn tiffeddianwyr .</p> <p><i>There should be more emphasis on enforcement, to maintain and open the rights of way network which could result in taking legal action against landowners</i></p>	
<p>Dylid cael y map diffiniol a gwybodaeth arall am y rhwydwaith ar wefan y Cyngor.</p> <p><i>The definitive map and other information about the network should be made available on the Council website</i></p>	
<p>Blaenoriaethu'r gwaith ar y map diffiniol a cheisiadau i ddiwygio'r map (newid statws llwybr, cofrestru llwybrau sydd heb eu cofnodi)</p> <p><i>Prioritise work on the definitive map and applications to modify the map (change the status of paths, register paths not currently registered)</i></p>	

C.16 I gloi, oes gennych unrhyw sylwadau pellach am rwydwaith hawliau tramwy a mynediad i gefn gwlad yng Ngwynedd

Q16. *To close, do you have any further comments about the rights of way network and countryside access in Gwynedd?*

ATODIAD 2		
Tabl gweithrediadau a gyflwynwyd yn CGHT 2007 oedd i'w gweithredu heb adnoddau ychwanegol.		
Cyfeirnod	Gweithred	Sylwadau
2 / 3	Cynhyrchu Map wedi' i gyfuno - cyfuno newidiadau o'r Map Swyddogol presennol ar fap newydd sydd â dyddiad newydd perthnasol arno.	Nid yw hyn wedi ei gyflawni oherwydd diffyg adnoddau staff
2/ 4	Gweithio tuag at gynhyrchu fersiwn electronig gyfredol o'r Map Swyddogol gweithredol.	Wedi ei gyflawni 2013 Mae'r map yma ar gael ar systemau mapio mewnol y Cyngor ond hyd yma ddim ar y wefan allanol.
2/5	Clirio'r ôl-groniad o geisiadau am Orchmynion Diwygio Map Swyddogol	Heb ei gyflawni oherwydd lleihad mewn staff ers 2007 ,nifer y ceisiadau newydd gyda sawl cais yn eithriadol o gymhleth
3/1	Datblygu polisi cadarn ar gyfer camau gorfodi / erlyniadau	Wedi ei gwblhau 2012. Bydd y polisiau yn cael eu hadolygu a'u diweddarau fel rhan o'r gwaith i adolygu'r CGHT.
3/2	Cynhyrchu ystod o bolisiau eglur ar reoli hawliau tramwy	Wedi ei gwblhau 2012 Bydd y polisiau yn cael eu hadolygu a'u diweddarau fel rhan o'r gwaith i adolygu'r CGHT.
3/5	Cynhyrchu canllaw i ddibenion diogelu a gorfodaeth gan ddefnyddio enghraifft Cyngor Sir Gaer fel model ymarfer da.	Heb ei gyflawni, drafft wedi ei baratoi. Ail edrychir ar ganllawiau gorfodaeth fel rhan o'r adolygiad
3/ 6	Negodi Cytundeb ffurfiol gyda'r APCE er mwyn sefydlu dull o weithio mwy integredig	Trafodaethau wedi arwain at sefydlu / cytuno ar egwyddorion cydweithio fydd yn weithredol yn ystod 2017.

3/7	Annog gweithio mewn partneriaeth gydag adrannau eraill o'r Cyngor, cynghorau cymuned ac asiantaethau eraill.	Mwyafrif o'r Cynghorau Cymuned a Thref wedi bod yn rhan o'r trefniant cynnal a chadw, adolygydd y trefniant yn 2016 yn sgil lleihad yn y gyllideb cynnal. Newidiadau strwythurol ers 2007 wedi hwyluso cydweithio o fewn y Cyngor.
4/3	Trafod gyda thirfeddianwyr a rheolwyr i leihau gwrthdaro - trefnu a chynnal gweithdai gyda thirfeddianwyr i drafod materion sy'n effeithio ar dirfeddianwyr.	Cysylltiad â thrafodaethau yn digwydd yn rheolaidd ynglŷn â llwybrau a materion penodol sy'n effeithio ar dirfeddianwyr.
4 / 6	Hyfforddiant anabledd i swyddogion Hawliau Tramwy - sicrhau bod hyfforddiant staff yn gyfredol o ran cydraddoldeb anabledd.	Aelodau staff wedi derbyn , ac yn parhau i dderbyn hyfforddiant ym maes anghenion defnyddwyr anabl a chydaddoldeb.
4 /7	Cysylltu â gwahanol grwpiau defnyddwyr a grwpiau anabledd - ymgynghori a chynrychiolwyr i helpu i ganfod llwybrau addas posibl.	Cysylltiad ac ymgynghori ar lwybrau a materion penodol yn digwydd.
5 / 4	Integreiddio a llwybrau diogel i'r ysgol / gwaith - penderfynu pa lwybrau penodol a ddefnyddir i gymudo i'r ysgol ac i'r gwaith a nodi gwelliannau posibl	Mae'r Ddeddf Teithio Lesol wedi disodli llawer o'r ymgyrchoedd oedd yn weithredol yn 2007.
6/2	Archwilio llwybrau presennol a hyrwyddir ac edrych ar gysylltiadau ac estyniadau posibl.	Llawer o waith wedi ei wneud i uwchraddio a datblygu llwybrau i'w hyrwyddo ond ers 2008 rhoddwyd pwyslais ar ddatblygu'r Llwybr Arfordir.
6/3	Nodi mwy o deithiau cerdded iach - archwilio llwybrau newydd / gwahanol i sicrhau bod hawliau tramwy cyhoeddus a mynediad yn cynorthwyo i ddarparu manteision iechyd	Cefnogwyd datblygiad teithiau cerdded iach ond ers 2007 mae ymgyrchoedd a deddfwriaeth newydd megis Deddf Teithio Lesol wedi disodli ymgyrchoedd unigol.
6/5	Datblygu gwefan ryngweithiol o ansawdd - adolygu / diwygio ,trefnu a chynnal y wefan bresennol i hyrwyddo mynediad a gwaith yr Uned Cefn Gwlad a Mynediad	Mae'r wybodaeth am hawliau tramwy a mynediad yn gyffredinol wedi ei addasu ar safle we'r Cyngor dros y blynyddoedd, ond hyd yn hyn ni fu'n bosibl darparu map rhyngweithiol.

ATODIAD 3 :

DRAFFT

Datganiad o egwyddorion cydweithio rhwng Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri ym maes hawliau tramwy a mynediad i gefn gwlad

Mae Cyngor Gwynedd (CG) ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (PCE) yn cydnabod yr angen i gydweithio ym maes hawliau tramwy a mynediad i gefn gwlad gyda'r nod o ddarparu'r adnoddau gorau phosibl i bobl a chymunedau lleol ac i ymwelwyr i'r ardal.

Mae llawer o gydweithio yn digwydd yn barod a disgwylir bydd hyn yn parhau, pwrpas y datganiad yma yw cyflwyno'r egwyddorion fydd yn sylfaen i gydweithio agosach rhwng y ddau gorff. Cam cyntaf yw'r Datganiad fydd yn arwain at drafodaethau pellach er mwyn cytuno a llywio cydweithio am y blynyddoedd nesaf.

Wrth sefydlu trefniant cydweithio rhaid bod yn ymwybodol o'r deddfwriaethau sy'n sail i waith y ddau Awdurdod ym meysydd mynediad a gwarchod y tirlun. Dylid hefyd roi sylw arbennig i berthnasedd deddfwriaethau newydd megis Y Ddeddf Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r deddfwriaethau hyn yn pwysleisio dulliau o weithio sy'n seiliedig ar gydweithio a chydlynio ymdrechion gwahanol gyrrff ac asiantaethau. Gwelir bod datblygu a chynnal asedau a chyfleoedd mynediad yn gyd fynd ag egwyddorion llesiant, megis economi lewyrchus, poblogaeth iach a chymunedau gydlynus a cyfartal.

Egwyddor 1 : Blaenoriaethu

Sefydli'r drefn ar gyfer blaenoriaethu a rhannu'r llwyth gwaith, wrth gymryd y camau hyn rhaid cydnabod nad yw'n ymarferol gweithredu o fewn ffiniau caeth a bydd blaenoriaethau a gofynion statudol yn golygu bydd meysydd gwaith y ddau gorff yn gôr gyffwrdd ar adegau.

Sut mae hyn am gael ei gyflawni ?

- Bydd PCE yn blaenoriaethu gwaith i gynnal a rheoli'r llwybrau / rhwydweithiau canlynol :
 1. Llwybrau'r Wyddfa.
 2. Llwybrau'r Ucheldir sef llwybrau o fewn cylch (i'w ddiffinio).
 3. Rhwydwaith llwybrau hamdden a llwybrau eraill sydd wedi eu creu a'u hyrwyddo gan PCE.

- Bydd CG yn blaenoriaethu'r gwaith o gynnal llwybrau cyhoeddus
 1. O fewn categorïau 1 a 2 o drefn categorïo'r Cyngor sydd heb fod yn rhan o rwydwaith hamdden PCE.
 2. Y Llwybr Arfordir Cenedlaethol

- Cyngor Gwynedd fydd yn arwain ar faterion cyfreithiol sy'n gysylltiedig â hawliau tramwy.

Egwyddor 2 : Cyfathrebu

Er mwyn gweithredu yn unol â'r blaenoriaethau a gytunir yn Egwyddor 1 rhaid sicrhau bod cyfathrebu rhwydd ac agored rhwng swyddogion y ddau gorff .

Sut mae hyn am gael ei gyflawni ?

Dylid sicrhau bod swyddogion y ddau gorff sy'n ymwneud a materion mynediad o fewn ardal Y Parc yn gyfarwydd â'i gilydd.

- Bydd swyddogion y ddau gorff yn gyfarwydd â meysydd gwaith ei gilydd a'r dyletswyddau statudol sy'n disgyn i'r ddau gorff o fewn y maes mynediad a hawliau tramwy.
- Trefnir cyfarfodydd ffurfiol yn achlysurol i gyfnewid gwybodaeth ond rhoddir y pwyslais ar gysylltiadau anffurfiol rhwng swyddogion i drafod materion sy'n codi a datrys problemau.
- Bydd gwybodaeth am raglenni gwaith yn cael eu rhannu yn rheolaidd ac yn cael ei rhaedru o fewn y ddau gorff.
- Bydd cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn digwydd yn fuan fel rhan o ddatblygiad prosiectau newydd.
- Edrychir ar ffyrdd i rannu gwybodaeth a gedwir ar systemau technegol y ddau gorff fel bod cofnod cywir o'r gwaith a wneir ar y rhwydwaith mynediad gan y ddau gorff.
- Bydd canllawiau yn cael eu paratoi yn egluro sut bydd materion gweithredol yn cael eu trin a gosod safonau fydd yn gyson rhwng y ddau gorff.

Egwyddor 3 : Cynllunio ymlaen ac adnoddau.

Bydd y ddau gorff yn cytuno ar sut i roi'r Datganiad ar waith, bydd hyn yn cynnwys sicrhau dealltwriaeth ynglŷn â diffinio tir uchel, rhannu gwybodaeth a dulliau cyfathrebu rhwng staff y Parc a'r Cyngor. Gellir wedyn fwrw ati i lunio rhaglen waith, chyfeiriad a blaenoriaethau hir dymor ar gyfer mynediad o fewn y Parc a chymunedau cyfagos gan gynnwys adnabod yr adnoddau sydd eu hangen i'w gwireddu.

Sut mae hyn am gael ei gyflawni ?

- Bydd y ddau gorff yn cyfrannu ac yn cydweithio i gynnal adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- Edrychir am gyfleoedd i gydweithio ac i ddenu grantiau er mwyn gwella mynediad.
- Bydd y ddau gorff yn fodlon rhannu adnoddau ac arbenigedd staff er mwyn cyflawni tasgau neu brosiectau penodol.

Adroddiad Ymchwiliad Craffu Cynllunio

Aelodau'r Ymchwiliad

Y Cynghorydd Eric M Jones (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Angela Russell

Y Cynghorydd Mike Stevens

Y Cynghorydd Gruffydd Williams

Y Cynghorydd E. Caerwyn Roberts

Y Cynghorydd Tudor Owen

Y Cynghorydd Louise Hughes

Swyddogion

Meinir Owen ac Arwel E Jones (Swyddogion Arweiniol)

Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd)

Cara Owen (Rheolwr Cynllunio)

Emlyn Jones (Uwch Reolwr Ymgynghoriaeth Gwynedd)

Lowri Evans (Swyddog Cefnogol)

Cyngor Gwynedd

Stryd y Jêl,

Caernarfon,

Gwynedd

LL55 1SH

Mawrth 2017

Cynnwys

Yr Adroddiad	Tudalen
1. Cyd-destun	3
2. Pwrpas yr Ymchwiliad Craffu	3
3. Prif Weithgaredd yr Ymchwiliad	4
4. Prif Ganfyddiadau ac Argymhellion yr Ymchwiliad	9
Yr Atodiadau	
Atodiad 1 – Gofynion statudol y system gynllunio	13
Atodiad 2 – Adroddiad perfformiad blynyddol Cynllunio 2016	15
Atodiad 3 – Trothwyon arfaethedig y Cynllun Dirprwyo	49
Atodiad 4 - Ymateb cyngorau eraill i'r agwedd cynllunio a rheolaeth adeiladu	50
Atodiad 5 – Ceisiadau yn ymwneud â datblygiadau economiadd	57
Atodiad 6 - Holiadur bodlonrwydd cwsmer cynllunio 2015-16	68
Atodiad 7 – Holiadur cyngorau cymuned / tref au hymateb	74

1. **Cyd-destun**

- 1.1 Mae'n bwysig iawn bod y drefn gynllunio yn cyd-fynd ag anghenion cymunedau'r sir ac mae canfyddiad ar lêd nad oes digon o ystyriaeth yn cael ei roi i faterion fel yr economi wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Yn sgil hyn penderfynwyd cynnal ymchwiliad craffu ar y drefn gynllunio, gan ystyried cyfundrefnau cynllunio'r Cyngor a'u haddasrwydd ar gyfer cyd-fynd ag anghenion cymunedau'r sir yn economaidd, yn ogystal â ffactorau eraill.
- 1.2 Rhaid nodi fod yr ymchwiliad yma yn benodol berthnasol i Ardal Awdurdod Cynllunio Cyngor Gwynedd yn unig, gan mai Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yw'r Awdurdod Cynllunio ar gyfer ardal y Parc.
- 1.3 Mae'r system gynllunio'n gweithredu o fewn fframwaith statudol a chredir fod angen deall:-
- i) beth yw'r gofynion statudol perthnasol
 - ii) y fframwaith polisi cynllunio'n genedlaethol ac yn lleol
 - iii) ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill a beth yw'r pwysau a roddir i'r ystyriaethau cynllunio hynny.
- 1.4 Dim ond ar ôl deall hynny y gellir edrych mewn mwy o fanylder ar sut mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu o ran penderfyniadau ar geisiadau cynllunio a sut roddir cyngor i ddarpar ddatblygwyr, cyn iddynt gyflwyno cais.

2. **Pwrpas yr Ymchwiliad Craffu**

- 2.1 Roedd yr ymchwiliad yn ceisio, yn y lle cyntaf sefydlu dealltwriaeth ynglŷn â:
- Beth yw'r gofynion statudol sydd yn berthnasol i'r system gynllunio?
 - Beth yw'r gofynion o ran polisiau cynllunio cenedlaethol a lleol?
 - Beth yw'r ystyriaethau cynllunio perthnasol wrth ddelio gyda cheisiadau cynllunio a pha bwysau a roddir i'r ystyriaethau cynllunio gwahanol?
 - Faint o ryddid sydd gan y gyfundrefn gynllunio o fewn y fframweithiau uchod?
- 2.2 Roedd yr Ymchwiliad wedyn yn ceisio ateb y cwestiynau canlynol:-
- Sut mae Cyngor Gwynedd yn delio gyda cheisiadau cynllunio o ran trefn, perfformiad, niferoedd ac ati?
 - Oes yna unrhyw dystiolaeth gadarn sydd yn awgrymu nad yw'r Cyngor yn rhoi digon o ystyriaeth i'r economi wrth baratoi polisiau cynllunio ac wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio?
 - A yw'r trefniadau sydd gan y Cyngor ar gyfer cynnig cyngor i ddarpar ddatblygwyr wrth iddynt fynd trwy'r broses gynllunio yn llyfn a hwylus ac felly yn cyfleu delwedd o gyfundrefn sydd yn hybu a datblygu neu un sydd yn rheoleiddio?
 - Beth yw profiad defnyddwyr y gyfundrefn, yn aelodau o'r cyhoedd, cynghorau tref a chymuned a defnyddwyr eraill?


3. Prif Weithgaredd yr Ymchwiliad

- 3.1 Cyfarfu'r Ymchwiliad gyda'r Aelod Cabinet a'r Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd i gytuno meysydd penodol yr ymchwiliad y gweithredwyd arno dros 4 o gyfarfodydd.
- 3.2 O ran gofynion statudol, mae'r broses gynllunio yn gweithredu o fewn fframwaith statudol sydd yn cynnwys tair haen sef:
- Deddfwriaeth sylfaenol (Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Cynllunio a Phryniant Gofodol 2004 a Deddf Cynllunio 2008)
 - Is-ddeddfwriaeth
 - Polisiâu a chanllawiau cynllunio perthnasol.
- 3.3 Mae'r system gynllunio yn cael ei harwain gan y Cynllun Datblygu Unedol (Gwynedd) ar hyn o bryd. Bydd y cynllun yma yn cael ei ddisodli gan y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn ystod 2017.

Gweler **Atodiad 1** am fwy o fanylder o ran y gofynion statudol.

- 3.4 Derbyniodd yr Ymchwiliad wybodaeth hynod ddefnyddiol am berfformiad y gwasanaeth yng Ngwynedd o gymharu ag ardaloedd eraill. Yn 2015-16, proseswyd 1,026 cais cynllunio gennym, pob un, ar gyfartaledd, yn aros am 60 diwrnod (9 wythnos) i gael penderfyniad. Mae hyn yn dangos bod perfformiad Gwynedd ymysg y gorau yng Nghymru, gan ei fod yn cymharu â chyfartaledd o 77 diwrnod (11 wythnos) yng Nghymru. Dengys Ffigwr 1 yr amser, ar gyfartaledd, y mae pob Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) yn ei gymryd cyn penderfynu ar gais yn ystod y flwyddyn. Mae hyn hefyd yn welliant ar 2014-15 pan oedd y cyfartaledd yn 84 diwrnod.


Ffigwr 1: Cyfartaledd yr amser a gymerwyd (dyddiau) i benderfynu ar geisiadau, 2015-16



- 3.5 Yn 2015-16, penderfynwyd ar 83% o'r holl geisiadau cynllunio o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae hyn yn cymharu â 77% yng Nghymru ac rydym yn un o 8 ACLI sydd wedi cyrraedd y targed 80%. Eto, mae hyn yn welliant ar 2014-15 pan benderfynwyd ar 76% o geisiadau cynllunio o fewn yr amserlenni gofynnol.
- 3.6 Cofrestrwyd 27 o apeliadau yn erbyn penderfyniadau cynllunio yn ystod 2015-16 ac roedd yn gynydd o'r 14 yn y blynyddoedd cynt. Roedd hyn hefyd yn rhoi Gwynedd ymysg y 5 Cyngor yng Nghymru gyda'r nifer uchaf o apeliadau. Gwrthodwyd 70% o'r apeliadau a gofrestrwyd sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 66%.
- 3.7 Yn 2015-16 bu i 91% o'r holl geisiadau gael eu delio â nhw o dan y drefn ddirprwyedig gyda 9% o geisiadau yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio sydd yn cwrdd pob 3 wythnos. Mae hyn yn cymharu gyda 7% ar draws Cymru.

Gweler **Atodiad 2** am fanylion pellach yr adroddiad perfformiad blynyddol.

- 3.8 O ran y Cynllun Dirprwyo, mae'n debyg fod trothwyon Cyngor Gwynedd wedi eu selio ar yr un math o ddatblygiadau a nodir yn y diffiniad o geisiadau 'mawr', mae'r union drothwyon wedi eu haddasu i adlewyrchu'r amgylchiadau/diddordeb oedd yn bodoli ar adeg llunio'r Cynllun Dirprwyo presennol. Erbyn hyn, mae natur y ceisiadau cynllunio sydd yn cael eu cyflwyno i'r ACLI wedi newid cryn dipyn o safbwynt math, maint a nifer ac yn achos rhai mathau o geisiadau e.e. mastiau telathrebu a chyfarpar, pa mor gynhennus yw'r pwnc ar yr adeg benodol.
- 3.9 Mae Pwyllgor Cynllunio Gwynedd yn cwrdd bod 3 wythnos a dros y flwyddyn ddiwethaf mae oddeutu 10 cais wedi bod ar bob agenda gydag un agenda gyda 13 eitem. O brofiad, barn y Cadeirydd presennol a Chadeirydd diwethaf y Pwyllgor Cynllunio a'r Swyddog Monitro yw mai'r nifer ddelfrydol o eitemau ar yr agenda yw tua 8 cais.
- 3.10 Mae cyfartaledd canran y ceisiadau y penderfynwyd arnynt o dan bwerau dirprwyedig drwy Gymru yn ystod 2015/16 yn 93.1% gyda Gwynedd oddeutu 91% (neu 953 cais). Mae'r gweddill, sef tua 93 cais unigol wedi cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio dros 15 o gyfarfodydd gwahanol (gyda nifer o geisiadau wedi eu gohirio a'u ail gyflwyno).
- 3.11 Yn ystod 2015/16 mae'r siart canlynol yn nodi'r prif resymau dros gyflwyno ceisiadau i'r Pwyllgor:



Nodyn: rhaid cofio nad yw'r trothwyon hyn (na'r rhai presennol) yn gweithredu'n unigol – mae'n bosib fod cais sydd gerbron y Pwyllgor ar yr agenda oherwydd e.e. nifer o dai, gwrthwynebiadau a'i fod wedi ei alw i mewn gan yr Aelod Lleol.

- 3.12 O ystyried yr uchod amlygwyd fod modd cynnig newidiadau syml i'r trothwyon dirprwyo fel y nodir yn **Atodiad 3** fyddai un ai yn lleihau'r nifer ar bob agenda a'r holl waith cysylltiedig ag/neu yn sicrhau fod y ceisiadau sydd yn angen blaenoriaeth ar yr agenda heb orfod oedi yn ddi-angen gan leihau risgiau a sicrhau lefelau perfformiad yr ACLI.
- 3.13 Daeth yn amlwg i'r Ymchwiliad yn fuan iawn bod y system gynllunio a'r system rheolaeth adeiladu angen gweithio'n agos iawn i roi'r gwasanaeth gorau i'r cwsmer. Bu i'r Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd gysylltu gyda chynghorau Cymru i ofyn eu barn am fanteision ac anfanteision o gael cynllunio a rheolaeth adeiladu o fewn yr un gwasanaeth (gweler **Atodiad 4** am eu hymateb).
- 3.14 Yn ogystal fe drafodwyd y mater gydag Uwch Reolwr Ymgynghoriaeth Gwynedd sy'n gyfrifol am Reolaeth Adeiladu ac fe nodwyd bod lle i wella'r cydweithio rhwng y ddwy adran a bod modd ffurfioli a sicrhau bod trafodaethau rheolaidd y digwydd.
- 3.15 Fel rhan o'r drafodaeth ar Reolaeth Adeiladu fe amlygwyd y dryswch / cymhlethdod sy'n medru digwydd pe bai benthycwyr angen gwarant o'r gwaith. Ar hyn o bryd mae hyn yn digwydd ar ôl cwblhau'r datblygiad, sy'n waith ychwanegol i wirio safon y gwaith. Mae modd i Ymgynghoriaeth Gwynedd gynnig y gwasanaeth yma fel ffrwd incwm newydd tra mae'r gwaith yn cael ei gwblhau.

- 3.16 O safbwynt yr economi mae Rhan 2 o'r Cynllun Datblygu Unedol a'r polisiau cysylltiedig yn ceisio sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi i effaith economaidd y cais cynllunio wrth wneud penderfyniad cynllunio.

http://www.cartogold.co.uk/gwynedd/text/welsh/06_employment.html#ub

- 3.17 Dros y cyfnod hwn o 3 blynedd bu i 93.5% o'r 5,400 o geisiadau cynllunio a gofrestrwyd gan yr ACLI gael eu caniatáu a gellir ystyried fod bron pob un o'r rhain gyda'r potensial i gefnogi'r economi mewn un ffordd neu'r llall e.e. cyfnod adeiladu yn golygu cyflogaeth leol, twristiaeth, atyniadau, cefnogi a chynnal gwaith presennol, gwario'n lleol ayyb.
- 3.18 Mae **atodiad 5** yn cynnwys amrediad eang o enghreifftiau o geisiadau cynllunio dros y 3 blynedd diwethaf sy'n ymwneud â datblygiadau economaidd. Mae'r rhestr yn cynnwys enghreifftiau o ganiatadau am fentrau newydd (ar sawl graddfa) yn ogystal ag enghreifftiau o gefnogi mentrau presennol i ehangu a hwyluso defnydd newydd o adeiladau presennol.
- 3.19 Fel rhan o waith yr Ymchwiliad fe gynhaliwyd gweithdy gyda swyddogion cynllunio i edrych mewn manylder ar bedwar cais cynllunio er mwyn deall sut maent yn rhoi ystyriaeth i'r economi wrth ddelio gyda cais. Bu i aelodau'r Ymchwiliad gael eu argyhoeddi bod y drefn yn rhoi sylw teilwng i'r economi ond bod achosion lle mae materion eraill yn cael mwy o bwyslais e.e. agweddau traffig a diogelwch yn cael mwy o bwyslais i wrthod cais er ei fod o fudd economaidd.
- 3.20 Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu trefn o gynnig cyngor cyn cyflwyno cais, ac yn codi ffi am hynny ers Ebrill 2015. Hefyd, mae hi bellach yn ofynnol i ddatblygwyr sy'n cyflwyno cais sydd yn disgyn o fewn y diffiniad statudol o gais 'mawr' (major) i gyflwyno Datganiad o Ymgynghori Cymunedol gyda'r cais cynllunio er mwyn ei wneud yn gais dilys.
- 3.21 Mae'r trefniadau yma wedi eu croesawu gan drigolion a datblygwyr ac yn cydnabod y dull yma o weithredu, sydd yn y pendraw yn arbed arian ac amser gan ei fod yn cynnig mwy o sicrwydd.
- 3.22 O ran profiad defnyddwyr, mae holiadur bodlonrwydd cwsmer cynllunio (gweler **Atodiad 6**) yn nodi bod 56% o'r sawl wnaeth ymateb yn cytuno fod yr ACLI yn cynnig cyngor da i'w helpu i gyflwyno cais llwyddiannus. Mae hyn yn cymharu gyda 58% ar draws Cymru.
- 3.23 Yn fwy diweddar mae'r gwasanaeth wedi bod yn fwy rhagweithiol er mwyn deall bodlonrwydd cwsmer. Erbyn hyn maent yn ffonio'r datblygwr ar sampl o 10% o geisiadau a ganiateir bob mis gan wneud gwelliannau / newidiadau i'r drefn fel bo'r angen. Yn ystod 2015-16 roedd 89% o gwsmeriaid yn fodlon gyda'r gwasanaeth.

- 3.24 Yn ychwanegol bu i'r Gwasanaeth gymryd rhan mewn arolwg bodlonrwydd cwsmer cenedlaethol er mwyn asesu barn sampl o bobl oedd wedi derbyn dyfarniad ar gais cynllunio yn ystod 2015-16. Bu i 66% o atebwyr ddatgan eu bod yn fodlon gyda sut y bu i'r ACLL ddelio gyda'u cais o'i gymharu gyda'r cyfartaledd o 61% yn genedlaethol.
- 3.25 Mae rhai sylwadau yn nodi ei bod hi'n anodd cael gafael ar swyddog ar adegau i drafod cais neu i geisio eglurder am fater penodol.
- 3.26 O safbwynt cynghorau tref a chymuned, mae pob cais cynllunio yn mynd i'r cyngor cymuned / tref perthnasol yn gofyn am sylwadau ar y cais cynllunio. I hwyluso hynny mae sesiynau hyfforddiant wedi eu cynnal ar gyfer aelodau o gynghorau tref a chymuned, er mwyn eu galluogi i ddeall y drefn cynllunio a'i chyfyngiadau yn well.
- 3.27 Fel rhan o'r ymchwiliad hwn fe gynhaliwyd ymgynghoriad gyda chynghorau cymuned o fewn y sir i geisio eu barn ar y broses o gyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio ac fe dderbyniwyd ymateb gan 20 ohonynt, neu 34% sydd o fewn ardal cynllunio'r Cyngor (gweler **Atodiad 7** am yr ymateb llawn).
- 3.28 Yn gyffredinol nid ydynt wedi derbyn hyfforddiant ar y maes ac yn sgil datblygiad y Cynllun Datblygu Lleol bydd hi'n hanfodol iddynt ddeall y polisiau newydd.
- 3.29 O ran eu bodlonrwydd gyda'r ffordd y maent yn derbyn gwybodaeth / ymateb i ymholiad, nodwyd 10 ohonynt, neu 50%, eu bod yn fodlon ac fe grynhoir sylwadau am yr anfodlonrwydd isod:
- Ymateb yn cymryd llawer iawn gormod o amser
 - Cyngor cymuned yn cael eu hanwybyddu gan swyddogion cynllunio. Dylai barn cyngor cymuned gael llawer mwy o ddylanwad ar geisiadau cynllunio
 - Amserlen yn dynn
 - Anodd cael cyswllt gyda swyddog cynllunio
 - Dim sylw yn cael ei roi i'n sylwadau
 - Derbynnir ceisiadau yn rhy hwyr i fedru cynnig sylwadau arnynt.
- 3.30.1 Nodwyd y rhwystr mwyaf i fedru cyflwyno sylwadau ar geisiadau yw'r amserlen o 21 diwrnod gan nad ydynt o reidrwydd yn cynnal cyfarfod oddi fewn i'r ffenestr amser hynny.
- 3.31 Yn gyffredinol o ran materion i wella'r profiad nodwyd:
- y byddai'n fuddiol derbyn cadarnhad o'r penderfyniad gan y Cyngor
 - bod angen mwy o gydweithio rhwng adrannau'r Cyngor
 - bod angen cryfhau rheoli a gorfodaeth a phlisma ceisiadau yn fwy trylwyr
 - templed syml i glercod yn nodi beth yw'r disgwyliadau hyfforddiant yn defnyddio ceisiadau byw

- y dylai barn cyngorau cymuned / tref gael mwy o sylw na barn unigolyn e.e. gwrthwynebiad gan 16 person ar gyngor cymuned o'i gymharu ag un unigolyn
- y dylai pob cais ble mae cyngor cymuned / tref a swyddogion cynllunio yn anghytuno gael eu cyfeirio i'r Pwyllgor Cynllunio
- dylid cael mwy o gynghorwyr lleol yn rhan o'r broses
- bod angen sicrhau bod swyddogion cynllunio yn ymateb yn amserol i unrhyw gais am wybodaeth bellach / cwestiynau yn ymwneud a'r cais
- mae'r drefn o fynd drwy Galw Gwynedd yn medru bod yn llafurus pe bai'n ymholiad syml.

3.32 Mae hyn yn awgrymu darlun lle mae amseriad cyfarfodydd cyngorau cymuned yn rwystr, diffyg dealltwriaeth allai godi o beth sy'n ystyriaethau cynllunio pan yn cynnig sylwadau a diffyg cau'r cylch o ran hysbysu'r cyngorau cymuned a thref o'r penderfyniadau.

4. Prif Ganfyddiadau'r Ymchwiliad

4.1 Nodir prif ganfyddiadau'r Ymchwiliad isod gyda nodyn o'r dystiolaeth y tu cefn i'r canfyddiad hwnnw ac wedyn yr argymhelliad a wna'r Ymchwiliad yn ei ddilyn.

<p>1. Gofynion statudol</p> <p>Canfyddiadau – Mae'r broses gynllunio yn gorfod gweithredu o fewn fframwaith statudol ynghyd â Chynllun Datblygu Unedol (Cynllun Datblygu Lleol yn ystod 2017) ac felly nid oes llawer o ryddid o fewn y system.</p>
<p>Tystiolaeth –</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deddfwriaeth sylfaenol • Is-ddeddfwriaeth • Polisiâu a chanllawiau cynllunio perthnasol • Cynllun Datblygu Unedol.
<p>Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –</p> <p>Argymhellir bod yr Aelod Cabinet yn sicrhau bod y Cyngor yn monitro effaith y Cynllun Datblygu Lleol (ar ôl iddo gael ei gymeradwyo) yn rheolaidd. Yn ogystal dylid sicrhau hyfforddiant i aelodau ynghyd ag aelodau cyngorau tref a chymuned i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion cynllunio, gan ystyried mewnbwn allanol fel bo'n berthnasol.</p>

2. Perfformiad y gwasanaeth

Canfyddiadau – Ar y cyfan mae perfformiad y gwasanaeth yn dda, gyda nifer cynyddol o geisiadau yn cael eu cyflwyno. Yn sgil y trafodaethau daethpwyd i'r casgliad bod plethiad amlwg rhwng gwaith y gwasanaeth cynllunio a gwaith rheolaeth adeiladu'r Cyngor.

Tystiolaeth –

- Adroddiad perfformiad 2015-16
- Sylwadau am yr anhawster o fynd a'r maen i'r wal wrth fynd drwy Galw Gwynedd

Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –

Argymhellir i'r Aelod Cabinet gynnal adolygiad Ffordd Gwynedd i sicrhau'r gwasanaeth gorau i'r cyhoedd o ran cael gafael ar swyddog yn ogystal ac adolygu'r plethiad rhwng cynllunio a rheolaeth adeiladu i sicrhau gwasanaeth cyflawn a llyfn i'r cyhoedd.

3. Ystyriaeth i'r economi

Canfyddiadau – Mae'r Cyngor yn rhoi sylw teilwng i faterion economaidd wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol a'r Cynllun Datblygu Unedol.

Tystiolaeth –

- Cynllun Datblygu Unedol (Rhan 2) a pholisïau perthnasol y rhan hwnnw
- Tystiolaeth yr ymchwiliad bod yr economi wedi derbyn ystyriaeth deilwng wrth wneud penderfyniadau

Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –

Argymhellir i'r Aelod Cabinet bod materion yn ymwneud â'r economi yn cael sylw amlwg a phenodol yn yr adroddiad er mwyn sicrhau bod aelodau yn deall yr effaith ar yr economi e.e. pennawd ar wahân ar gyfer yr economi yn hytrach na'i fod yn cael ei golli o dan "egwyddor y datblygiad".

4. Cynllun Dirprwyo
Canfyddiadau – Mae trothwyon Cynllun Dirprwyo Gwynedd i weld yn isel o'i gymharu â sefydlaiddau eraill ac fe amlygir hynny drwy nifer y ceisiadau sy'n cael eu cyfrerio i'r Pwyllgor Cynllunio.
Tystiolaeth –
<ul style="list-style-type: none"> • Perfformiad cymharol Cymru 2015-16
Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –
Argymhellir i'r Aelod Cabinet addasu trothwyon y Cynllun Dirprwyo fel y nodir yn Atodiad 3 .

5. Profiad defnyddwyr
Canfyddiadau - Mae trefniadau ar gyfer cynnig cyngor i ddarpar ddatblygwyr yn cael ei werthfawrogi ac yn cynnig opsiynnau i ddatblygwyr addasu cais fel bo'r angen.
Tystiolaeth –
<ul style="list-style-type: none"> • Holiadur bodlonrwydd 2015-16
Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –
Argymhellir i'r Aelod Cabinet i barhau gyda'r gwaith da a bod yr Aelod Cabinet yn derbyn diweddariad rheolaidd o'r gwersi a ddysgir o'r broses.

6. Profiad cynghorau cymuned a thref

Canfyddiadau – Mae'r rhan fwyaf o gynghorau cymuned a thref a ymatebwyd yn fodlon gyda'r broses er bod sylwadau i'r gwrthwyneb wedi eu derbyn yn ogystal.

Tystiolaeth –

- Holiadur cynghorau cymuned / tref

Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –

Argymhellir bod yr Aelod Cabinet yn sicrhau hyfforddiant perthnasol i aelodau cynghorau cymuned a thref yn sgil cymeradwyaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn ystod yr Haf. Hefyd byddai llunio canllaw / templed syml i'r clercc i'w cynorthwyo i gynnig sylwadau yn fuddiol.

Yn ogystal er mwyn hwyluso'r drefn gyda'r Cynghorau Cymuned / Tref dylid cynnwys cyswllt electronig i'r cais ac awgrym pryd fyddai'r penderfyniad yn cael ei wneud o ran amserlen.

Atodiad 1 - Beth yw'r gofynion statudol sydd yn berthnasol i'r system gynllunio?

- a) Rôl y system gynllunio yw rheoleiddio'r defnydd a wneir o dir a'i ddatblygiad a hynny er budd y cyhoedd.
- b) Mae'r broses gynllunio yn gweithredu o fewn fframwaith statudol sydd yn cynnwys tair haen sef deddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth ac yna'r polisiau a'r canllawiau cynllunio perthnasol. Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol yn cynnwys ers yn ddiweddar Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, gyda'r ddeddfwriaeth sylfaenol arall yn cynnwys Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004 a Deddf Cynllunio 2008.
- c) Mae'r prif feysydd cynllunio yn cynnwys polisi cynllunio, delio gyda cheisiadau cynllunio (rheoli datblygu) a gorfodaeth cynllunio ac mae'r meysydd yma i gyd yn gweithredu o fewn y fframwaith statudol. Mae gofyn statudol i ddarparu'r swyddogaethau sydd yn berthnasol i'r prif feysydd gwaith yma.
- d) Pwysleisir fod y system gynllunio yn un sydd yn cael ei harwain gan gynllun datblygu sef y Cynllun Datblygu Unedol (Gwynedd) ar hyn o bryd. Bydd y Cynllun yma'n cael ei ddisodli gan Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar ôl iddo gael ei fabwysiadau.
- e) Mae gofyn statudol o safbwynt gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio, ac fe nodir hwn yn adran 38(6) o'r Ddeddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004. Datgan adran 38(6) fod rhaid gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu oni bai bod ystyriaethau cynllunio perthnasol yn dweud fel arall. Hwn yw'r prawf statudol. Mae ystyriaethau cynllunio perthnasol yn cynnwys Polisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol. Mae'n rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad ddod i gasgliad clir a rhesymedig ynglŷn â faint o bwysau i'w roi ar ystyriaethau cynllunio berthnasol.
- f) Ymhellach i hyn, yn fwy diweddar mae Deddf Gynllunio (Cymru) yn gofyn y dylai datblygiad fod yn gynaliadwy, gyda'r gofyn yma'n unol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 "er dibenion sicrhau bod y datblygiad tir yn cyfrannu at well llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru". Mae'r egwyddor datblygiad cynaliadwy yn golygu "bod yn rhaid gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau"

Beth yw'r gofynion o ran polisiau cynllunio cenedlaethol a lleol?

- g) Mae'r gofyn statudol o ran polisiau cynllunio wedi ei egluro uchod o ran bod rhaid gwneud penderfyniadau'n unol a'r cynllun datblygu, ac mae'r polisiau cynllunio cenedlaethol yn ystyriaethau materol hefyd wrth wneud penderfyniadau.

h) Mae'r Ddeddf Gynllunio (Cymru) 2015 wedi cadarnhau 4 haen o gynlluniau polisi sef:

- Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru'n paratoi hwn ar hyn o bryd)
- Cynllun Datblygu Strategol
- Cynllun Datblygu Lleol
- Cynlluniau Lleoedd

i) Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynnwys polisiâu defnydd tir Llywodraeth Cymru. Mae'r ddogfen, ynghyd â'r canllawiau cefnogol a geir o fewn y 23 Nodyn Cyngor Technegol (TAN) sydd wedi eu mabwysiadau yn nodi polisi'r Llywodraeth ar feysydd megis tai, yr iaith Gymraeg, twristiaeth, datblygu economaidd, cymunedau gwledig cynaliadwy, manwerthu ac ati.

Beth yw'r ystyriaethau cynllunio perthnasol wrth ddelio gyda cheisiadau cynllunio a pha bwysau a roddir i'r ystyriaethau cynllunio gwahanol?

j) Mae beth sydd yn cael ei ystyried i fod yn ystyriaethau cynllunio perthnasol yn gwbl ddibynnol ar beth yw natur a lleoliad y datblygiad sydd yn cael ei gynnig yn y cais ac felly yn gallu amrywio o gais i gais. Hefyd, mae'r pwysau a roddir i'r ystyriaethau cynllunio perthnasol yn dibynnu eto ar beth yw natur y datblygiad sydd yn cael ei gynnig yn y cais. Mae'n rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad ddod i gasgliad clir a rhesymedig ynglŷn â faint o bwysau i'w roi ar ystyriaeth cynllunio berthnasol wrth benderfynu ar gais cynllunio.

k) Gall ystyriaethau cynllunio defnydd tir perthnasol gynnwys darpariaeth o dai fforddiadwy, yr effaith ar yr economi, mwynderau preswyl trigolion, mwynderau cyffredinol yr ardal, materion trafnidiaeth, yr iaith Gymraeg, bioamrywiaeth, mwynderau gweledol, effaith ar y tirlun, effaith ar yr amgylchedd ayyb. Asesir yr holl ystyriaethau cynllunio perthnasol yng nghydestun y Cynllun Datblygu gan roi ystyriaeth hefyd i bolisiâu cenedlaethol

Faint o ryddid sydd gan y gyfundrefn gynllunio o fewn y fframweithiau uchod?

a) Mae'r fframwaith yn statudol ac felly nid oes 'rhyddid' o fewn y gyfundrefn gynllunio. Fel y nodwyd uchod mae'n rhaid gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu oni bai bod ystyriaethau cynllunio perthnasol yn dweud fel arall. Mae risg sylweddol i'r Cyngor o beidio gwneud hyn gan y gall 3ydd parti gyflwyno achos am adolygiad barnwrol (judicial review) neu gall yr ymgeisydd/asiant gyflwyno apêl i'r Arolygaeth Gynllunio a gall y Cyngor gael ei farnu neu gall fod costau yn erbyn y Cyngor.

Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) Cyngor Gwynedd

ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL (APB) CYNLLUNIO 2016

RHAGAIR

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r ail Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Gwynedd. Mae cynllunio da wrth galon yr hyn yr ydym yn ei wneud fel Cyngor, gan greu lleoliadau da a diogel i'n preswylwyr fyw, gweithio a mwynhau eu hamser hamdden ynddynt. Gall y Gwasanaeth Cynllunio gynorthwyo i gyflawni'r amcanion hyn drwy gynhyrchu twf yn yr economi a diogelu ein cynefinoedd naturiol, ein cymunedau a'n diwylliant. Yn dilyn cyflwyno'r Ddeddf Gynllunio gyntaf ar gyfer Cymru yn 2015, a'r amryfal ymgynghoriad dilynol fel rhan o'i gweithrediad, mae'r Cyngor hwn wedi croesawu'r symudiad tuag at gynllunio cadarnhaol er mwyn helpu i gyfrannu at anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol preswylwyr Gwynedd.

Y Cyngorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet (Cynllunio a Rheoleiddio)

CYD-DESTUN

Trosolwg

1. Mae ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd yn ardal wledig fawr sydd wedi'i lleoli yng nghornel gogledd-orllewinol Cymru. Mae'n mesur oddeutu 1,699 cilometr sgwâr o ran maint daearyddol. Mae'r ardal yn rhannu ffin arfordirol ar draws Y Fenai gyda Chyngor Sir Ynys Môn. Ceir perthynas trawsffiniol gref gydag Ynys Môn o ran swyddogaeth, economi ac isadeiledd yn ogystal â pholisi (gweler isod). Mae Cyngor Gwynedd yn rhannu ffin ddaearol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion. Amcangyfrifir bod 100,516 o bobl yn byw yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd yn 2011. Cofnodwyd amcangyfrif o 42,478 o aelwydydd yn yr ardal. Mae 65% o drigolion Gwynedd (y Sir) yn siarad Cymraeg a dyma yw iaith weinyddol fewnol y Cyngor hefyd. Mae'r Cyngor yn darparu ei holl wasanaethau yn ddwyieithog. Gellir canfod ystadegau allweddol am boblogaeth ac aelwydydd Gwynedd yn: <https://www.gwynedd.gov.uk/en/Council/Key-statistics-and-data/The-Census/2011-Census-Key-Statistics.aspx>
2. Yn ffinio â Pharc Cenedlaethol Eryri, mae ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd yn cynnwys asedau tirwedd a bioamrywiaeth o werth uchel sydd wedi'u cydnabod a'u dynodi'n lleol, yn genedlaethol a rhyngwladol. Er enghraifft, dynodwyd rhan fawr o Ben Llŷn fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ym 1956, yn un o bump yng Nghymru. Gellir olrhain dylanwad dynol ar y dirwedd yn ôl i oes y cynfyd a gellir gweld hyn mewn nifer fawr o nodweddion amlwg sydd wedi'u dynodi oherwydd eu gwerth arbennig, e.e. Safle Treftadaeth y Byd, Adeiladau Rhestredig, Henebion Cofrestredig, Parciau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth. O ganlyniad i'r holl adnoddau cydnabyddedig hyn, mae'r ardal yn denu nifer fawr o dwristiaid / ymwelwyr sy'n cyrraedd yma drwy ddefnyddio'r priffyrdd,

rheilffyrdd, porthladd Caergybi yn Ynys Môn a marinas amrywiol. Yn 2015, daeth oddeutu 6.88 miliwn o ymwelwyr i Wynedd gan greu £963.93 miliwn o refeniw.

3. Amaethyddiaeth yw'r prif ddefnydd tir gyda phentrefi a threfi bychan a ganfyddir ar y mewndir ac mae'r rhan fwyaf o'r trefi mwy ar hyd yr arfordir. Yn gyffredinol, lleolir y cyflogwyr mwyaf a'r amrediad mwyaf o wasanaethau, cludiant a thelegyfathrebu yn y trefi mwy yma. Mae Bangor, a gydnabyddir fel canolfan isranbarthol, yn gartref i Brifysgol Bangor ac Ysbyty Gwynedd sy'n gydrannau pwysig o broffil mudo rhyngwladol Gwynedd. Fodd bynnag, yn aml iawn mae'r cymunedau mwy trefol yn arddangos cyferbyniadau llwyr wrth i ardaloedd hynod ddifreintiedig fod mor agos at yr ardaloedd mwyaf llewyrchus.
4. Y tu hwnt i'r ardal arfordirol ddatblygedig, mae'r ardal yn wledig gan fwyaf gyda sawl ardal anghysbell, yn enwedig ym Meirionnydd a Llŷn. Mae'r materion sydd angen eu cyfarch yn yr ardaloedd hyn yn wahanol iawn, gyda'r amgylchedd naturiol trawiadol ac arbennig yn cuddio'r amddifadedd a'r cyflogau isel ac effaith negyddol eu lleoliadau ymylol. Yn 2015, roedd canolrif incwm aelwydydd yng Ngwynedd (£22,240) 9% o dan y ffigwr ar gyfer Cymru (£24,271) a 29% yn is na'r ffigwr ar gyfer Prydain (£28, 696). Yn 2014, canolrif pris ar gyfer tŷ a werthwyd yng Ngwynedd oedd £144,000 sy'n gynydd o 9.1% o'i gymharu â 2011.
5. Mae dadansoddiad o duedd fwyaf diweddar Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar ragamcanion y boblogaeth a chartrefi (sail 2011), yn awgrymu y gall poblogaeth yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd gynyddu 6.2% dros gyfnod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (2011 - 2026), gyda 9.0% o gynydd mewn cartrefi dros yr un cyfnod.
6. Mae ei leoliad ymylol yn golygu bod yr ardal yn dal i ddioddef effaith dirwasgiad byd-eang gyda galw isel o ganlyniad am bob math o eiddo a thir. Mae nifer o gartrefi o oed gwaith yn symud allan o'r ardal i chwilio am waith. Fodd bynnag, mae achos cryf iawn am obaith i'r cyfleoedd gwaith cynyddol sylweddol a ddisgwylir sy'n gysylltiedig ag adeiladu Wylfa Newydd, a phrosiectau isadeiledd mawr eraill sy'n cael eu hybu yn Ynys Môn a Pharth Menter Eryri. Amcangyfrifir y caiff £2.5 biliwn ei ychwanegu i economi Ynys Môn a gogledd Cymru dros y 15 mlynedd nesaf.
7. Dyma'r Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd, - "Cryfhau cymunedau yng Ngwynedd a Môn" (2014), sy'n ymgorffori gweledigaeth a chynllun gweithredu Bwrdd Gwasanaethau Lleol y siroedd. Adnabuwyd cyfres o flaenoriaethau sy'n rhoi cynllunio ar gyfer cymunedau iach, diogel a ffyniannus yn y canol. Gweledigaeth Cyngor Gwynedd, fel y'i diffiniwyd yn ei Gynllun Strategol (2015-2017), yw sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion pobl Gwynedd, er gwaethaf y ffaith bod adnoddau'r Cyngor yn lleihau. Bydd y pwyslais ar wella gallu'r Cyngor i sicrhau'r gorau i bobl Gwynedd, a bydd modd iddo wneud hynny drwy drawsffurfio gwasanaethau i ddod yn wasanaethau y gall y Cyngor eu cynnal i'r dyfodol. Mae'r strategaeth yn ceisio trafod nifer o feysydd blaenoriaeth: plant a phobl ifanc; gofal; tlodi; amddifadedd; yr economi; tai; yr iaith Gymraeg; Cyngor effeithiol ac effeithlon; cynllunio ariannol.
8. Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (CDU Gwynedd) a fabwysiadwyd yn 2009 yw 'cynllun datblygu' Gwynedd (ac eithrio'r ardal o dan Barc Cenedlaethol Eryri). Disodlodd gyfres o Gynlluniau Lleol, a fabwysiadwyd yn y 1970au, 80au a 90au, yn ogystal â Chynllun


Fframwaith Gwynedd (1993). Mae CDU Gwynedd a chyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) a fabwysiadwyd yn rhoi sail i benderfyniadau ar geisiadau cynllunio tan y byddent yn cael eu disodli gan Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLI ar y Cyd) a set newydd o CCA. Ar ôl cynnal ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2015, mae'r CDLI ar y Cyd yn mynd drwy'r cam Archwilio ar hyn o bryd ac mae wedi'i raglennu i gael ei fabwysiadu yn ystod Gwanwyn 2017.

- Bydd gan y CDLI ar y Cyd, pan gaiff ei fabwysiadu, rôl gritigol o ran cefnogi a darparu'r blaenoriaethau sydd â gofynion gofodol yn y Cynllun Integredig Sengl a Chynllun Strategol y Cyngor. Mae'r strategaeth y CDLI ar y Cyd sydd ar fin ei chyhoeddi yn cynnwys prif elfennau ei weledigaeth a'i amcanion ac yn pennu'r prif ddefnydd tir fydd yn eu cyflawni. Yn unol â'r Cynllun Integredig Sengl a'r Cynllun Strategol, bwriad y Strategaeth yn ehangach yw cryfhau cymunedau, gan adeiladu ar nifer o elfennau a themâu trawsbynciol megis: - cymunedau cynaliadwy, twf economaidd ac adfywio, tai o ansawdd, yr amgylchedd naturiol ac adeiledig, yr iaith a diwylliant Cymraeg, newid hinsawdd a datblygu cynaliadwy, creu lleoliadau o ansawdd www.gwynedd.gov.uk/ldp


GWASANAETH CYNLLUNIO

Strwythur Sefydliadol

- Lleolir pob un o swyddogaethau cynllunio'r Cyngor o fewn y Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd, sydd o fewn yr Adran Reoleiddio. Mae Pennaeth yr Adran Reoleiddio yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr. Gwelir strwythur corfforaethol y Cyngor isod:



11. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylcheddol yn cynnwys 7 Uned sy'n adrodd yn uniongyrchol i Uwch Reolwr y Gwasanaeth. Mae 5 Uned benodol sy'n ymwneud â chynllunio, gan gynnwys yr Uned Datblygu Rheolaeth (sy'n cynnwys Rheolwr Uned a 7 Swyddog Achos), yr Uned Gorfodaeth (sy'n cynnwys Rheolwr Uned a 3 Swyddog Achos), yr Uned Gefnogol (sy'n darparu cefnogaeth i Rheolaeth Datblygu a Gorfodaeth yn bennaf - sy'n cynnwys Rheolwr Uned a 5 aelod staff cefnogol), Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn (sy'n cynnwys Rheolwr Uned ac 11 aelod staff cynllunio). Mae'r Uned Mwynau a Gwastraff yn cynnwys Uwch Swyddog Cadwraeth ac Uwch Swyddog Cynllunio (Mwynau a Gwastraff).
12. Sefydlwyd Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn (UPCC) drwy Gytundeb Rhannu Gwasanaeth yn 2011. Ariennir yr UPCC hanner yn hanner gan Wynedd a Môn. Sefydlwyd Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd sy'n cynnwys saith Aelod o'r ddau Awdurdod i wneud penderfyniadau a phennu'r prif gamau yn y broses o gynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae'r UPCC yn darparu gwasanaeth polisi cynllunio cyflawn i'r ddau Awdurdod a chaiff ei weinyddu gan Gyngor Gwynedd.
13. Yn ogystal, mae gan Gyngor Gwynedd Gytundeb Rhannu Gwasanaeth gydag Awdurdodau eraill yn rhanbarth gogledd Cymru, ar gyfer darparu Gwasanaeth Cynllunio Mwynau a Gwastraff sy'n cael ei rannu. Sefydlwyd Gwasanaeth Cynllunio Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru ym mis Ebrill 2011, gyda Chyngor Sir y Fflint yn arwain. Secondiad Uwch Swyddog Cynllunio (Mwynau a Gwastraff) yw cyfraniad Gwynedd i Wasanaeth Gogledd Cymru.
14. Ers mis Medi 2014, mae Swyddogaeth Pridiannau Tir y Cyngor wedi ei throsglwyddo i'r Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd, ac fe'i lleolir o fewn yr Uned Gefnogol. Gweler strwythur y Gwasanaeth isod:



Yn dilyn ymddeoliad Uwch Reolwr Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor yn gynnar yn ystod 2015-16, unodd Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd gyda'r Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd a arweiniodd at greu swydd Uwch Reolwr Gwasanaethau Cynllunio, Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd ar sail dros dro. Ceir 4 Uned gan Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd sy'n cynnwys Cefnogaeth, Safonau Masnach, Amgylchedd a Lles (Hylendid Bwyd ac Iechyd a Diogelwch).

Ymateb i gyfyngiadau / heriau ariannol

Cyd-destun

15. Yn 2010-11, roedd y Gwasanaeth Cynllunio, oedd yn cynnwys Rheolaeth Datblygu, Gorfodaeth a Chefnogol ar y pryd, yn destun arolwg llawn er mwyn cyfrannu at raglen arbedion effeithlonrwydd yr Adran. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn oedd arolwg Strwythurau'r Pwyllgor Cynllunio. Ar y pryd, gweinyddwyd y Gwasanaeth Cynllunio mewn tair swyddfa ardal (Arfon, Dwyfor a Meirionnydd), gyda thri Phwyllgor Cynllunio Ardal yn cael eu cynnal bob mis (yn cynnwys 75 Aelod Gwynedd) yn gwneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio.
16. Roedd arolwg y Gwasanaeth Cynllunio yn cynnwys arolwg llawn o'r prosesau gwaith ac ailstrwythuro'r Gwasanaeth. Gweledigaeth y Gwasanaeth Cynllunio oedd:

"Gwneud y gorau o'r defnydd mwyaf effeithiol ac effeithlon o adnoddau er mwyn sefydlu Gwasanaeth Cynllunio cryf fydd yn hybu gwelliannau ac yn cynnig ansawdd da sy'n canolbwyntio ar y cwsmer".
17. Arweiniodd arolwg y Gwasanaeth Cynllunio ar drawsffurfiad y Gwasanaeth, gyda'r gwasanaeth newydd yn dod yn weithredol ym mis Ebrill 2011. Bu i drawsffurfiad y gwasanaeth symud i ffwrdd o weinyddiaeth y gwasanaeth oedd yn seiliedig ar ardal, i ddarparu gweinyddiaeth / cefnogaeth ganolog i'r Gwasanaeth ym Mhwlheli, ond gyda darpariaeth gwasanaeth sir gyfan gyda system o weithio o sawl gweithfan yn cael ei darparu i Swyddogion Achos yng Nghaernarfon, Bangor a Dolgellau (yn ogystal â'u swyddfeydd ym Mhwlheli). Roedd y trawsffurfiad hefyd yn ail-ddylunio prosesau gwaith gan ddefnyddio egwyddorion darbodus, gwell opsiynau hunan wasanaeth i gwsmeriaid a mwy o gyfathrebu electroneg. Hefyd, sefydlwyd gweithdrefnau ar gyfer darparu cyngor ffurfiol cyn cyflwyno cais a chynnig pwynt cyswllt cychwynnol i gwsmeriaid drwy Ganolfan Gyswllt y Cyngor ("Galw Gwynedd").
18. Yn sgil trawsffurfio'r Gwasanaeth, cyflawnwyd arbedion effeithlonrwydd o oddeutu £300,000 ac mae'r newidiadau a roddwyd ar waith ym mis Ebrill 2011 yn ffurfio sail i'r Gwasanaeth Cynllunio presennol o ran Rheolaeth Datblygu, Gorfodaeth a Chefnogaeth.
19. Ar yr un pryd ag adolygu a thrawsffurfio'r Gwasanaeth, cytunodd y Cyngor Llawn i ailstrwythuro'r tri Phwyllgor Cynllunio Ardal a chreu un Pwyllgor Cynllunio i'w gynnal bob tair wythnos, yn cynnwys 15 Aelod, sy'n weithredol hyd heddiw.
20. Ym mis Ebrill 2012, unwyd y Gwasanaeth Cynllunio a'r Gwasanaeth Amgylchedd i ffurfio'r Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd sydd wedi arwain at fwy o arbedion effeithlonrwydd ar lefel Uwch Reolwyr. Fel y nodwyd eisoes, unodd Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd hefyd yn gynnar yn 2015/16, ond ar sail dros dro.
21. Ym mis Mawrth 2016, cytunodd y Cyngor Llawn ar doriadau pellach a oedd yn ychwanegol i'r arbedion effeithlonrwydd a gytunwyd yn 2015, ar gyfer y cyfnod rhwng 2015-18. Mae

Rhaglen Arbedion Effeithlonrwydd y Cyngor ar gyfer yr Adran Rheoleiddio sy'n deillio o gyllideb a gaiff ei rheoli o £10,288,000 nawr yn cynnwys y targedau a ganlyn:

Blwyddyn	Targed
2015/16	£560,390
2016/17	£589,480
2017/18	£798,363
2018/19	£16,670
Cyfanswm	£3,363,713

22. Ar hyn o bryd, mae'r Adran ar y trywydd iawn i gyflawni arbedion effeithlonrwydd o £3,363,713 yn ystod 2015-18 sy'n cynnwys arbedion o £794,093 o'r Gwasanaethau Cynllunio, Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd (trefniant Gwasanaeth Dros Dro), ac mae £159,513 o hyn yn ymwneud yn benodol â'r swyddogaethau cynllunio. Ar gyfer Cynllunio, bydd yr arbedion hyn yn cynnwys rhesymoli'r Unedau Rheolaeth Datblygu, Gorfodaeth a Chefnogol gan ddileu 3 swydd. Bydd hyn yn arwain at yr Unedau Rheolaeth Datblygu a Gorfodaeth yn uno yn 2017-18. Bydd 4 swydd yn cael eu dileu o'r UPCC fydd yn gostwng o 12 i 8 aelod staff a bydd yr arbediad yn cael ei haneru gydag Ynys Môn, gyda hyn wedi'i raglennu ar gyfer 2017/18 ar ôl i'r CDLI ar y Cyd gael ei fabwysiadu.

Cyllideb Weithredol

23. Mae'r incwm y mae Cynllunio'n ei gynhyrchu drwy godi ffioedd cynllunio wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn dros y tair blynedd diwethaf ac mae'r gwir incwm a dderbyniwyd yn uwch na'r incwm a nodwyd yn y gyllideb. O ganlyniad, yn y blynyddoedd diwethaf, nid yw'r Gwasanaeth wedi gorfod ymdrin â sefyllfa lle mae'r gwir incwm a dderbynnir yn is na'r incwm a nodwyd yn y gyllideb nac wedi gorfod wynebu'r anawsterau posib yn sgil hynny o geisio mantoli'r gyllideb gyffredinol.
24. Nid yw'r Gwasanaeth Cynllunio'n cadw'r incwm o'r ffioedd cynllunio a chaiff y targed incwm y cyllidir ar ei gyfer ei osod wrth ystyried y gwir incwm a gynhyrchwyd yn y blynyddoedd blaenorol. Mae'r wybodaeth sy'n ymwneud â ffioedd cynllunio wedi cael ei chynnwys yn y tabl a ganlyn:

Ffioedd Cynllunio	2015/16	2014/15	2013/14	2012/13
Incwm yn y Gyllideb	471,680.00	419,770.00	375,520.00	362,010.00
Gwir Incwm	576,770.50	514,325.28	516,724.16	458,416.00
Gwahaniaeth	105,090.50	94,555.28	141,204.16	96,406.00

25. Mae'r gyllideb net at gyfer Cynllunio sy'n cynnwys Rheolaeth Datblygu, Gorfodaeth, Cefnogol, UPCC, Mwynau a Gwastraff a Chadwraeth fel a ganlyn:

Cyllideb Net Cynllunio	2015/16	2014/15	2013/14	2012/13
Cyfanswm	770,070	858,060	1,077,320	932,690

26. Mae swyddogaeth Pridiannau Tir y Cyngor, sydd wedi'i leoli o fewn Uned Gefnogol y Gwasanaeth Cynllunio ers mis Medi 2014 wedi cynhyrchu'r incwm a ganlyn:

Pridiannau Tir	2015/16	2014/15	2013/14	2012/13
Incwm yn y Gyllideb	178,860.00	173,940.00	159,940.00	158,520.00
Gwir Incwm	228,178	191,544.49	192,641.60	164,077.50
Gwahaniaeth	49,318.00	17,604.49	32,701.60	5,557.50

Materion Staffio

27. Mae gan y Cyngor Raglen Hyfforddiant Corfforaethol a gweithdrefnau corfforaethol ar gyfer gwerthuso staff. Mae'r gweithdrefnau gwerthuso staff yn helpu i adnabod anghenion hyfforddi'r staff sy'n cynnwys yr hyfforddiant a ddarperir o fewn y Rhaglen Hyfforddi Corfforaethol (sy'n cynnwys cyrsiau rheoli megis ILM) a hyfforddiant sy'n fwy penodol ar gyfer Cynllunio.
28. Yn ogystal â'r uchod, mae gan yr Adran Rheoleiddio gyllideb ar gyfer hyfforddiant ac mae buddsoddiad sylweddol wedi bod i ddatblygu staff cynllunio dros y blynyddoedd trwy dalu am hyfforddiant cynllunio arbenigol. Mae hyn wedi arwain i saith aelod staff presennol elwa o gymwysterau MSC Cynllunio ac Amgylchedd. Yn ogystal â'r uchod, mae'r Adran wedi talu am hyfforddiant arbenigol yn y maes Cadwraeth sydd wedi sicrhau cynllunio dilynol effeithiol lle mae Swyddog Rheoli Datblygu bellach wedi symud i swydd Uwch Swyddog Cadwraeth y Cyngor. Dros y blynyddoedd mae'r Adran wedi adnabod meysydd o'r Gwasanaeth lle mae angen sicrhau dilyniant ac wedi bod yn llwyddiannus wrth gyflawni hyn o fewn y Gwasanaeth, gyda nifer o staff dros y blynyddoedd yn elwa o gyfleoedd i ddatblygu eu gyrfa.
29. Mae prosesau cynllunio busnes yr Adran a'r Gwasanaeth yn adnabod y meysydd risg hynny lle mae arbenigedd a gwytnwch yn brin ac yn ceisio rhoi mesurau ar waith i reoli / lleddfu risgiau o'r fath er mwyn sicrhau y caiff y gwasanaeth ei ddarparu.
30. Pan drawsffurfiwyd y Gwasanaeth Cynllunio ym mis Ebrill 2011 adolygwyd pob swydd ddisgrifiad gan addasu rhai a chreu rhai newydd. Cynhaliwyd y broses hon wrth ystyried datblygiad parhaus staff, gwytnwch a defnydd hyblyg adnoddau staffio, i ymdrin â'r newidiadau posib yn y galw am Wasanaeth ac ym mlaenoriaethau'r Gwasanaeth. I'r perwyl hwn, mae modd symud pob swydd o fewn Rheoli Datblygu sydd ar yr un lefel (e.e. Swyddog

Rheoli Datblygu a Swyddog Gorfodi Cynllunio) er mwyn medru targedu'r adnodd staffio yn unol ag anghenion y Gwasanaeth a'i gwsmeriaid pan fo hynny'n bosib.

31. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae mwynau a chynllunio gwastraff wedi bod yn faes cynllunio lle ceir arbenigedd cyfyngedig iawn, nid yn unig yng Ngwynedd, ond yng ngogledd Cymru hefyd. Mae'r cytundeb yng ngogledd Cymru i sefydlu Gwasanaeth Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru gan secondio Swyddog i'r Gwasanaeth wedi arwain at wasanaeth mwy gwydn i Wynedd ac i ranbarth gogledd Cymru. Wrth i'r Awdurdodau Partner wynebu amseroedd heriol yn ariannol, mae'r trefniant presennol yn gontract blynyddol parhaus sydd hefyd yn cael ei adolygu'n flynyddol.
32. Mae sefydlu Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn hefyd wedi darparu cyfleoedd datblygu gyrfa i'r ddau Awdurdod ac wedi helpu i rannu ac uno arbenigedd o fewn yr Uned sydd wedi arwain at fwy o wytnwch i'r ddau Awdurdod.
33. Nid oes swyddi gwag o fewn y Gwasanaeth Cynllunio ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd ar gyfer 2015-18, nid oes unrhyw doriadau pellach yn yr arfaeth ar gyfer Rheolaeth Datblygu, Gorfodaeth na'r Uned Gefnogol. Fodd bynnag, er mwyn i Reolaeth Datblygu a Gorfodaeth weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol, maent yn ddibynnol ar gyngor arbenigol yr UPCC, yr Uned Bioamrywiaeth, y Gwasanaeth Trafnidiaeth a'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd. Mae toriadau yn yr arfaeth ar gyfer 2015-18 i'r holl wasanaethau hyn, ac o'u gweithredu, maent yn debygol o gael effaith andwyol ar ansawdd y penderfyniadau a wneir ar geisiadau cynllunio ac achosion gorfodaeth yn ogystal â'r amser a dreulir yn gwneud y penderfyniadau hynny.

EIN STORI LEOL

Ceisiadau cynllunio

34. Mae llwyth gwaith y Gwasanaeth Cynllunio o ran y ceisiadau cynllunio sydd wedi'u cofrestru wedi bod yn sefydlog yn y tair blynedd diwethaf, ond mae'r niferoedd wedi cynyddu ers 2011-12 pan gofrestrwyd 1068 o geisiadau o'i gymharu â'r 1127 a gofrestrwyd yn 2014-15 a 1304 ac yn 2015-16. Felly, mae llwyth gwaith y saith Swyddog Rheolaeth Datblygu wedi cynyddu o 160 o geisiadau cynllunio mewn blwyddyn yn 2014-15 i oddeutu 186 yn 2015-16.
35. Mae rhai ceisiadau mawr wedi cael eu cyflwyno yng Ngwynedd yn ystod y cyfnod rhwng 2012 a 2016 sy'n cynnwys:
 - Ailddatblygu Campws Prifysgol Bangor ar safle'r Santes Fair, Lôn Bobty gan gynnwys llety i oddeutu 600 o fyfyrwyr. Trafodaethau cyn cyflwyno cais ynglŷn â phrosiectau yn y dyfodol a dull tîm datblygu ar gyfer y Rhanbarth Gwyddoniaeth a Thechnoleg arfaethedig, gyda datblygiad i alluogi eisoes wedi'i weithredu.
 - Datblygu 245 o dai (gan gynnwys 86 tŷ fforddiadwy) ym Mhenrhosgarnedd, Bangor, ar safle sydd wedi'i ddynodi ar gyfer tai yn CDU Gwynedd (Ar y pryd - hwn oedd un o'r datblygiadau tai mwyaf yng Ngwynedd yn y blynyddoedd diwethaf). Gwrthodwyd cais amlinellol ar gyfer cynnig am 366 o dai ar safle wedi'i ddynodi gan y Pwyllgor Cynllunio yn groes i argymhelliad

swyddogion, oherwydd pryderon y byddai'r datblygiad (sef y datblygiad tai mwyaf erioed yng Ngwynedd) yn cael effaith andwyol ar yr Iaith Gymraeg. Mae'r gwrandawriad apêl wedi'i drefnu ym mis Rhagfyr 2016.

- Cynllun a ganiatawyd ar gyfer cyfleuster storfa Bwmpio 49MW yng Nglynrhonwy, Llanberis wedi'i ailgyflwyno er mwyn cynhyrchu 99.9MW fel cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu. Daeth ymchwiliad i'r GCD i ben ym mis Medi 2016.
 - Ailddatblygu'r Academi Hwyllo (Plas Heli), Glan y Don, Pwllheli – roedd y Cyngor yn arwain ar y datblygiad hwn i gyflawni gwelliannau sylweddol i'r cyfleusterau presennol er mwyn ychwanegu at yr hyn oedd eisoes yn gyrchfan hwyllo'n denu digwyddiadau / cystadlaethau rhyngwladol.
 - Nifer o geisiadau am ysgolion newydd yn y Sir.
 - Estyniad sylweddol i warws presennol Bookpeople yn diogelu swyddi yn ardal Bangor yn y sir.
36. Bu cefnogaeth barhaus hefyd i'r amrywiol geisiadau yn ymwneud â gweithgareddau awyr agored yn cynnwys rhai ar gyfer Zip World yn Chwarel y Penrhyn, Bethesda a Chwarel Llechwedd, Blaenau Ffestiniog, sydd hefyd wedi gweld Bounce Below yn cael ei ddatblygu. Mae'r rhain wedi bod yn llwyddiannus iawn ac wedi cyfrannu'n gadarnhaol i'r economi leol gan gynorthwyo i sefydlu Gwynedd a gogledd ddwyrain Cymru fel prif gyrchfannau ar gyfer gweithgareddau awyr agored.
37. Rhoddwyd cefnogaeth barhaus hefyd i sawl cynllun twristiaeth/economaidd yn y sir oedd yn galluogi pobl i sefydlu neu ehangu mentrau bychan eraill, ond mentrau sydd yr un mor bwysig efallai, megis gwestai a ffurfiau eraill o lety ymwelwyr, becws lleol, bragdy, mentrau gwledig arbenigol, ailddatblygu safleoedd manwerthu, ymestyn atyniadau presennol, arallgyfeirio ar ffermydd, datblygiadau solar mawr a chynlluniau hydro ar raddfa fechan ac yn y blaen - gyda'r cyfan yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at yr economi leol.

Cyn gwneud cais

38. Ers trawsffurfio'r Gwasanaeth Cynllunio yn 2011 mae pob math o ymholiadau cyn gwneud cais yn cael eu cofnodi yn y system swyddfa gefn a derbyniwyd 3214 o ymholiadau yn 2011-12 o'i gymharu â 2292 yn 2014-15. Yn ystod 2015-16, cynyddodd y nifer o ymholiadau a dderbyniodd y Gwasanaeth yn sylweddol i 2909. Gellir priodoli'r gostyngiad yn nifer yr ymholiadau a dderbyniwyd ac a ymdriniwyd â hwy'n uniongyrchol gan y Gwasanaeth Cynllunio rhwng 2011-12 a 2014-15 i gynnydd yn nifer yr ymholiadau cyffredinol y mae'r ganolfan gyswllt yn ymdrin â hwy'n uniongyrchol ar ran y Gwasanaeth Cynllunio. Gellir egluro'r cynnydd sylweddol mewn ymholiadau diweddar drwy'r newid diweddar yn neddfwriaeth gynllunio a'r ffaith bod y gwasanaeth cyn cyflwyno cais a ddarperir wedi'i ffurfioli'n statudol.

39. Ers mis Ebrill 2015 mae'r Cyngor wedi bod yn gweithredu cynllun codi ffi am gyngor cyn cyflwyno cais a daeth hyn yn orfodol ym mis Ebrill 2016. Ble bo'n briodol, defnyddir dull tîm datblygu fel rhan o'r broses darparu cyngor cyn cyflwyno cais.
40. Mae prosiectau presennol ar raddfa fawr sy'n elwa o gyngor / fewnbwn cyn cyflwyno cais yn cynnwys cynlluniau megis Cyswllt *National Grid* o Wylfa i Bentir; prosiect *National Grid VIP* Penrhyndeudraeth a phrosiectau *National Grid* cysylltiol eraill; Ffordd osgoi Caernarfon; aildatblygu safle'r Ynys, Caernarfon, cyflogwr mawr yn chwilio am rywle i adleoli ac yn y blaen.

Gorfodaeth Gynllunio

41. Mae'r gwaith gorfodaeth gynllunio'n cynnwys gwaith adweithiol a gwaith rhagweithiol ac mae'r Strategaeth Orfodaeth (sy'n ychwanegol i'r Polisi Gorfodaeth), a gytunwyd gan y Cabinet yn 2014-15, yn amlinellu fframwaith ar gyfer cyflawni'r gwaith. Diben y Strategaeth Orfodaeth oedd ceisio taro cydbwysedd rhwng y gwaith adweithiol dyddiol a'r gwaith rhagweithiol fyddai'n gallu ychwanegu gwerth, fodd bynnag, mae llwyddiant hyn yn ddibynnol ar yr adnoddau staff sydd ar gael.
42. Mae nifer yr achosion gorfodaeth cynllunio / y cwynion a dderbyniwyd (y gwaith adweithiol) yn y blynyddoedd diwethaf wedi aros yn eithaf sefydlog ar oddeutu 500 achos y flwyddyn, sef oddeutu 165 cais i bob un o'r tri swyddog achos mewn blwyddyn. Yn ogystal ag ymdrin ag achosion gorfodaeth, mae'r Uned Gorfodaeth hefyd yn derbyn oddeutu 500 o ymholiadau cyffredinol sy'n ymwneud â materion gorfodaeth.
43. Mae'r gwaith rhagweithiol sydd wedi'i amlinellu yn y Strategaeth Orfodaeth yn cynnwys monitro sampl o feysydd carafanau pob blwyddyn. Yn 2014-15, yn sgil pryderon gan Aelodau ynghylch caniatáu ceisiadau cynllunio ar gyfer tymor gwyliau 12 mis ar rai safleoedd carafanau sefydlog, mae'r Uned wedi blaenoriaethu monitro'r safleoedd carafanau sefydlog sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio i weithredu tymor gwyliau 12 mis. Parhaodd y gwaith monitro rhagweithiol hwn yn 2015-16 mewn cyfnod pan ddarparwyd adroddiad diweddar i Fforwm Ardal Dwyfor, sef Fforwm Aelodau ar gyfer ardal o'r Sir sydd â'r dwysedd uchel o safleoedd carafanau. Mae'r Uned Gorfodaeth hefyd yn gyfrifol am weinyddu cofrestr y Gorchmynion Cadw Coed ac mae wrthi'n adolygu ac yn cysoni'r gofrestr (gyda mewnbwn yr Uned Bioamrywiaeth). Mae'r Uned Gorfodaeth hefyd yn monitro ceisiadau cynllunio sydd wedi bod yn destun cytundeb 106 gan flaenoriaethu ceisiadau sy'n cynnwys cyfraniadau ariannol a wneir yn gyfnewid am dai fforddiadwy. Mae'r datblygiad o 245 o dai ym Mhenrhosgarnedd, Bangor (y cyfeirir ato uchod) yn enghraifft o hyn, ble y talwyd swm o dros £1 miliwn ar gyfer gwelliannau addysg a phrifyrdd.

Polisi cynllunio

44. Ar hyn o bryd, Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn yw'r unig enghraifft o Awdurdodau Cymru'n cydweithio i lunio un Cynllun Datblygu Unedol ar y Cyd ar gyfer ardaloedd yr awdurdodau cynllunio lleol. Roedd rhesymau cynllunio a rhesymau arbed costau a gyfrannodd at gyfiawnhau achos busnes i sefydlu'r UPCC ar gyfer llunio Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael hyd yn hyn wedi dangos fod y broses

o baratoi'r cynllun wedi arwain at osgoi costau. Mae costau wedi cael eu hosgoi yn y gwaith a gomisiynwyd, mae'r Uned / y Cynghorau wedi ymgymryd â mwy o'r gwaith yn fewnol a dylai cynnal un ymchwiliad cyhoeddus hefyd arbed costau. Mae'r CDLI ar y Cyd yn mynd yn ei flaen yn dda ac wedi bod yn mynd drwy'r cam Archwilio ers mis Mawrth 2016. Disgwylir y bydd Materion sy'n Codi Newidiadau yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod 3 Chwarter 2016/2017. Pe cedwir at yr amserlen bresennol, bydd y Cynllun yn cael ei fabwysiadu ym mis Mawrth / Ebrill 2017, sef 12 mis o ddyddiad y cytundeb cyflawni gwreiddiol.

Prosiectau sydd ar y gweill a phwysau lleol

45. Mae prosiectau isadeiledd mawr ar y gweill yng ngogledd orllewin Cymru ar hyn o bryd, a bydd y rhain yn effeithio ar Gyngor Gwynedd ac yn fwy penodol ar y galw am adnoddau o fewn y Gwasanaeth Cynllunio. Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys:
46. **Prosiect Cysylltu Gogledd Cymru'r *National Grid*** : Mae hyn yn ymwneud â chynyddu capasiti'r rhwydwaith trydan rhwng Wylfa Newydd a Thrawsfynydd er mwyn trosglwyddo'r capasiti ychwanegol fydd yn cael ei gynhyrchu gan gynlluniau ynni mawr, megis Wylfa Newydd. Mae gan Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn Gytundeb Perfformiad Cynllunio ar y Cyd gyda'r *National Grid*, sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer ymgysylltu cyn cyflwyno ceisiadau sy'n ymwneud â'r cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO). Mae'r *National Grid* yn ymgynghori ar opsiynau posib ar gyfer llwybr y cysylltiad trwy Wynedd ac Ynys Môn, gyda'r bwriad o gyflwyno DCO yn ystod haf 2017.
47. **Wylfa Newydd (Ynys Môn)** : Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi cael ei lunio ar y sail y bydd prosiect Wylfa Newydd yn digwydd tua diwedd cyfnod y Cynllun. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyn cyflwyno cais (PAC 1) yn 2014/15 a bydd yr ymgynghoriad cyn cyflwyno cais (PAC) yn cael ei gynnal yn 2016-17, gyda'r bwriad o gyflwyno'r cais DCO yn 2017-18. Bydd datblygiadau eraill sy'n gysylltiedig â Wylfa Newydd gan gynnwys llety gweithwyr, logisteg, parcio a theithio a bydd y rhain hefyd angen mewnbwn yr UPCC. Mae'n debygol hefyd y bydd yna ddatblygiadau cysylltiedig yng Ngwynedd fydd angen mewnbwn gan yr UPCC a Rheolaeth Datblygu.
48. Mae yna hefyd brosiectau sy'n fwy penodol i Wynedd yn unig:
49. ***National Grid* - Darpariaeth Effaith Weledol:** Ym mis Medi 2015, cyhoeddodd y *National Grid* fod y llinell drawsyrant ger Porthmadog yn un o'r pedwar cynllun fydd yn mynd ymlaen i waith peirianyddol posib ar gyfer lleddfu effaith llinellau uwchben. Mae'r rhan fwyaf o'r llinell drawsyrant o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd a'r gweddill yn ardal Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r trafodaethau cychwynnol rhwng y Gwasanaeth Cynllunio a'r *National Grid* ynghylch sgopio'r gwaith arfaethedig hwn wedi dechrau ac mae'r prosiect yn mynd rhagddo'n dda gydag arolygon a gwaith penodol yn cael ei wneud ar hyn o bryd.
50. **Cynllun Storfa Bwmp 99.9MW, Glynrhonwy, Llanberis:** Mae Cyngor Gwynedd eisoes wedi rhoi caniatâd cynllunio i gynllun 49MW ar y safle hwn, ond mae bwriad bellach i gynyddu'r allbwn ac mae angen cais DCO. Mae Cytundeb Perfformiad Cynllunio yn ei le rhwng

Gwynedd a'r Datblygwr sy'n rhoi fframwaith ar gyfer hwyluso mewnbwn a chyngor gan y Gwasanaeth Cynllunio yn y cam cyn cyflwyno cais. Mae'r cais DCO wedi cael ei gyflwyno; cynhaliwyd yr ymchwiliad dros haf 2016 ac mae bellach wedi dod i ben.

Prosiectau cydweithio

51. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Grŵp Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru (GSCGC) sy'n cynnwys Prif Swyddogion Cynllunio (neu gyfwerth) wedi rhoi nifer o brosiectau cydweithio sy'n ymwneud â chynllunio ar waith, gan gynnwys:

- Gwasanaeth Cynllunio Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru
- Teclyn yr Ardoll Seilwaith Cymunedol
- Prosiect Cyflogaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

52. Yn ystod 2015-16, bydd GSCGC yn ymgymryd â gwaith i ystyried yr opsiynau ar gyfer prosiectau cydweithio eraill fydd yn darparu gwasanaethau cynllunio sy'n cynnwys cadwraeth treftadaeth ac adeiladau a'r amgylchedd naturiol.

Cynllun gweithredu a gwella i'r Gwasanaeth

53. Ar gyfer 2015-16 roedd tasgau / gwelliannau'r cynllun gwella yn cynnwys:

- Adolygu llwyth gwaith ar gyfer Rheolaeth Datblygu a Gorfodaeth

Gwneir hyn yn rheolaidd pob blwyddyn, neu yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau cydbwysedd y llwyth gwaith ac i amrywio'r math o geisiadau ac achosion y mae Swyddogion yn ymdrin â hwy.

- Rhesymoli'r system ffeilio ar gyfer Rheoli a Gorfodi Datblygiad

Cwblhawyd prif ran y prosiect hwn yn 2014-15 fel rhan o gynllun tair blynedd oedd yn cynnwys sganio ffeiliau copi caled hanesyddol a'r ffeiliau a gadwyd ar *Microfiche*. Cyn hyn, roedd ffeiliau cynllunio yn cael eu storio mewn tair swyddfa wahanol (Caernarfon, Pwllheli a Dolgellau). Mae'r prosiect wedi sicrhau y gwneir defnydd mwy effeithlon o amser staff a cheir mynediad yn electroneg i bob ffeil erbyn hyn. Mae ffeiliau hanesyddol wedi cael eu difa, a bellach nid yw'r Gwasanaeth ond yn cadw gwerth pum mlynedd o ffeiliau copi caled sy'n cael eu storio yn y swyddfa weinyddol ym Mhwllheli, ac mae'r holl wybodaeth sydd ar gael yn y copïau caled hefyd yn cael ei storio'n electroneg yn y system swyddfa gefn.

Mae'r Gwasanaeth bellach yn ystyried mynd â'r gwaith hwn un gam ymhellach gyda'r bwriad o leihau nifer y ffeiliau copi caled sy'n cael eu storio.

- Cyrraedd y cam perthnasol yn amserlen y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd oedd yn cynnwys cyflwyno'r Cynllun i archwiliad cyhoeddus yr Arolygiaeth Gynllunio.

Cyflawnwyd hyn gyda'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cefnogi'r argymhelliad i gyflwyno'r Cynllun oddeutu diwedd 2015-16.

- Adolygu a rhesymoli'r gofrestr Gorchymyn Cadw Coed

Mae prif ran y prosiect hwn, sef yr adolygiad, wedi'i gwblhau ond mae'r Gwasanaeth yn aros i'r cyfleuster GIS yn y system swyddfa gefn gael ei uwchraddio, cyn y gellir arddangos haen gyfredol y Gorchymynion Cadw Coed ar wefan y Cyngor a chael mynediad iddynt. Hyderir y bydd hyn yn cael ei gwblhau yn ystod 2016-17.

- Adolygu prosesau gwaith ar gyfer Rheolaeth Datblygu, Gorfodaeth a Chefnogol

Mae hon yn broses barhaus o fireinio, gwella ac addasu i newidiadau.

- Mabwysiadu Strategaeth Orfodaeth a'i gweithredu

Mabwysiadwyd hyn gan y Cabinet yn 2014-15 ac mae bellach yn weithredol er mwyn ceisio taro cydbwysedd rhwng y gwaith adweithiol dyddiol a'r gwaith rhagweithiol. Mae'r Strategaeth Orfodaeth bellach angen ei hadolygu.

- Gwella gwasanaeth cwsmer

Mae hwn yn brosiect parhaus sy'n cynnwys gwella opsiynau hunan wasanaeth, adolygu trefniadau cyswllt cwsmer gyda'r ganolfan gyswllt ac asesu bodlonrwydd cwsmeriaid o ran y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Yng nghyd-destun y broses cyngor cyn cyflwyno cais a'r broses cais cynllunio, cynhelir arolygon bodlonrwydd cwsmer dros y ffôn bob mis ac anfonir holiaduron gyda hysbysiadau penderfyniadau.

Fframwaith Perfformiad

54. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r meddylfryd o roi pobl Gwynedd wrth galon popeth yr ydym yn ei wneud gan sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon â phosib gan rymuso staff i wneud penderfyniadau ar y lefel briodol. Gan gadw hyn mewn cof, y bwriad yw y bydd pob Gwasanaeth o fewn y Cyngor yn destun adolygiadau llawn mewn blynyddoedd i ddod fydd yn edrych yn fanwl ar ddiben y gwasanaeth, mesuriadau perfformio, prosesau gwaith a barn y cwsmeriaid.
55. Felly, mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi edrych ar y dangosyddion perfformiad yng nghyd-destun yr uchod, a byddwn yn edrych ar y materion a ganlyn ar gyfer 2015/16:

Beth mae ein cwsmeriaid yn ei feddwl o'r Gwasanaeth ar hyn o bryd?

56. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi bod yn anfon arolygon bodlonrwydd cwsmer gyda'r hysbysiadau penderfyniad ers nifer o flynyddoedd, ond yn 2015-16 byddwn yn defnyddio agwedd mwy rhagweithiol wrth asesu bodlonrwydd cwsmeriaid a byddwn yn parhau i wneud hyn yn 2016-17. Bydd hyn yn cynnwys arolygon ar y ffôn sy'n cael eu cynnal pob mis ar sail sampl o 10% o'r ceisiadau a gaiff eu penderfynu'r mis hwnnw. Mae'r adborth i'r arolygon yn cael ei gofnodi a'i ddsbarthu i swyddogion achos a chomau'n cael eu dilyn i addasu trefniadau'r gwasanaeth pan fo angen.

Dangosyddion 5 i 8 (cyflymder penderfynu) ar geisiadau cynllunio

57. Ar gyfer 2016/17, rydym am ganolbwyntio mwy ar ganran y ceisiadau sydd wedi cymryd mwy nag wyth wythnos i'w penderfynu a'r rhesymau am hynny. Mae'r holl geisiadau sydd wedi cymryd mwy nag wyth wythnos i'w penderfynu yn cael eu dadansoddi pob chwarter a gwneir addasiadau i'r trefniadau gweithio yn ôl y gofyn. Mae pwyslais hefyd ar ba mor gyflym y gwneir penderfyniadau o fewn wyth wythnos gan ganolbwyntio ar benderfyniadau sydyn sy'n nes at 21 diwrnod yn hytrach na 56 diwrnod (8 wythnos).

Dangosyddion 15 i 18 (cyflymder penderfynu) ar orfodaeth

58. Yn yr un modd â'r ceisiadau cynllunio, y bwriad ar gyfer 2016-17 yw dadansoddi'r rhesymau y tu ôl i'r canran o ymchwiliadau i achosion gorfodi sydd wedi cymryd mwy na 84 diwrnod gan gyflwyno newidiadau yn ôl yr angen.

Adolygiad Gwasanaeth

59. Roedd bwriad cynnal adolygiad llawn o Reolaeth Datblygu, Gorfodaeth a Chefnogol yn 2016/17 yn unol ag amcanion darparu gwasanaeth y Cyngor, ond mae'n debygol mai dim ond elfen sgopio'r gwaith fydd yn cael ei chynnal yn 2016/17.

BARN DEFNYDDWYR GWASANAETH

60. Yn 2015-16, cychwynnwyd arolygon bodlonrwydd cwsmer mwy rheolaidd a rhagweithiol, a oedd am y tro cyntaf, yn cynnwys galwadau ffôn ar hap i gwsmeriaid oedd wedi derbyn penderfyniad ar gais cynllunio yn ystod y mis hwnnw. Cyfyngwyd yr arolwg dros y ffôn i ddau gwestiwn syml oedd yn gofyn p'un a oedd y cwsmer yn fodlon ai peidio ac unrhyw sylw arall oedd gan y cwsmer ynglŷn â'r gwasanaeth a dderbyniwyd. Yn ystod 2015-16, nododd 89% o gwsmeriaid eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth.

61. Yn 2015-16, fe wnaethom hefyd gynnal arolwg bodlonrwydd cwsmer oedd yn anelu at asesu barn pobl oedd wedi derbyn penderfyniad cais cynllunio yn ystod y flwyddyn fel rhan o arolwg cenedlaethol a gwblhawyd gan bob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru. Anfonwyd yr arolygon i 503 o bobl, a derbyniwyd ymateb cyflawn neu ymateb rhannol gan 25% ohonynt. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion (59%) gan aelodau o'r cyhoedd. Roedd cais cynllunio mwyaf diweddar 13% o'r ymatebwyr wedi cael eu gwrthod.

62. Gofynnwn i'r ymatebwyr p'un a oeddynt yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau am y gwasanaethau cynllunio. Rhoddwyd yr atebion a ganlyn iddynt fel opsiynau:

- Cytuno'n gryf;
- Cytuno i raddau;
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno;
- Anghytuno i raddau; ac
- Anghytuno'n gryf.


63. Mae Tabl 1 yn dangos canran yr ymatebwyr wnaeth ddewis un ai 'cytuno i raddau' neu 'cytuno'n gryf' ar gyfer pob datganiad ar gyfer ein hawdurdod cynllunio ac ar gyfer Cymru. Noder bod 66% o'r ymatebwyr yng Ngwynedd wedi nodi eu bod yn fodlon yn gyffredinol gyda sut oedd yr Awdurdod wedi ymdrin â'u cais, sy'n cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 61%.

Tabl 1: Canran yr ymatebwyr oedd yn cytuno â'r datganiadau, 2015-16

Canran yr ymatebwyr oedd yn cytuno â'r datganiad:	%	
	ACLI Gwynedd	Cymru
Mae'r ACLI yn gorfodi ei reolau cynllunio'n deg ac yn gyson	41	47
Roedd yr ACLI wedi rhoi cyngor da i'w helpu i wneud cais llwyddiannus	56	58
Mae'r ACLI yn cynnig help drwy gydol y broses, gan gynnwys yr amodau	51	49
Ymatebodd yr ACLI yn brydlon pan oedd ganddynt gwestiynau	56	58
Gwrandawodd yr ACLI arnynt ynghylch eu cais	55	57
Roedd yr ACLI yn eu diweddarau am eu cais	52	49
Ar y cyfan, roeddynt yn fodlon â sut yr oedd yr ACLI wedi ymdrin â'u cais	66	61

64. Gofynnnon hefyd i'r ymatebwyr ddewis tair nodwedd o'r gwasanaeth cynllunio yr oeddynt hwy'n credu fyddai'n eu helpu orau i gyflawni datblygiadau llwyddiannus. Dengys Ffigur 1 pa mor aml y dewiswyd pob nodwedd fel canran o gyfanswm y nifer a ddewiswyd. O ran ein gwasanaeth ni, y dewis mwyaf poblogaidd oedd 'bod cynllunydd ar ddyletswydd ar gael i siarad cyn cyflwyno cais'.

Ffigur 1: Nodweddion gwasanaeth cynllunio da, ACLI Gwynedd, 2015-16



Roedd y sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys:

- Byddai gallu siarad gyda/anfon e-bost at gynllunydd ar ddyletswydd neu swyddog cadwraeth cyn cyflwyno cais (neu wneud cais ffurfiol am gyngor cyn cyflwyno cais) o gymorth mawr. (Hyd yn oed os fyddai raid i hyn weithio ar ryw fath o sail gyfyngedig neu gwota).
- Roedd pob aelod o staff y siaradais â hwy yn help mawr ac yn gwrtais iawn.
- O 'mhrofiad i, mae gan Gynllunwyr Gwynedd ddychymyg, gweledigaeth a thegwch.

EIN PERFFORMIAD 2015-16

65. Mae'r rhan hon yn manylu ar ein perfformiad yn 2015-16. Mae'n ystyried dangosyddion y Fframwaith Perfformio Cynllunio yn ogystal ag unrhyw ddata arall sydd ar gael i helpu i greu darlun cynhwysfawr o'r perfformiad. Rydym wedi cymharu ein perfformiad gyda'r darlun i Gymru'n gyffredinol pan fo hynny'n briodol.

66. Caiff y perfformiad ei ddadansoddi ar draws pum agwedd allweddol o ddarparu gwasanaeth cynllunio fel yr amlinellir yn y Fframwaith Perfformiad Cynllunio:

- Creu cynlluniau;
- Effeithlonrwydd;
- Ansawdd;
- Ymgysylltiad; a
- Gorfodaeth.

Creu cynlluniau


67. Ar 31 Mawrth 2016, roeddem yn un o'r 22 ACLI oedd â chynllun datblygu yn ei le ar y pryd. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio tuag at fabwysiadu ein CDLI ar y Cyd yng ngwanwyn 2017. Hyd yma, rydym 16 mis ar ei hôl hi o ran y dyddiad a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol ond rydym yn gwneud cynnydd da o ystyried bod hwn yn Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, sef y cyntaf yng Nghymru.

68. Yn ystod cyfnod yr APB, adnabuwyd 2.9 mlynedd o gyflenwad tir ar gyfer tai, a gyfrifwyd yn unol â NCT1, sy'n golygu ein bod ni'n un o'r 17 ACLI yng Nghymru sydd heb y cyflenwad pum mlynedd gofynnol.

Effeithlonrwydd

69. Yn 2015-16, proseswyd 1026 cais cynllunio gennym, pob un, ar gyfartaledd, yn aros am 60 diwrnod (9 wythnos) i gael penderfyniad. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 77 diwrnod (11 wythnos) yng Nghymru. Dengys Ffigwr 2 yr amser, ar gyfartaledd, y mae pob ACLI yn ei gymryd cyn penderfynu ar gais yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn welliant ar 2014-15 pan oedd y cyfartaledd yn 84 diwrnod.


Ffigwr 2: Cyfartaledd yr amser a gymerwyd (dyddiau) i benderfynu ar geisiadau, 2015-16



70. Yn 2015-16, penderfynwyd ar 83% o'r holl geisiadau cynllunio o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae hyn yn cymharu â 77% yng Nghymru ac rydym yn un o 8 ACLI sydd wedi cyrraedd y targed 80%. Eto, mae hyn yn welliant ar 2014-15 pan benderfynwyd ar 76% o geisiadau cynllunio o fewn yr amserlenni gofynnol.


71. Dengys Ffigwr 3 canran y ceisiadau cynllunio gafodd eu penderfynu o fewn yr amserlenni gofynnol yn ôl y pedwar prif fath o gas ar gyfer ein ACLI ac ar gyfer Cymru. Gwelir ein bod wedi penderfynu ar 89% o'r holl geisiadau cynllunio gan berchnogion tai o fewn yr amserlenni gofynnol.

Ffigwr 3: Canran y ceisiadau cynllunio gafodd eu penderfynu o fewn yr amserlenni gofynnol, yn ôl math, 2015-16



72. Rhwng 2014-15 a 2015-16, fel y dengys Ffigwr 4, fe wnaeth canran y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn yr amserlenni gofynnol gynyddu o 76%. Gwelwyd cynnydd yng Nghymru hefyd eleni.

Ffigwr 4: Canran y ceisiadau cynllunio gafodd eu penderfynu o fewn yr amserlenni gofynnol




Yn yr un cyfnod:

- Gwelwyd cynnydd yn nifer y ceisiadau a dderbyniwyd;
- Gwelwyd cynnydd yn nifer y ceisiadau y gwnaed penderfyniad arnynt; a
- Gwelwyd cynnydd yn nifer y ceisiadau a gymeradwywyd.

Ceisiadau mawr

73. Cyflwynwyd penderfyniadau ar 35 o geisiadau cynllunio mawr yn 2015-16, nid oedd yr un o'r rhain yn destun Asesiad Effaith Amgylcheddol. Ar gyfartaledd, treuliyd 231 diwrnod (33 wythnos) yn penderfynu ar bob cais. Fel y dengys Ffigwr 5, roedd hyn yn hirach na chyfartaledd Cymru, sef 213 diwrnod (30 wythnos).


Ffigwr 5: Cyfartaledd yr amser a gymerwyd (dyddiau) i benderfynu ar geisiadau mawr, 2015-16



74. Penderfynwyd ar 51% o'r holl geisiadau cynllunio mawr hyn o fewn yr amserlenni gofynnol, y pumed canran uchaf ymysg holl ACLI Cymru.

75. Dengys Ffigwr 6 ganran y ceisiadau cynllunio mawr gafodd eu penderfynu o fewn yr amserlenni gofynnol yn ôl math y cais mawr. Penderfynwyd ar 49% o'n ceisiadau mawr 'safonol' h.y. y rhai nad oedd angen Asesiad Effaith Amgylcheddol, o fewn yr amserlenni gofynnol yn ystod y flwyddyn.

Ffigwr 6: Canran y prif geisiadau gafodd eu penderfynu o fewn yr amserlenni gofynnol yn ystod y flwyddyn, yn ôl math, 2015-16




76. Yn ogystal, cafodd penderfyniad ei wneud ar un cais mawr oedd yn destun Cytundeb Perfformiad Cynllunio (PPA) o fewn yr amserlenni gofynnol yn ystod y flwyddyn.

77. Ers 2014-15, mae canran y ceisiadau mawr a benderfynir o fewn yr amserlenni gofynnol wedi cynyddu o 47%. Yn yr un modd, gwelwyd cynnydd yn nifer y ceisiadau mawr a gafodd

eu penderfynu, tra bod nifer y ceisiadau a oedd yn destun Asesiad Effaith Amgylcheddol yn ystod y flwyddyn wedi aros yr un fath.

78. Dengys Ffigwr 7 y duedd o ran y canran o geisiadau cynllunio mawr gafodd eu penderfynu o fewn yr amserlenni gofynnol yn y blynyddoedd diwethaf, a sut mae hyn yn cymharu â Chymru.

Ffigwr 7: Canran y ceisiadau cynllunio mawr gafodd eu penderfynu o fewn yr amserlenni gofynnol



Yn yr un cyfnod:

- Gwelwyd cynnydd o 77% i 83% yng nghanran y ceisiadau cynllunio bach gafodd eu penderfynu o fewn yr amserlenni gofynnol;
- Gwelwyd gostyngiad o 92% i 89% yng nghanran y ceisiadau cynllunio gan berchnogion tai gafodd eu penderfynu o fewn yr amserlenni gofynnol; a
- Gwelwyd cynnydd o 75% i 86% yng nghanran y ceisiadau cynllunio eraill gafodd eu penderfynu o fewn yr amserlenni gofynnol.


Ansawdd

79. Yn 2015-16, penderfynodd ein Pwyllgor Cynllunio ar 93 o geisiadau cynllunio yn ystod y flwyddyn, sydd gyfwerth â 9% o'r holl geisiadau cynllunio a gafodd eu penderfynu. Yng Nghymru, bu i'r pwyllgorau cynllunio benderfynu ar 7% o'r holl geisiadau cynllunio yn yr un cyfnod.

80. Roedd 14% o'r penderfyniadau hyn gan y Pwyllgor Cynllunio yn mynd yn groes i argymhellion y swyddogion. Mae hyn yn cymharu â 9% o'r penderfyniadau a wnaed gan aelodau yng Nghymru. Roedd hyn yn cyfateb i 1.3% o'r holl benderfyniadau cynllunio a oedd yn groes i gyngor swyddogion, 0.6% yng Nghymru.

81. Yn 2015-16, derbyniom 27 apêl yn erbyn ein penderfyniadau cynllunio, sydd gyfwerth â 2.6 apêl ar gyfer pob 100 cais a gyflwynwyd. Dyma'r bumed gymhareb uchaf o apeliadau ceisiadau yng Nghymru. Dengys Ffigwr 8 sut mae nifer yr apeliadau wedi newid ers 2014-15 a sut mae hyn yn cymharu â Chymru.


Ffigwr 8: Nifer yr apeliadau a dderbyniwyd fesul 100 cais cynllunio



82. Yn yr un cyfnod, bu i ganran y ceisiadau cynllunio gafodd eu cymeradwyo ostwng o 93% i 89%.

83. O'r 27 apêl gafodd eu penderfynu yn ystod y flwyddyn, gwrthodwyd 70% ohonynt. Fel y dengys Ffigwr 9, roedd hyn yn uwch na chanran yr apeliadau gafodd eu gwrthod yng Nghymru, ac roeddem yn un allan o 14 ACLI a gyrrhaeddodd y targed o 66%.

Ffigwr 9: Canran yr apeliadau gafodd eu gwrthod, 2015-16



84. Yn ystod 2015-16, derbyniom 2 gais am gostau yn dilyn apeliadau adran 78 a gafodd eu cadarnhau, sydd yn ein gwneud yn un o 5 ACLI a gafodd un cais o'r fath wedi'i gadarnhau yn ystod y flwyddyn.

Ymgysylltiad

85. Rydym yn:

- un o'r 24 ACLI oedd yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd siarad yn y Pwyllgor Cynllunio; ac yn
- un o'r 20 ACLI oedd yn defnyddio cofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio.

86. Fel y dengys yn Nhabl 2, roedd 56% o'r sawl wnaeth ymateb i'n harolwg bodlonrwydd cwsmer 2015-16 yn cytuno fod yr ACLI yn cynnig cyngor da i'w helpu i gyflwyno cais llwyddiannus.

Tabl 2: Adborth o'n harolwg bodlonrwydd cwsmer 2015-162


Canran yr ymatebwyr oedd yn cytuno â'r datganiad:	%	
	ACLI Gwynedd	Cymru
Roedd yr ACLI wedi rhoi cyngor da i'w helpu i wneud cais llwyddiannus	56	58
Gwrandawodd yr ACLI arnynt ynghylch eu cais	55	57

Gorfodaeth

87. Yn 2015-16, bu i ni ymchwilio i 323 o achosion gorfodaeth, sydd cyfwerth â 2.6 i bob 1,000 o'r boblogaeth. Roedd hyn yn cymharu â 1.9 achos gorfodaeth i bob 1,000 o'r boblogaeth yng Nghymru Ar gyfartaledd, ymchwiliwyd i bob achos gorfodaeth o fewn 85 diwrnod.

88. Ymchwiliwyd i 89% o'r achosion gorfodaeth hyn o fewn 84 diwrnod. Yng Nghymru ymchwiliwyd i 79% o fewn 84 diwrnod. Mae Ffigwr 10 yn dangos canran yr achosion gorfodaeth gafodd eu hymchwilio o fewn 84 diwrnod gan bob ACLI yng Nghymru.


Ffigwr 10: Canran yr achosion gorfodaeth a ymchwiliwyd o fewn 84 diwrnod, 2015-161



89. Yn ystod yr un cyfnod, datryswyd 323 o achosion gorfodaeth, gan gymryd 149 diwrnod ar gyfartaledd i ddatrys pob un.

90. Rhoddwyd 77% o'r camau gorfodi ar waith o fewn 180 diwrnod i ddechrau'r achos. Fel y dengys Ffigwr 11, roedd hyn yn cymharu â 73% achosion gorfodaeth yn cael eu datrys o fewn 180 diwrnod yng Nghymru. Deallir bod y dangosyddion gorfodaeth yn destun eglurhad ac adolygiad pellach.

Ffigwr 11: Canran yr achosion gorfodaeth a ddatryswyd o fewn 180 diwrnod, 2015-162



ATODIAD A – FFRAMWAITH PERFFORMIAD

TROSOLWG

MESUR	DA	GWEDDOL	GWELLA
Gwneud cynlluniau			
A oes Cynllun Datblygu cyfredol yn ei le sydd o fewn cyfnod y cynllun?	Oes		Nac oes
Y gwyrriad, wrth baratoi'r CDLI, oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol, mewn misoedd	<12	13-17	18+
Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi'u cynhyrchu yn dilyn mabwysiadu'r CDLI	Do		Naddo
Cyflenwad tir ar gyfer tai'r awdurdod cynllunio lleol ar hyn o bryd mewn blynyddoedd	>5		<5
Effeithlonrwydd			
Canran y ceisiadau "mawr" a gafodd eu pennu o fewn cyfnodau amser gofynnol	Heb ei osod	Heb ei osod	Heb ei osod
Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau "mawr" mewn diwrnodau	Heb ei osod	Heb ei osod	Heb ei osod
Canran yr holl geisiadau a gafodd eu pennu o fewn cyfnodau amser gofynnol	>80	60.1-79.9	<60
Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodau	<67	67-111	112+
Ansawdd			
Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion	<5	4.9-8.9	9+
Canran yr apeliadau gafodd eu gwrthod	>66	55.1-65.9	<55
Ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 a gafodd eu cadarnhau yn y cyfnod adrodd	0	1	2
Ymgysylltiad			
A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd	Ydy		Nac ydy

CYFARTALEDD CYMRU	ACLI Gwynedd LLYNEDD	ACLI Gwynedd ELENI
Oes	Oes	Oes
47	16	12
Do	Amh.	Amh.
3.9	3.3	2.9
35	47	51
213	255	231
77	76	83
77	84	60
9	8	8.6
67	56	70
0	0	2
Ydy	Ydy	

MESUR	DA	GWEDDOL	GWELLA
annerch y Pwyllgor Cynllunio?			
A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd?	Oes		Nac oes
A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd olrhain cynnydd y ceisiadau (a gweld eu cynnwys)?	Oes	Rhannol	Nac oes
Gorfodaeth			
Canran yr achosion gorfodi a gafodd eu hymchwilio (i bennu a dorrwyd rheolaethau cynllunio ac, os hynny, a oedd cymryd camau gorfodi yn fanteisiol) o fewn 84 diwrnod	Heb ei osod	Heb ei osod	Heb ei osod
Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i ymchwilio i achosion gorfodi	Heb ei osod	Heb ei osod	Heb ei osod
Canran yr achosion gorfodi lle cymerwyd camau gorfodi neu gais 60-90-ymchwilweithredol a dderbyniwyd o fewn 180 o ddiwrnodau ers dechrau'r achos (yn yr achosion hynny pan oedd cymryd camau gorfodi yn fanteisiol)?	Heb ei osod	Heb ei osod	Heb ei osod
Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gymryd camau gorfodi	Heb ei osod	Heb ei osod	Heb ei osod

CYFARTALEDD CYMRU	ACLI Gwynedd LLYNEDD	ACLI Gwynedd ELENÍ
		Ydy
Oes	-	Nac oes
Oes	Oes	Oes
Gorfodaeth		
79	77	89
88	Dim Data	85
73	80	77
210	133	149

ADRAN 1 – GWNEUD CYNLLUN

Dangosydd	01. A oes Cynllun Datblygu cyfredol yn ei le sydd o fewn cyfnod y cynllun?	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwella"
Mae cynllun datblygu (CDLI neu CDU) yn ei le ac o fewn cyfnod y cynllun	Amh.	Nid oes cynllun datblygu yn ei le (gan gynnwys cynlluniau sydd wedi dod i ben)

Perfformiad yr Awdurdod	Oes
Mae Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd wedi'i lunio ar gyfer 2001 – 2016 ac felly mae'n parhau i fod yn fan cychwyn ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ac apeliadau perthnasol.	

Dangosydd	02. Y gwyrriad, wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol, mewn misoedd.	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwella"
Eir i'r afael â'r CDLI o fewn 12 mis i'r dyddiadau a nodir yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol	Eir i'r afael â'r CDLI o fewn 12 i 18 mis i'r dyddiadau a nodir ar y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol	Eir i'r afael â'r CDLI fwy na 18 mis yn hwyrach na'r dyddiad a nodir ar y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol

Perfformiad yr Awdurdod	12
Roedd y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol yn gosod mis Hydref 2013 fel targed i gyhoeddi'r Cynllun Adnau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Cyhoeddwyd y Cynllun Adnau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Chwefror 2015, 16 mis yn hwyrach na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Gellir priodoli'r llithriad hwn i nifer o ffactorau, sy'n cynnwys etholiad lleol hwyr yn Ynys Môn a achosodd oedi gyda'r ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r Strategaeth a Ffafrir; rhagamcaniad newydd o aelwydydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar ôl y Strategaeth a Ffafrir oedd angen dadansoddiad pellach er mwyn cydymffurfio â'r gofynion a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru. Pe cedwir at yr amserlen, bydd y CDLI ar y Cyd yn cael ei fabwysiadu llai na 12 mis ar ôl y targed a osodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol (Ebrill 2016).	

Dangosydd	03. Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi'u cynhyrchu yn dilyn mabwysiadu'r CDLI	
"Da"		"Angen gwella"
Mae'n amser cyflwyno AMB ac mae un wedi'i baratoi		Mae'n amser cyflwyno AMB, ac nid oes un wedi'i baratoi

Perfformiad yr Awdurdod	Amh.
Ddim yn berthnasol gan nad yw'r CDLI ar y Cyd wedi'i fabwysiadu.	

Dangosydd	04. Cyflenwad tir ar gyfer tai'r awdurdod cynllunio lleol ar hyn o bryd mewn blynyddoedd	
"Da"		"Angen gwella"
Mae gan yr awdurdod 5 mlynedd neu fwy o gyflenwad o dir ar gyfer tai		Mae gan yr awdurdod lai na 5 mlynedd o gyflenwad o dir ar gyfer tai

Perfformiad yr Awdurdod	2.9
Mae NCT 1 yn gofyn i awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio'r dull gweddilliol wrth gyfrifo cyflenwad tir ar gyfer tai. Mae adroddiad yr Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai sy'n cyflwyno canlyniadau asesiad o'r safleoedd yn ystod 2015 – 2016 yn datgelu 2.9 mlynedd o gyflenwad. Fodd bynnag, byddai defnyddio tuedd cyfradd adeiladu flaenorol yn rhoi 8.5 mlynedd o gyflenwad i'r Cyngor.	

ADRAN 2 - EFFEITHLONRWYDD

Dangosydd	05. Canran y ceisiadau "mawr" a gafodd eu pennu o fewn cyfnodau amser gofynnol	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwella"
Caiff y targed ei feincnodi	Caiff y targed ei feincnodi	Caiff y targed ei feincnodi

Perfformiad yr Awdurdod	51
Dengys y data meincnodi bod y perfformiad y pumed uchaf yng Nghymru er y derbynnir bod hyn yn cael ei ddylanwadu gan mwyaf gan nifer y ceisiadau y penderfynir arnynt. Ymhellach, mae hyn yn welliant ar 2014-15.	

Dangosydd	06. Amser ar gyfartaledd a gymerir i benderfynu ar geisiadau "mawr" mewn diwrnodau	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwella"
Caiff y targed ei feincnodi	Caiff y targed ei feincnodi	Caiff y targed ei feincnodi

Perfformiad yr Awdurdod	231
Mae hyn yn welliant ar 2014-15. Mae'r ACLI yn ceisio gweithio gydag ymgeiswyr / datblygwyr fel y gellir cefnogi ceisiadau ble bo'n bosib gyda'r dystiolaeth ofynnol a gyflwynir. Byddai penderfyniadau cynt yn debygol o fod wedi arwain at fwy o geisiadau cynllunio yn cael eu gwrthod a cholledion sy'n gysylltiedig ag unrhyw fuddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol posib.	

Dangosydd	07. Canran yr holl geisiadau a gafodd eu pennu o fewn cyfnodau amser gofynnol	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwella"
Penderfynwyd ar fwy na 80% o'r ceisiadau o fewn yr amser statudol	Penderfynwyd ar rhwng 60% ac 80% o'r ceisiadau o fewn yr amser statudol	Penderfynwyd ar lai na 60% o'r ceisiadau o fewn yr amser statudol

Perfformiad yr Awdurdod	83
Mae hyn yn welliant ar 2014-15 (76%) ac yn adlewyrchu'r ymdrechion a wnaed gan y Gwasanaeth i geisio penderfynu ar geisiadau (ble bo'n bosib) cyn gynted â phosib ar ôl y cyfnod ymgynghori 21 diwrnod.	

Dangosydd	08. Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodau	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwella"
Llai na 67 diwrnod	Rhwng 67 a 111 diwrnod	112 diwrnod neu fwy

Perfformiad yr Awdurdod	60
Mae hyn yn welliant ar 2014-15 (84) ac eto'n adlewyrchu'r ymdrechion a wnaed gan y Gwasanaeth i geisio penderfynu ar geisiadau (ble bo'n bosib) cyn gynted â phosib ar ôl y cyfnod ymgynghori 21 diwrnod.	

ANSAWDD 3 – ANSAWDD

Dangosydd	09. Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwella"
Llai na 5% o benderfyniadau	Rhwng 5% a 9% o benderfyniadau	9% neu fwy o benderfyniadau

Perfformiad yr Awdurdod	8.6
Ble ceir risgiau posib i'r Cyngor, mae trefn y Pwyllgor Cynllunio yn cynnwys cyfeirio cais at gyfnod o "gnoi cil". Yna, adroddir yn ôl ar y cais i'r Pwyllgor Cynllunio ymhen chwe wythnos gydag adroddiad sy'n amlygu cyd-destun y polisi cynllunio, y risgiau posib a'r opsiynau posib sydd ar gael i'r Pwyllgor Cynllunio. Mae'r drefn hon wedi gweithio'n dda dros y blynyddoedd ac wedi llwyddo i osgoi risgiau posib i'r Cyngor.	

Dangosydd	10. Canran yr apelïadau gafodd eu gwrthod	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwella"
Mwy na 66% (dwy ran o dair) o'r penderfyniadau cynllunio wedi'u hamddiffyn yn llwyddiannus adeg apêl	Rhwng 55% a 66% o'r penderfyniadau cynllunio wedi'u hamddiffyn yn llwyddiannus adeg apêl	Llai na 55% o'r penderfyniadau cynllunio'n wedi'u hamddiffyn yn llwyddiannus adeg apêl

Perfformiad yr Awdurdod	70
Mae hyn yn welliant ar 2014-15 (56%).	

Dangosydd	11. Ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 a gafodd eu cadarnhau yn y cyfnod adrodd	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwella"
Nid yw'r awdurdod wedi gorfod talu costau unrhyw apêl yn ei erbyn	Mae'r awdurdod wedi gorfod talu costau un apêl yn ei erbyn	Mae'r awdurdod wedi gorfod talu costau dwy apêl neu fwy yn ei erbyn

Perfformiad yr Awdurdod	2
Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o'i gymharu â 2014-15 pan oedd y ffigur yn 0. Gwrthodwyd y ddau gais gan y Pwyllgor Cynllunio yn groes i argymhellion Swyddogion.	

ADRAN 4 - YMGYSYLLTIAD

Dangosydd	12. A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio?	
"Da"		"Angen gwella"
Mae aelodau'r cyhoedd yn gallu annerch y Pwyllgor Cynllunio		Nid yw aelodau'r cyhoedd yn gallu annerch y Pwyllgor Cynllunio

Perfformiad yr Awdurdod	Ydy
Mae hyn wedi bod yn weithredol ers 2010 a cheir trefniadau safonol yn eu lle.	

Dangosydd	13. A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd?	
"Da"		"Angen gwella"
Gall aelodau'r cyhoedd ofyn am		Nid oes unrhyw swyddog

gyngor gan swyddog cynllunio ar ddyletswydd		cynllunio ar ddyletswydd ar gael
---	--	----------------------------------

Perfformiad yr Awdurdod	Na
Ceir gweithdrefnau ffurfiol yn eu lle er mwyn derbyn cyngor cyn gwneud cais i ymdrin â phob ymholiad cynllunio a gellir trefnu cyfarfodydd drwy wneud apwyntiad o flaen llaw. Ar hyn o bryd, defnyddir y ganolfan gyswllt fel man cychwyn ar gyfer cwsmeriaid ac mae'r trefniant hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.	

Dangosydd	14. A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd olrhain cynnydd y ceisiadau (a gweld eu cynnwys)?	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwella"
Mae pob dogfen ar gael ar-lein.	Dim ond manylion y cais cynllunio sydd ar gael ar-lein a rhaid gwneud cais uniongyrchol i gael mynediad i ddogfennau eraill	Ni chyhoeddir gwybodaeth am geisiadau cynllunio ar-lein

Perfformiad yr Awdurdod	Oes
Mae hyn yn weithredol ers 2005 gyda'r opsiwn o gyflwyno cais drwy'r Porth Cynllunio sydd ar gael ers 2008.	

ADRAN 5 - GORFODAETH

Dangosydd	15. Canran yr achosion gorfodi a gafodd eu hymchwilio (i bennu a dorrodd rheolaethau cynllunio ac, os hynny, a oedd cymryd camau gorfodi yn fanteisiol) o fewn 84 diwrnod	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwella"
Caiff y targed ei feincnodi	Caiff y targed ei feincnodi	Caiff y targed ei feincnodi

Perfformiad yr Awdurdod	89
Mae perfformiad wedi gwella ers 2014-15 (77%) gyda data wedi'i feincnodi yn dangos ei fod uwchben cyfartaledd Cymru.	

Dangosydd	16. Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i ymchwilio i achosion gorfodi	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwella"
Caiff y targed ei feincnodi	Caiff y targed ei feincnodi	Caiff y targed ei feincnodi

Perfformiad yr Awdurdod	85
Ceir problemau o hyd ynglŷn â beth yn union a gaiff ei fesur a sut y gellir casglu'r data hwn yn system y swyddfa gefn.	

Dangosydd	17. Canran yr achosion gorfodi lle cymerwyd camau gorfodi neu gais ôl-weithredol a dderbyniwyd o fewn 180 o ddiwrnodau ers dechrau'r achos (yn yr achosion hynny pan oedd cymryd camau gorfodi yn fanteisiol)	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwella"
Caiff y targed ei feincnodi	Caiff y targed ei feincnodi	Caiff y targed ei feincnodi

Perfformiad yr Awdurdod	77
Dengys y data meincnodi bod hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru ond caiff perfformiad ei ddylanwadu gan nifer yr achosion. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad bychan o 2014-15 (80).	

Dangosydd	18. Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gymryd camau gorfodi	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwella"
Caiff y targed ei feincnodi	Caiff y targed ei feincnodi	Caiff y targed ei feincnodi

Perfformiad yr Awdurdod	149
Dengys y data meincnodi bod hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru ond caiff perfformiad ei ddylanwadu gan nifer a math o achosion. Fel Awdurdod, gyda'r rhan fwyaf o achosion rydym yn ceisio negodi i ddatrys achosion pan fydd hyn yn bosib.	

ADRAN 6 – DANGOSYDDION DATBLYGU CYNALIADWY

Pwrpas y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy yw mesur y cyfraniad a wneir gan y system gynllunio i ddatblygiad cynaliadwy yng Nghymru.

Bydd y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy yn cael eu defnyddio i fesur y cynnydd yn erbyn amcanion cynaliadwyedd cynllunio cenedlaethol, a amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru, a gellir eu defnyddio i ddangos rôl a sgôp y system gynllunio i'n budd-ddeiliaid wrth gyflawni amcanion ehangach. Bydd y wybodaeth hefyd yn ddefnyddiol i awdurdodau cynllunio lleol ddeall mwy am ddeilliannau'r system gynllunio ac yn help i lywio penderfyniadau yn y dyfodol.

Canlyniadau'r Awdurdod	Yn chwarter 1, darparwyd ymateb rhannol gennym (55 o 57 eitemau data) ; Yn chwarter 2, darparwyd ymateb rhannol gennym (55 o 57 eitemau data); Yn chwarter 3, darparwyd ymateb rhannol gennym (55 o 57 eitemau data); Yn chwarter 4, darparwyd ymateb rhannol gennym (55 o 57 eitemau data) .
Ble bo'n briodol, cofnodwyd gwerth o "0" ar 55 o 57 eitem ddata a dderbyniodd ymateb. Dim ond data na dderbyniodd ymateb yw'r SD6 gad nad yw system y swyddfa gefn wedi'i sefydlu i hwyluso'r dull o gofnodi'r dyddiad hwn. Nid oes unrhyw ddyddiad ar gael ar hyn o bryd i ddatrys hyn. ANGEN CHECIO	

Dangosydd	SD1. Arwynebedd llawr (metrau sgwâr) datblygiadau economaidd newydd y rhoddwyd ac y gwrthodwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer ar safleoedd cyflogaeth dynodedig yn ystod y flwyddyn.
------------------	---

Caniatawyd (metrau sgwâr)	
Data'r Awdurdod	7,400

Gwrthodwyd (metrau sgwâr)	
Data'r Awdurdod	342

Nid yw'r data hwn yn ymwneud yn benodol â pherfformiad ond mae'n adlewyrchu'r agwedd gadarnhaol at gynllunio.

Dangosydd	SD2. Caniatâd cynllunio a roddwyd i ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel yn ystod y flwyddyn.
------------------	--

Caniatawyd (nifer y ceisiadau)	
Data'r Awdurdod	18

Caniatawyd (MW ynni a gynhyrchir)

Data'r Awdurdod	26
------------------------	----

Nid yw'r data hwn yn ymwneud yn benodol â pherfformiad. Mae'r data yn adlewyrchiad o Bolisi Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd sy'n cefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fechan sy'n llai na 5MW (ac eithrio rhai o fewn yr AHNE).

Dangosydd	SD3. Nifer yr anheddau y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn.
------------------	--

Tai i'r farchnad agored (nifer yr unedau)

Data'r Awdurdod	237
------------------------	-----

Tai fforddiadwy (nifer yr unedau)

Data'r Awdurdod	17
------------------------	----

Nid yw'r data hwn yn ymwneud yn benodol â pherfformiad ond mae'n adlewyrchu'r agwedd gadarnhaol at gynllunio. Hefyd, dim ond cynlluniau gyda chytundebau adran 106 er mwyn sicrhau fforddiadwyedd y mae'r 17 o dai fforddiadwy yn eu hadlewyrchu. Nid yw'n cynnwys nifer y tai sy'n fforddiadwy oherwydd maint, lleoliad a natur y farchnad dai leol. Data a gasglwyd gan y Gwasanaeth Cynllunio ar gyfer 2015/16 yw hwn sy'n dangos fod 145 o'r 237 o dai a ganiatawyd yn fforddiadwy drwy 106, neu fel datblygiad Cymdeithas Dai neu oherwydd eu maint a'u lleoliad.

Dangosydd	SD4. Caniatâd cynllunio a ganiatawyd ac a wrthodwyd ar gyfer datblygiadau ar ardaloedd gorlifdir C1 a C2 yn ystod y flwyddyn.
------------------	--

Nifer yr unedau preswyl (a hectarau unedau dibreswyl hefyd) NAD oeddent yn bodloni'r holl brofion NCT 15, a GANIATAWYD

Data'r Awdurdod	0
------------------------	---

Nifer yr unedau preswyl (a hectarau unedau dibreswyl hefyd) nad oeddent yn bodloni'r holl brofion NCT 15, a WRTHODWYD oherwydd perygl llifogydd

Data'r Awdurdod	1
------------------------	---

Nifer yr unedau preswyl (a hectarau unedau dibreswyl hefyd) OEDD YN BODLONI'r holl brofion NCT 15, a GANIATAWYD

Data'r Awdurdod	9
------------------------	---

Nid yw'r data yn ymwneud yn benodol â pherfformiad ond dengys bod yr ACLI yn ymdrin â cheisiadau yn unol â pholisïau lleol a chenedlaethol.

Dangosydd	SD5. Arwynebedd y tir (ha) oedd wedi'i ddatblygu o'r blaen a'r tir maes glas y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad newydd arnynt yn ystod y flwyddyn.
------------------	--

Tir a ddatblygwyd o'r blaen (hectarau)	
Data'r Awdurdod	7

Tir maes glas (hectarau)	
Data'r Awdurdod	4

Nid yw'r data yn ymwneud yn benodol â pherfformiad ac amcan lefel uchel yn unig ydyw o ble fydd datblygiadau, a oedd yn cydymffurfio â pholisi cynllunio, yn cael eu lleoli.

Dangosydd	SD6. Arwynebedd (ha) y gofod cyhoeddus agored a fyddai'n cael ei gollu a'i ennill yn sgil rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygiad yn ystod y chwarter.
------------------	---

Gofod agored a gollwyd (hectarau)	
Data'r Awdurdod	0

Gofod agored a enillwyd (hectarau)	
Data'r Awdurdod	0

Ni ellir cofnodi'r data hwn ar hyn o bryd oherwydd nad yw problemau'r swyddfa gefn wedi'u datrys.

Dangosydd	SD7. Cyfanswm y cyfraniadau ariannol (£) a gytunwyd o ddatblygiad newydd y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddo yn ystod y chwarter ar gyfer darparu seilwaith cymunedol.
------------------	--

A enillwyd drwy drefniadau Adran 106 (£)	
Data'r Awdurdod	0

A enillwyd drwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol (£)	
Data'r Awdurdod	0

--	--

Atodiad 3 – Trothwyon arfaethedig i'r Cynllun Dirprwyo

Defnyddio'r diffiniad statudol o geisiadau 'mawr' gydag addasiadau sef:

“major development” means development involving any one or more of the following—

(a) the winning and working of minerals or the use of land for mineral-working deposits;

(b) waste development;

(c) the provision of dwellinghouses where—

(i) the number of dwellinghouses to be provided is 5 or more; or

(ii) the development is to be carried out on a site having an area of 0.5 hectares or more

and it is not known whether the development falls within sub-paragraph (c)(i);

(d) the provision of a building or buildings where the floor space to be created by the

development is 1,000 square metres or more; or

(e) development carried out on a site having an area of 0.5 hectare or more;

ATODIAD 3 – YMGYNGHORIAD GYDA CHYNGHORAU ERAILL (POSW)

Yr ymgynghoriad a yrrwyd ar y 30 Gorffennaf 2015

Annwyl Bawb / Dear All,

Yn ogystal â'r cyfrifoldebau cynllunio (ac amrywiol rai eraill), gwn fod rhai ohonoch, os nad y cyfan ohonoch, yn gyfrifol am Reolaeth Adeiladu.

Yng Ngwynedd, y sefyllfa yw nad yw Rheolaeth Adeiladu o fewn y Gwasanaeth Cynllunio nac o fewn yr un Adran â Chynllunio. Yng nghyd-destun arbedion a thoriadau i gyllidebau, mae'r Cyngor yn ystyried p'un a fyddai unrhyw fuddion ariannol a/neu wasanaeth cwsmeriaid a gweithredol o gael Rheolaeth Adeiladu a Chynllunio o fewn yr un Gwasanaeth. Fel rhan o hyn, dywedais y byddwn yn cysylltu â POSW i gael peth adborth.

O fod wedi gweithio i Awdurdod ble'r oedd Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu o fewn yr un Gwasanaeth, fy marn i ar hyn yw y gallai cyfuno'r meysydd gwaith hyn :

1. ddarparu effeithlonrwydd (er yn gyfyngedig) yn y swyddfa gefn / agwedd cefnogaeth dechnegol o bethau
2. ddarparu mwy o le i hwyluso perthynas waith dydd i ddydd agosach rhwng swyddogion cynllunio a swyddogion rheolaeth adeiladu a allai wella'r gwasanaeth i gwsmeriaid

Buaswn yn ddiolchgar o dderbyn unrhyw farn ar yr hyn yr ydych chi'n eu hystyried yn fanteision a/neu anfanteision o gael cynllunio a rheolaeth adeiladu o fewn yr un gwasanaeth, p'un a ydych yn rheoli'r ddau ar hyn o bryd neu beidio. Ymhellach, buaswn yn ddiolchgar hefyd pe gallech roi eich barn ar faint o gyswllt / cydweithio sydd yna rhwng cynllunwyr a swyddogion rheolaeth adeiladu o fewn eich Awdurdod chi.

Byddai'n help mawr pe gallech anfon eich barn ataf erbyn Dydd Llun 10 Awst 2015.

Diolch

Gareth

Gareth Jones

Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio, Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd (Dros Dro) /

Senior Manager Planning, Environment and Public Protection Service (Interim)

Yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad

Gareth

Os caf awgrymu y byddai'n syniad da - yma yn y Parc, cyswllt cyfyngedig iawn sydd gennym gan nad oes gennym unrhyw wasanaethau Rheolaeth Adeilad o fewn Awdurdod y Parc sydd yn achosi rhwystredigaeth ac anfodlonrwydd. Byddai perthynas weithio agosach o fudd i bawb - gan gynnwys gorfodaeth hefyd.

hwyl

Jane

Jane Gibson

Director of Park Direction and Planning / Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfeiriad y Parc

Hi Gareth,

Fe gei di ddau gyngor am bris un gen i!

Yn Sir Fynwy, nid wyf yn rheoli BC ar hyn o bryd (er rwy'n amau y gallai hyn newid yn y dyfodol). Fodd bynnag, mae DM a BC yn eistedd ochr yn ochr â'i gilydd ac mae'r perthnasau gwaith yn bositif ac yn effeithiol. Un peth bach sydd wedi codi'n ddiweddar yw newid mewn systemau TG swyddfa gefn, ac mae BC yn ymddangos yn anfodlon i ymuno â ni. Gallai un system reoli ddatrys hynny?

Yn fy rôl flaenorol yng Nghasnewydd, roeddwn i'n rheoli'r ddau. Roedd gennym dîm Cefnogaeth Dechnegol ar y cyd ac er bod y staff yn tueddu i gadw eu harbenigedd gwreiddiol (yn dibynnu ar a oeddent yn cefnogi DM neu BC cyn yr uno), ac fe wnaeth hyn helpu i raddau gyda gwydnwch pan roedd staff i ffwrdd yn sâl. Gellid dadlau fod perthnasau gwaith yn llai integredig yng Nghasnewydd nag yn Sir Fynwy, ond fyddwn i'n dweud bod hynny o achos un neu ddau o unigolion yn hytrach na'r strwythur.

Felly, fy nghyngor i yw mai'r peth pwysicaf yw'r unigolion dan sylw, eu ffordd o feddwl a'u perthynas waith ffisegol (mae bod yn gorfforol agos yn tueddu i helpu). Fodd bynnag, o gael dewis, rwy'n meddwl bod rheoli o fewn yr un maes yn gwneud llawer o synnwyr a dyma yw'r ymagwedd orau. Ond, nid yw'n ateb i bob her chwaith!

Gobeithio y bydd hyn yn helpu.

Mark

Mark Hand MSc, PGCert, BSc (Hons) MRTPI

Hi Gareth,

Rwy'n gyfrifol am gynllunio a rheolaeth adeiladu ac yn ogystal â'r effeithlonrwydd y sonioch amdanynt isod, mae'r swyddogion rheolaeth adeiladu hefyd yn gwneud peth dyletswyddau gorfodaeth (cydymffurfiaeth) ar gyfer rheolaeth datblygu, sydd wedi golygu ein bod wedi gallu lleihau maint yr adain gorfodaeth.

Hwyl Nic

Nicola Pearce

Pennaeth Cynllunio

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Hi Gareth

Rwy'n rheoli Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu ac yn teimlo bod y gwasanaethau'n cyd-fynd yn dda â'i gilydd. Y prif fuddion yw'r rheini rydych wedi'u hamlinellu h.y. effeithlonrwydd yn y swyddfa gefn ac adnoddau ynghyd â pherthnasau gwaith dydd i ddydd agosach, ond byddwn yn amlygu'r pwyntiau a ganlyn hefyd:-

Fe wnaethom symud swyddfeydd dair blynedd yn ôl fel bod y Cynllunwyr a'r swyddogion BC bellach yn eistedd yn yr un ystafell ac felly mae ganddynt gswllt dyddiol ac yn aml yn sylwi ar sgysiau ei gilydd. Mae swyddogion BC yn aml yn cynnig cyngor ar oleddf to, deunyddiau ac ati sydd wedi bod yn ddefnyddiol i staff iau wrth drafod gyda datblygwyr. Mae hefyd yn rhoi cyfle i BC gael ymgysylltu'n gynharach (yn aml yn dilyn cyflwyniad gan Gynllunwyr) gyda datblygwyr mwy fel eu bod yn defnyddio gwasanaeth BC yr awdurdod lleol yn hytrach nag arolygwyr cymeradwy.

Rydym yn defnyddio'r swyddogion BC i wirio bod datblygiadau HH wedi'u hadeiladu yn unol â'r cynlluniau (yn aml mae hyn yn achos o redeg tâp mesur ar hyd estyniad pan fyddant yn gwneud eu harchwiliadau safle) ac maen nhw'n adrodd eu darganfyddiadau yn ôl i'r swyddogion cynllunio (sy'n aml yn arwain at yr angen am geisiadau newydd!).

Mantais arall yw bod BC yn gweithio'n agos gyda'n swyddog Cadwraeth, yn cynghori ei gilydd ar dechnegau adeiladu a deddfwriaeth briodol.

Gobeithio y bydd hyn yn helpu!

Cofion

Judith

Judith Jones BA Hons Town & Country Planning, BTP, MRTPI

Pennaeth Cynllunio Tref, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil

Hi Gareth,

Rwy'n rheoli'r ddau wasanaeth, ac rwyf bob amser wedi'u hystyried nhw'n ddwy ochr o'r un geiniog. Mae cael y ddwy rôl gyda'i gilydd yn caniatáu i ni ddarparu siop un-stop i'r cyhoedd, ac rydym yn annog swyddogion DM i hyrwyddo BC gan ei fod mewn cystadleuaeth gyda'r sector preifat. Gall cynllunwyr a swyddogion rheolaeth adeiladu ofyn am gyngor gan ei gilydd yn rhwydd pan fyddant yn derbyn yr ymholiadau anorfod ynghylch y ddisgyblaeth arall.

Rydym yn annog swyddogion BC i fod yn llygaid ac yn glustiau i'r Adain Gynllunio, ac maen nhw'n rhoi gwybod i DM am unrhyw wyro oddi ar y cynlluniau sydd wedi'u cymeradwyo. Mae gorfodaeth DM yn cael rhestr cychwyn BC wythnosol i wirio a oes unrhyw waith heb awdurdod yn cael ei gychwyn, neu gynlluniau ble bo angen cydymffurfio ag amodau cyn cychwyn.

Gobeithio y bydd hyn yn helpu.

Tim Stephens,

Rheolwr Rheolaeth Datblygu,

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Helo Gareth

Rwy'n gyfrifol am Reolaeth Adeiladu, a symudodd o'r Gwasanaethau Rheoleiddio (Iechyd Cyhoeddus) i Gynllunio ychydig flynyddoedd yn ôl. Yn fwy diweddar, rydym wedi integreiddio'n timau DC a BC o dan un rheolwr fel mesur effeithlonrwydd. I gychwyn, roeddem yn rhannu staff gweinyddol/technegol ar draws y ddau faes gwasanaeth, ond bellach mae gennym swyddogion penodol i gefnogi'r naill dîm a'r llall oherwydd natur arbennig y swyddogaethau. Fodd bynnag, rydym wedi cynnal hyfforddiant angenrheidiol er mwyn gallu darparu cefnogaeth weinyddol/dechnegol i'r naill faes a'r llall os oes angen. Roedd gen i ychydig o brofiad o weithio gyda Rheolaeth Adeiladu yn gynnar yn fy ngyrfa ond bu raid i mi ddysgu llawer mwy am ei swyddogaeth a'i gyfrifoldebau yn fy rôl reolaethol.

Mae cael rheolaeth adeiladu o fewn yr elfen gynllunio wedi profi i fod yn eithaf llwyddiannus a phoblogaidd gyda staff. Mae mwy o gyfathrebu rhwng swyddogion a gwell dealltwriaeth o'r rolau penodol. Mae swyddogion cynllunio yn hyrwyddo'r swyddogaeth LABC fel rhan o unrhyw gyngor cyn gwneud cais cynllunio ac mae swyddogion Rheolaeth Adeiladu yn darparu gwasanaeth gwerthfawr gyda monitro a gosod rhybuddion ar safleoedd.

Gobeithiaf fod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol, rwy'n hapus i ehangu ar unrhyw bwynt uchod pe dymunwch.

Cofion cynnes

Jonathan D Parsons

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Helo Gareth

Rwy'n rheoli Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu ac yn teimlo bod mwy o fanteision nag o anfanteision o gael y ddau beth gyda'i gilydd.

Fel rydych yn ei awgrymu, mae arbedion swyddfa gefn yn eithaf cyfyngedig (ond mae'n siŵr y gellid ei wella). Fodd bynnag, y fantais fwyaf yw deialog parhaus rhwng POs a BCOs a'r ffaith fod BCOs yn aml yn bâr ychwanegol o lygaid ar y safle o safbwynt gorfodaeth.

Fodd bynnag, un gŵyn rwyf yn aml yn ei chael gan BCOs yw bod cleientiaid yn aml yn anfodlon gyda'u profiad o'r broses gynllunio ac, o ganlyniad, mae temtasiwn iddynt ddefnyddio gwasanaethau BCO allanol. Yn amlwg mae hyn yn rhywbeth sydd angen sylw yn fy nghyfadrann i wrth i bethau symud ymlaen (dim ond ers ychydig fisoedd rwyf wedi bod yn y swydd!).

Gobeithio y bydd hyn yn helpu.

Cofion gorau

David Fitzsimon

Cyngor Sir Penfro

Bore Da,

Mae Graham wedi pasio eich e-bost i POSW am y posibilrwydd o uno'r ddwy ddisgyblaeth yng Ngwynedd.

Fel y gwyddoch, mae manteision o gael elfen Rheolaeth Datblygu cynllunio a BC gyda'i gilydd. Yn hanesyddol, mae hyn wedi bod yn ymwneud â gwirio cynlluniau, sicrhau bod datblygiadau'n bwrw ymlaen yn unol â chynlluniau hanesyddol ac ati. Fodd bynnag, mae'r byd cynllunio wedi newid ers ein dyddiau cynnar o Mr Johnston yn dod i'n swyddfa yn esbonio am ei "lond bwced o bethau bach".

Rwyf yn gweithio'n agos gyda Gareth Roberts yma gan ei fod bellach yn rheoli ei Dîm Adeiladu (BC, Cadwraeth,

Adnewyddu Tai, Cadwraeth Ynni). Pur anaml y byddwn ni'n cysylltu ynghylch cynlluniau ac amodau ond mae dal i fod peth gweithgaredd gweithredol fel hynny. Yr hyn rydym yn tueddu i'w wneud yn fwy bellach yw cynnig gwasanaeth DM a BC ar y cyd i gwsmeriaid. Rydym yn gweithio'n agos yn ein Fforwm Datblygwyr/Asiantau gan ddarparu cyngor a chanllawiau technegol i ddatblygwyr ac asiantau lleol. Rwyf newydd gyflwyno rhai newidiadau i'r gwasanaeth cyn gwneud cais cynllunio yn fy nhîm sy'n golygu cynllun codi ffi syml a rhestr o asiantau lleol yr ydym yn cyfeirio pobl atynt. Mae hyn wedi'i ddatblygu drwy ein Fforwm ac fe welodd DM a BC fanteision ceisio cynnig gwasanaeth cost effeithiol wedi'i deilwra o'r cychwyn i gwblhau i ddatblygwyr.

Ymddengys bod y ffaith eu bod yn fy ngweld i a Gareth Roberts fel rhyw fath o dîm a fydd yn ceisio darparu gwasanaeth cyflym a chydlynol (y codir tâl amdano) yn gweithio'n dda. Rydym yn fwy o fusnes nag erioed o'r blaen bellach, Gareth, ac rwy'n meddwl ei bod hi'n hanfodol cynnig gwasanaeth mewnol cyn gwneud cais, cais a BC i alluogi i ddatblygwyr fod â'r hyder i fuddsoddi'n economaidd yn y Sir.

Gallai weithio hefyd pe byddai BC yn dal i fod ar wahân wrth DM ond, fel popeth arall mewn Cynghorau, y pellaf y mae adain oddi wrth eich un chi, yr anoddaf yw hi i wneud pethau'n effeithiol.

Gobeithio y bydd hyn yn helpu.

Paul Mead
Rheolwr Datblygu – Cyngor Sir Ddinbych

Gareth,

Mae Rheolaeth Adeiladu yn disgyn o fewn Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (cyn fy amser i roedd o fewn Tai). Dros y blynyddoedd, rwyf wedi gweithio yn y ddwy sefyllfa a manteision lleoli o fewn Gwasanaeth Technegol yn hytrach na Chynllunio yw:

- 1.Cefnogaeth arbenigol peirianeg (y gellir ei reoli'n rhwydd o fy mhrofiad i)
- 2.Gwahaniad cliriach rhwng Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu ym meddwl y cyhoedd (gellir rheoli'r risg o ddrysu rhwng y ddwy system reoleiddio gyda chafeat gohebiaeth briodol a phapur pennawd)

Rwy'n cytuno gyda'ch manteision damcaniaethol. Y realiti yw bod yna nemor ddim cydweithio yn rhannol oherwydd bod cystadleuaeth gydag Arolygwyr Cymeradwy yn lleddfu yn erbyn Swyddogion Rheolaeth Adeiladu'n cael eu gweld fel '*Planning snitches*'. Fe gofiwch efallai ein bod wedi edrych ar Brosiect Cydweithio gyda'ch Huw Williams chi ac nid oedd symud Rheolaeth Adeiladu i ffwrdd o Gynllunio yn cael ei weld fel risg ac fe fethodd oherwydd ffactorau eraill.

C13/0912/11/LL	Llawn - Cynllunio/Full - Planning	CAIS AR GYFER NEWID DEFNYDD LLAWR GWAELOD A LLAWR IS-WAELOD BRESENNOL O SIOP (A1) I GAFFI/BAR (A3) YNGHYD A GWNEUD NEWIDIADAU ALLANOL / APPLICATION FOR THE CHANGE OF USE OF GROUND AND BASEMENT FLOORS FROM SHOP (A1) TO CAFE/BAR (A3) TOGETHER WITH EXTERNAL	205-207, Stryd Fawr / High Street, Bangor, LL571NY	Dirprwyedig/Delegated	04/09/2013	17/10/2013	Gwrthodwyd/Refused	MIOT: All Other Developments Minor	Decision made	43
C15/0667/23/LL	Llawn - Cynllunio/Full - Planning	Estyniadau i dy dafarn a darparu maes parcio / Extension to public house and provision of car park	The Snowdon Inn, Cwm-y-glo, Caernarfon, LL554EE	Dirprwyedig/Delegated	09/07/2015	24/08/2015	Gwrthodwyd/Refused	MIRD: Retail Distribution and Servicing Minor (A1-A3)	Decision made	46
C12/1628/33/LL	Llawn - Cynllunio/Full - Planning	CADW ADEILAD FEL A'I CODWYD A'I DEFNYDDIO FEL MODURDY/ GORSAF MOT GYDA RHAN I'W GADW AR GYFER DEFNYDD AMAETHYDDOL / RETAIN BUILDING AS BUILT AND USE AS GARAGE / MOT STATION WITH PART TO BE RETAINED FOR AGRICULTURAL USE	Hendre Wen, Rhydyclafdy, Pwllheli, LL537YP	Dirprwyedig/Delegated	03/01/2013	21/02/2013	Gwrthodwyd/Refused	MIOT: All Other Developments Minor	Appeal decided	49
C15/0152/08/AM	Amlinell/Outline	Cais amlinellol er mwyn codi uned manwerthu (A1) newydd/ Outline application for the erection of a new retail unit (A1).	Former Little Chef Site, 289 Park Road, Penrhyndeudraeth, Gwynedd, LL48 6LS	Dirprwyedig/Delegated	26/02/2015	17/04/2015	Gwrthodwyd/Refused	MIRD: Retail Distribution and Servicing Minor (A1-A3)	Decision made	50
C15/1005/16/LL	Llawn - Cynllunio/Full - Planning	Codi uned diwydiannol / Erection of an industrial unit	Llain / Plot - 18, Ystad Diwydiannol Llandygai - Llandygai Industrial Estate, Bangor, Gwynedd, LL57 4YH	Dirprwyedig/Delegated	27/10/2015	18/12/2015	Gwrthodwyd/Refused	MIMW: Manufacturing Storage Warehousing Minor (B8)	Decision made	52
C13/0467/14/AM	Amlinell/Outline	CAIS AMLINELLOL AR GYFER GORSAF GWERTHU PETROL A DDAU FYNEDFA / OUTLINE APPLICATION FOR THE ERECTION OF A PETROL FILLING STATION AND TWO ACCESSES	Tir gyferbyn a / Land opposite, Tyddyn Hen, Bethel Road, Caernarfon, Gwynedd, LL551UH	Dirprwyedig/Delegated	10/05/2013	04/07/2013	Gwrthodwyd/Refused	MIOT: All Other Developments Minor	Decision made	55
C15/0409/42/LL	Llawn - Cynllunio/Full - Planning	Adeiladu adeilad newydd i gynhyrchu hufan ia, siop/caffi hufen ia a chynnyrchu lleol, adnodd addysgiadol, newidiadau i fynedfa, gwaith allanol cysylltiedig a mynedfa amaethyddol newydd / Construct new building to produce ice cream, ice cream and local pro	Tir rhan o / Land part of Fferm Bryn Rhydd, Ederm, Pwllheli, Gwynedd, LL538YY	Dirprwyedig/Delegated	08/07/2015	01/09/2015	Gwrthodwyd/Refused	MIOT: All Other Developments Minor	Decision made	55
C13/0896/18/LL	Llawn - Cynllunio/Full - Planning	NEWID DEFNYDD YSGUBOR / SIED MELINO COEDWIGAETH YNGHYD A'R COMPOUND AR GYFER DEFNYDD STORI CYFFREDINOL / CHANGE OF USE OF BARN / FORESTRY MILLING SHED AND COMPOUND FOR GENERAL STORAGE USE	Parc Nant y Garth, Seion, Llanddeiniolen, Gwynedd, LL564QU	Dirprwyedig/Delegated	05/09/2013	31/10/2013	Gwrthodwyd/Refused	MIOT: All Other Developments Minor	Decision made	56
C13/0835/22/LL	Llawn - Cynllunio/Full - Planning	NEWID DEFNYDD CYN SIOP (A1) I DDEFNYDD GWERTHU BWYD POETH I'W FWYTA ALLAN (A3) / CHANGE OF USE OF THE FORMER SHOP (A1) TO A HOT FOOD TAKEAWAY (A3)	3, Water Street, Penygroes, Caernarfon, LL546LR	Pwyllgor/Committee	04/09/2013	04/11/2013	Gwrthodwyd/Refused	MIOT: All Other Developments Minor	Decision made	61
C13/0883/39/LL	Llawn - Cynllunio/Full - Planning	DYMCHWEL TY PRESENNOL A CHODI TY NEWYDD, CAU MYNEDFA BRESENNOL A CREU MYNEDFA GERBYDOL NEWYDD A SAFLE HOFRENYDD / DEMOLISH EXISTING DWELLING AND ERECT A REPLACEMENT DWELLING, BLOCK UP EXISTING ACCESS AND CREATE NEW VEHICULAR ACCESS AND HELIPAD.	Llwyn Du, Lon Sarn Bach, Abersoch, Pwllheli, Gwynedd, LL537EL	Dirprwyedig/Delegated	03/09/2013	13/11/2013	Gwrthodwyd/Refused	MIOT: All Other Developments Minor	Decision made	71

C15/0162/33/LL	Llawn - Cynllunio/Full - Planning	Cais rhannol ol-weithredol ar gyfer codi adeilad a?i ddefnyddio fel modurdy masnachol, newid adeilad a ganiatawyd ac a ddefnyddiwyd yn flaenorol fel modurdy masnachol yn Gallt y Beren i ddefnydd amaethyddol, ynghyd a gwelliannau bwriedig i?r fynedfa i?r B	Gallt Y Beren, Rhydyclafdy, Pwllheli, LL537YP	Pwyllgor/Committee	02/03/2015	26/06/2015	Gwrthodwyd/Refused	MIOT: All Other Developments Minor	Application under appeal	116
C14/0244/18/LL	Llawn - Cynllunio/Full - Planning	Ail gyflwyniad o gais a wrthodwyd o dan C12/1522/18/LL ar gyfer cadw newid defnydd tir ar gyfer gemau paent ac estyniadau i faes parcio, ynghyd a chreu estyniad pellach i'r maes parcio, trac mynediad a 'base camp' newydd, gosod cynwysyddion, adeiladau	Coed Rhydau, Llanddeiniolen, Caernarfon, Gwynedd, LL57 4EE	Pwyllgor/Committee	20/03/2014	30/07/2014	Gwrthodwyd/Refused	MIOT: All Other Developments Minor	Appeal decided	132
C15/0011/08/LL	Llawn - Cynllunio/Full - Planning	Estyniad i siop modurdy presennol ar gyfer creu man adwerthu ategol./Extension to existing garage shop to form ancillary retail store.	PARK ROAD GARAGE, PENRHYNDEUDRAETH, GWYNEDD, LL48 6LS	Dirprwyedig/Delegated	20/01/2015	19/11/2015	Gwrthodwyd/Refused	MIRD: Retail Distribution and Servicing Minor (A1-A3)	Decision made	303
C14/0951/35/LL	Llawn - Cynllunio/Full - Planning	Adeilad croeso newydd, pabell fawr dros dro a thy ar gyfer perchennog gan gynnwys gosod tanc septig newydd/New reception building, temporary marquee and owner's dwelling including installation of new septic tank.	Mynydd Ednyfed, Caernarfon Road, Criccieth, Gwynedd, LL52 0PH	Dirprwyedig/Delegated	08/10/2014	27/11/2015	Gwrthodwyd/Refused	MIOT: All Other Developments Minor	Decision made	415
C13/0403/39/LL	Llawn - Cynllunio/Full - Planning	DYMCHWEL GWESTY PRESENNOL, ADEILADU STRWYTHUR DEFNYDD CYMYSG YN CYNNWYS CYFLEUSTER SBA A GWESTY 42 YSTAFELL WELY, BWYTY/BAR A 18 APARTMENT PRESWYL GYDA LLEFYDD PARCIO, ARDALOEDD GWASANAETHU A TIRLUNIO CYSYLLTIOL / DEMOLITION OF EXISTING HOTEL, CONSTRUCTIO	White House Hotel, Abersoch, Pwllheli, LL537AG	Pwyllgor/Committee	09/04/2013	26/06/2014	Gwrthodwyd/Refused	MAOT: All Other Principal Developments Major (B8)	Appeal decided	443

Tud. 96

		Ebrill 2015										
1	Rhowch y rhif cyfeirnod am eich cais cynllunio / ymholiad mwyaf di	C15/0113/LL	C15/0199/24/DA	C15/0221/42/RC	C15/0295/25/LL	C15/0202/34/LL	C15/0244/39/LL	C15/0265/14/LL	C15/0152/08/AM	C15/0221/42/RC	C14/0657/15/LL	C15/0164/44/LL
2	A oedd y cais / ymholiad hwn ar eich cyfer chi eich hunan neu a oeddech yn gweithredu fel asiant i'r gwasanaeth?			1						1	1	1
	Fy hunan / <i>On own behalf</i>											
	Asiant / <i>Agent</i>	1	1		1	1	1	1	1			
3	A wnaethoch chi gysylltu â'r Uned Cynllunio i dderbyn cymorth cyn cyflwyno cais?	1	1	1							1	
	Do / <i>Yes</i>											
	Naddo / <i>No</i>				1							
4	Pa mor fodlon oeddech chi â'r cyngor a gawsoch cyn cyflwyno cais Cynllunio?	1	1	1							1	
	Bodlon / <i>Satisfied</i>											
	Anfodlon / <i>Dissatisfied</i>				1							
5	Pa mor fodlon oeddech chi â'r amser a gymerwyd i ateb negeseuon ac ymholiadau neu i benderfynu eich cais?	1	1	1							1	
	Bodlon / <i>Satisfied</i>											
	Anfodlon / <i>Dissatisfied</i>											
6	Yn gyffredinol, pa mor fodlon oeddech chi â'r gwasanaeth a gawsoch gan yr Uned Cynllunio wrth ddelio â'ch cais / ymholiad?	1	1	1			1		1	1	1	1
	Bodlon / <i>Satisfied</i>											
	Anfodlon / <i>Dissatisfied</i>				1	1		1				
	Yr ydym wedi ymrwymo i wella'r gwasanaeth a dderbyniwch a chroeshawir chwi i roi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau yn y gofod isod. / We are committed to improving the service you receive and you are welcome to make any comments or suggestions in the space.				Did not notify my agent for 5 weeks that there was a need for planning permission. The planning officer reassured us on site first that planning was a 'mere formality' if it was 'mere formality' why was formal planning permission required in the first place. You need to visit sites and ascertain if planning permission is required before informing your customers and if it is a 'mere formality' then planning permission should be granted without going through all the red tape. It is not a service you provide it is a tick box more than my jobs worth service you provide. your faithfully Huw M Jones. It took you 3 months to decide what should have been given immediately. What service	Cais wedi ei wrthod; rheswm ddim yn gwneud synnwyr, Dyfarniad yn nodi ei fod mewn AHNE ond doedd gan y swyddog AHNE ddim gwrthwynebiad. Asiant wedi gyrru nifer o lythyrau (3) yn gofyn pam ei fod wedi eu gwrthod - dim wedi derbyn dim ateb dim ond i ofyn iddo gael cyngor cyn cyflwyno cais. Asiant wedi cael cyngor cyn cyflwyno cais gan CO tua 2 flynedd yn ôl lle'r oedd dim gwrthwynebiad mewn egwyddor. Asiant wedi ei siomi nad oedd wedi cael dim cyswllt gan y swyddog i wneud newidiadau i'r cais cyn ei wrthod. Fel rheol nid oes gan yr asiant ddim cwynion am y gwasanaeth mae yn ei dderbyn. Wedi ei siom yn fawr iawn yn yr achos yma.	Dim yn siwr be ydi pwrpas yr holiadur yma, gwell gofyn y cwestiwn yn gyffredinol. Penderfyniadau pwylgor yn annheg - ty yn Abersoch wedi ei wrthod gydag argymhelliad i ganiatau.	Anfodlon - ddim am gymryd rhan yn yr holiadur. Perthynas rhwng asiantwyr a swyddogion wedi suro o dan y drefn newydd.	Siomedig gyda'r penderfyniad ond hapus hefo'r gwasanaeth.	Bodlon iawn hefo'r gwasanaeth mae wedi eu derbyn.		26/05/2015 - Ffon; Dim ateb 11/06/2015 - Hapus hefo'r broses er bod y cais wedi mynd i bwylgor yn dilyn 3 gwrthwynebiad.

100.97

Mai 2015					Mehfin 2015								Gorffenn			
C15/0160/18/LL	C15/0296/39/LL	C15/0257/00/LL	C15/0317/24/LL	C15/0259/35/LL	?	C15/0351/33/LL	C15/0355/24/LL	C15/0449/39/LL	C15/0509/17/DA	C15/0415/13/LL	C15/0316/09/LL	C15/0119/15/HY	C15/0644/37/LL	C15/0597/16/LL	C15/0650/34/LL	C15/0649/15/LL
1					1			1		1			1	1		
	1	1	1	1		1	1		1		1	1			1	1
							1	1					1	1		
						1										
						1	1	1					1			
														1		
						1	1	1					1			
					1									1		
	1	1	1	1		1	1	1	1	1	1	1	1		1	1
1					1									1		
Hapus ar y cyfan ond wedi cael trafferth cael gafael ar y swyddog, gadael negeseuon a swyddog ddim yn ffonio yn ?!. (Roedd yn anhapus gyda'r penderfyniad - ond mater gwahanol yw hyn)	Dim trafferth hefo'r cais yma. Ond yn anfodlon yn gyffredinol ein bod yn codi am gyngor cyn cyflwyno cais.	Hapus iawn hefo'r cais yma. Yn gyffredinol roedd yn anhapus gyda'r drefn cyngor cyn gwneud cais. Yn rhan fwyaf o achosion buasai galwad ff?n 5 munud yn ateb y cwestiwn ond mae'n cymryd lot o fynd yn ?! ac ymlaen a chael dim llawer o synnwyr yn ddiweddd.	Hapus iawn hefo'r gwasaneth ar y cais yma. Ar y cyfan - ambell swyddog yn gwrthod cyfarfod pensaer yn ystod y broses cyngor cyn cyflwyno cais ar gais mawr cymleth. Dim yn meindio talu am y gwasanaeth ond yn teimlo dylent dderbyn gwasanaeth da.	Bodlon iawn gyda'r gwasanaeth ar y cyfan.	The application was dealt with within the statutory time. Unfortunately the arrangements for communicating with officers is a complete dead loss and as a result the service provided does not answer to the needs of the applicant who is paying for a service. It seems to be a matter of pure chance whether a response is received to telephone calls, emails and even written correspondence. I have not stated the application number in case it prejudices further applications. Questionnaires of this kind are usually anonymised.				Fodlon hefo'r cais yma. Nodyn: Anodd cael cyfarfod hefo swyddogion ond yn ymwybodol eu bod yn brysur iawn.	Bodlon iawn hefo'r gwasanaeth 'Cyngor cyn cyflwyno cais' a hefyd hefo'r cais cynllunio.	Bodlon iawn hefo'r gwasanaeth, Swyddog yn ymateb yn sydyn ac yn gynorthwyl iawn.	Bodlon hefo'r gwasanaeth.	Does genyf ddim cwyn hefo gwasanaeth yr adran cynllunio ond mae yn amhosib cael sgwrs ar y ffon mae ganolfan ffon y cyngor yn gofyn pa fusnes rwyf am ei drafod ar adran cynllunio ac os gofynaf am sgwrs gyda un yn benodol roedd yn gofyn as roeddwn perthun. buasai'n well cael ffonio yn syth i'r adran cynllunio.	I returned from holiday on the 2nd August 2015, after having informed you i would be away until then; I am very dissatisfied with both the preoress and the refusal to grant planning permission. I will appeal to the Welsh Ministers, but it would be useful to know whether the date of 6 months or 12 weeks / or 2 months is applicable as it isn't clear from the form. Kathrine Jones 2/08/2015 P.S The Planning Inspectorate Appeal Forms say 6 months. KJ	Bodlon iawn hefo'r gwasanaeth bob amser. Gwasanaeth yn gwneud gwaith da ofnadwy ar y cyfan.	Bodlon iawn hefo Cynllunio ond wedi cael dipyn bach o drafferth hefo priffyrdd.

1af 2015

Awst 2015

Medi 2015

C14/1175/32/LL	C15/0040/08/LL	C15/0485/46/LL	C15/0570/42/LL	C15/0003/18/LL	C14/0772/39/LL	C15/0099/39/LL	C15/0363/20/LL	C14/1004/23/LL	C15/0727/44/LL	C15/0781/45/HY	C15/0786/11/LL	C15/0877/40/LL	C15/0791/44/LL	C15/0703/18/LL	C15/0761/39/LL	C15/0868/11/LL
		1							1			1		1		
1	1		1	1	1	1	1	1		1	1		1		1	1
				1	1	1				1	1	1				
				1	1	1				1	1	1				
				1	1	1				1	1	1				
1	1	1	1	1	1	1		1		1	1	1	1	1	1	
							1		1							1
Adroddiad ystlumod wedi dal bob dim yn ond dim bai ar neb am hyn. Yn hapus hefo'r gwasanaeth roedd wedi ei dderbyn.	Hapus hefo gwasanaeth cynllunio, mae cysylltiad gyda adranau eraill dipyn bach yn sal. Dim yn ymwybodol o adroddiad bioamrywiaeth felly mae'r cais wedi bod yn sefyll gan nad oedd yr asiant yn gallu ymateb. Anodd cysylltu hefo'r gwasanaeth dros y ffon.	Hapus hefo'r gwasanaeth.	Hapus hefo'r gwasanaeth.	The pre-applications were extremely helpful and the advice received enabled the proposal to be dealt with smoothly. An excellent level of service once again from the planning team, Planning case officer and senior officers taking the report through the planning committee. a very professional service - Thank you. Jeremy Lambe	An excelent level of service from the officers and a very professional chairman at the planning committee meeting. Thank you.	An excelent level of service once again - Thank you.	Ddim yn hapus hefo'r gwasanaeth.	Hapus hefo'r gwasanaeth, Problemau ar y cychwyn ond wedi gweithio hefo'r swyddog i ddatrys y problemau a chael canlyniad ffafriol.	Gwasanaeth ardderchog gan y swyddog.				Bodlon iawn hefo'r gwasanaeth.	Wedi ei brosesu yn gynt na'r disgwyl,hapus iawn.	Dim cwyn o gwbl am y gwasanaeth.	Dim wedi derbyn dim gohebiaeth yn ystod y cais dim ond dyfarniad gwrthod - buasai wedi bod yn braf cael e-bost neu alwad ff?n i amlinellu fod y cynllun ddim yn ffafriol yn hytrach na gwrthod y cais yn syth.

1af 2015

Hydref 2015															
C15/0770/39/LL	C15/0818/03/LL	C15/0783/42/MG	C15/0760/20/LL	C15/0716/42/HY	C15/0341/39/LL	C14/0532/14/LL	C15/0902/03/LL	C15/0507/11/LL	C15/0533/11/LL	C15/0635/03/LL	C15/1020/22/LL	C15/0931/36/LL	C15/0932/18/LL	C15/0839/26/AM	C15/0755/41/LL
		1		1											
1	1		1		1	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1
											1				
											1				
											1				
1	1	1		1	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1
			1												
Hapus hefo'r gwasanaeth	Hapus iawn gyda'r gwasanaeth - "refreshing"	Hapus hefo'r gwasanaeth.	Anhapus iawn hefo'r gwasanaeth. Wedi trio cael pre-app ond ddim wedi bod yn llwyddiannus (cyn Ebrill 2015) efallai buasai'r gwasanaeth a derbynir r "(an yn un gwell gan ein bod yn codi amdano. Wedi methu cael cyfarfod hefo'r swyddog, llythyr yn nodi dyl)	Happy with the service received but disappointed with the result. No fault of the planning department; rules are the same for everybody. Communication through email worked very well.	The application took a very long time. Complicated application, marine licencing and special area of conservation... Always told; can't respond because always waiting for other people. Officer should be chasing up the consultees, if they don't respond within the deadline officer should carry on. Lack of a driving force. Committee - Spoke in the committee, 3 minutes is not enough, token gesture. Feel powerless when you spend months on an application and you hope that the members grasp the application. The committee don't have the understanding to decide applications - do the members understand the officer report? Lots of room for improvement. Open ended process, huge risk when you have no idea when the decision will be or what the decision will be. Committee is a lottery.	Hapus iawn gyda'r gwasanaeth. Wedi methu cyfnod adroddiad yslumod sydd wedi dal y cais yn ol dim yr adran. Idwal wedi bod yn ardderchog. Pwyllgor - Hapus hefo'r canlyniad ond yn synnu cyn lleied mae'r aelodau yn deall am gynllunio. Yr ymgeisydd yn trio prynu Plas Ty Coch (drws nesaf) yw datblygu i'r dyfodol, gobeithio caiff yr un profiad positif gyda'r cais yno.	Hapus iawn hefo'r gwasanaeth. Yn gyffredinol - bechod na ellir cael gafael ar swyddog dros y ffon.	Hapus hefo'r gwasanaeth, ddim yn hapus hefo'r penderfyniad!	Very happy with the planning department; Gave good advice given; Thank you very much to Gwawr Hughes. Committee: Very disappointed. The committee disregarded with the offices and the information noted in the three minutes the agent spoke. Applicant is considering appeal or re-application.	Hapus iawn hefo'r gwasanaeth. Yn gyffredinol - bechod na ellir cael gafael ar swyddog dros y ffon.		Da iawn - Bob dim yn mynd trwodd yn hawdd iawn gan ystyried cymlethdod y cais.	Hapus - Dim problem, wedi derbyn cyngor gan y swyddog ac wedi gwneud y newidiadau ar gais wedi mynd ymlaen heb broblem.	Bodlon hefo'r canlyniad. Yn gyffredinol - dull o gysylltu yn well, gallu siarad hefo swyddogion yn uniongyrchol. Dim gwrthwynebiad i dalu am y pre-apps ond mae'r cyfnod yn mynd yn hir iawn weithiau. Disgwyl i ymatebion fod yn gynt. Cyngor yn gallu bod yn gaeth. Teimlo dylai fod yr awdurdod yn ystyriad tŷ angen lleol ar y safle yma. Tu allan i ffin ond mewn clwstwr o dai. Polisi ail gartrefi ydi hyn nid caniatáu llety gwyliau ac yn gwrthod ystyried tai i bobl leol. Criccieth fel enghraifft - tŷ ar y prom i fod yn llety gwyliau ond yn dy haf. Polisi yn gwrthod i'r ymgeisydd (lleol) adeiladu tŷ iddo ei hun ond caiff adeiladu tŷ haf i rywun arall.	Very happy with the planning department. Having dealt with other planning departments across the UK was very pleased with the service received. The committee was translated and chaired very well. Application approved - must not complain.

Tud. 100

Tachwedd 2015							Rhagfyr 2015		Ionawr 2016		Chwefror 2016			
C13/1298/11/AM	C15/0978/00/LL	C15/0678/00/CR	C15/0746/17/CR	C15/1070/46/RC	C15/0011/08/LL	C15/0847/35/LL	C15/0922/23/LL	C15/0351/33/LL	C15/1052/20/LL	C15/1149/04/LL	C15/1208/16/LL	C15/1239/30/LL	C15/1363/18/LL	C15/1248/17/LL
							1		1			1		
1	1	1	1	1	1	1		1		1	1		1	1
								1	1			1		1
								1						
								1	1			1		
1	1	1	1	1			1	1	1	1	1	1	1	1
					1	1								
Methu cael tref ar y pre-app, system wedi newid hanner ffordd trwy'r proses. Hapus unwaith roedd y cais ar ben ffordd. Buasai cyfarfod wedi bod yn ddefnyddiol yn llawer cynt. Pwyllgor - Ar ôl siarad y tro cyntaf yn y pwyllgor, cynghorwyr yn cael dweud de oeddent eisiau ond nid oedd yr asiant yn cael dod yn ôl yn yr ail gyfarfod i ymateb i'r sylwadau. Cynghorwyr ddim yn broffesiynol, son am ffordd yn beryg pan wedi meddwi ac ati, cynghorwyr yn honni bod y swyddogion dim yn broffesiynol; gweld hyn yn ofnadwy. Dim bai ar yr y swyddogion, pwyllgor wedi mynd yn erbyn yr adran cynllunio. Apel ar ei ffordd yn cynnwys costau.	Anhapus hefo'r penderfyniad ond yn hapus hefo'r gwasanaeth. Anghysondeb gyda barn swyddog dros y blynyddoedd, wedi cael caniatâd am yr un datblygiad ar yr un stryd yn y gorffennol. Am roi ail gais i mewn yn hytrach nac apêl a gobeithio caiff y penderfyniad cywir. Gwyn yn swyddog da iawn, byd o wahaniaeth i'r swyddog blaenorol. Galw Gwynedd - amhosib cael gafael ar swyddog, maent yn defnyddio'r ganolfan gyswllt i sgrinio galwadau sydd yn golygu na ellir mynd ymlaen hefo'r gwaith. System dda i'r asiantau dod yn syth trwodd i gynllunio.	Hapus hefo'r gwasanaeth; anodd cael gafael ar y swyddog (gweithio rhan amser) a cais yn mynd i CADW felly roedd y broses yn hir.	Hapus iawn hefo'r gwasanaeth; Nid oedd yn gwneud ceisiadau adeiladau rhestredig tan i Eryl gychwyn yn y swydd. Mae hi yn ardderchog "breath of fresh air"	Hapus hefo'r gwasanaeth.	Anfodlon iawn - Penderfyniad sâl iawn, methu cael gafael ar y swyddog ond y neges oedd bod y caniatâd ar ei ffordd ac wedyn mae gwrthodiad yn cyrraedd. Wedi gwneud llawer mwy o waith ar y cais na ddylai fod ar ddyddiad y swyddog, wedi gwario miloedd yn profi ffeithiau a chael gwrthodiad yn y diwedd. Bydd yr ymgeisydd yn ail drio am y caniatâd tro yma ac yn gweddio ei fod yn mynd i bwyllgor, ac os yn cael gwrthodiad eto bydd yn mynd i apêl a gofyn am gostau. Anfodlon iawn cael gwrthodiad y rhesymau nodir. Galw Gwynedd - amhosib cael gafael ar swyddog, maent yn defnyddio'r ganolfan gyswllt i sgrinio galwadau sydd yn golygu na ellir mynd ymlaen hefo'r gwaith. System dda i'r cyhoedd ond dylai asiantau dod yn syth trwodd i gynllunio.	Dim yn gweld synwyr yn gwrthod y cais, estyniad cefn i deulu lleol. Hapus hefo canlyniad y pwyllgor ond ddim wedi trafferth mynychu'r pwyllgorau.	Hapus iawn hefo'r gwasanaeth - dim rhwystr. Ddim wedi bod yn y pwyllgor.			Bodlon iawn hefo'r gwasanaeth	Bodlon iawn hefo'r gwasanaeth gan adran cynllunio ar y cais. Siomedig braidd fod uned bioamrywiaeth wedi dal y cais yn ol dipyn bach.	The officer for my planning application was Medi Emlyn Davies. Her guidance / advice ect re filling form was superb. Thank you	Bodlon iawn hefo'r gwasanaeth ar y cais. Keira yn ardderchog i weithio hefo!	

Mawrth 2016

C16/0127/20/CC	C15/1199/16/LL	C15/1248/17/LL	C16/0062/04/LL	C16/0191/32/YA	C16/0083/14/LL	C16/0148/23/LL		Swm/Tot	%
1			1	1	1		23		27.7%
	1	1				1	60	83	72.3%
							15		71.4%
							6	21	28.6%
							16		88.9%
							2	18	11.1%
							18		90.0%
							2	20	10.0%
1	1	1	1	1	1	1	71		85.5%
							12	83	14.5%

Bodlon iawn hefo'r gwasanaeth gan yr adran cynllunio. Roedd Iwan Arnold wedi bod yn ardderchog. Roedd y cais wedi cymryd mwy o amser nac roedd yn disgwyf fynd trwodd, ond yn hapus iawn.	Bodlon iawn hefo'r gwasanaeth ar y cais.	Bodlon iawn hefo'r gwasanaeth - Roedd y cais wedi mynd i bwyllgor ac ymweliad safle. Roedd Mr Griffiths wedi synnu bod aelodau yn gwneud sylwadau celwyddog ar yr ymweliad ac y falch iawn bod Anne Lloyd Jones a June Marshal yn gallu gweld synnwyr. Roedd yr adran wedi cael eu tynnu i mewn i ffrwgwd personol na ddylai'i wedi achosi fasiwn drafferth. Swyddogion wedi bod yn wych yn delio hefo'r cais ac yn y pwyllgor.	Bodlon iawn hefo'r gwasanaeth, cais wedi deillio o mater gorfodaeth. Gwyn Lloyd Jones wedi gwneud gaith arbenig yn ystod y broses ac y broffesiynol ac o gymorth trwy'r broses. Wedi cael traferth gyda'r ffurflen, roedd y Porth Cynllunio wedi nodi ffi anghywir ond wedi ei sortio yn hawdd. Ddiolchgar iawn o'r cymorth gan gwyn.	Hapus iawn hefo'r gwasanaeth.	Bodlon iawn hefo'r gwasanaeth.	Bodlon iawn hefo'r gwasanaeth ar y cais. Keira yn ardderchog i weithio hefo!
---	--	---	---	-------------------------------	--------------------------------	--

ATODIAD 7 - DADANSODDIAD O HOLIADUR CYNGHORAU CYMUNED A THREF - YMCHWILIAD CRAFFU Y BROSES CYNLLUNIO

Tud. 103

Ydych chi'n glir beth ydi rôl cyngor cymuned / tref yn y broses cynllunio?	Ydych chi wedi derbyn hyfforddiant ar bolisiau cynllunio?	Sut ydych chi'n derbyn gwybodaeth am geisiadau cynllunio yn eich ardal?	Pa mor fodlon ydych chi gyda'r ffordd yr ydych yn derbyn gwybodaeth / ymateb i ymholiad?	Oes yna rwystrau i gyflwyno sylwadau'r cyngor cymuned / tref ar geisiadau cynllunio?	Beth hoffech ei weld yn digwydd i wella'r profiad o ddelio gyda cheisiadau cynllunio?
Ydw	Rhai aelodau	Trwy'r clerc	Bodlon	Oes, gofyn am estyniad weithiau	Awyrgylch y swyddfa yng Nghaernarfon angen bod yn fwy croesawgar, teimlad anghyfforddus cerdded i mewn yno.
					Canlyniad cais cynllunio a) i'w gael yn y gorffennol b) dim byd rwan c) popeth ddim ar y we. Ma hyn yn gwneud hi'n anodd barnu ceisiadau - yn arbennig os oes amodau rheoli wedi ei roi yn y gorffennol. Gall hyn greu anghysondeb rhwng gwahanol bentrefi.
Ydw	Nac ydw	Trwy'r post	Bodlon	Nac oes	Derbyn manylion penderfyniad ar geisiadau sy'n effeithio ar Corris drwy'r post i'r clerc
Ydw	Nac ydw	Eu derbyn drwy'r post	Bodlon	Nac oes	Hoffwn petae y penderfyniadau yn cael eu hanfon ataf.
Ydw	Nac ydw	Ar ffurf papur gan y gwasanaeth cynllunio.	Anfodlon, mae ymatebion yn cymryd llawer iawn gormod o amser.	Oes. Diffyg amser / 21 diwrnod.	Ymateb o fewn y mis.
Rhannol	Ydw, drwy ddilyn canllawiau yn y llyfryn	Derbyn copiau gan y clerc, o'r cyngor ac yn trafod yn pwyllgor o'r cyngor cymuned.	Anfodlon. Cyngor Cymuned yn cael eu hanwybyddu gan y Swyddogion Cynllunio. Dylai barn y cyngor cymuned gael llawer mwy o ddylanwad ar geisiadau cynllunio. Dylai barn y trigolion Cymraeg lleol gael llawer mwy o ddylanwad ar geisiadau cynllunio.	Oes, Llawer o drigolion lleol yn swil / nerfus o wneud cyflwyniad yn y pwyllgor cynllunio.	Oherwydd nad yw swyddogion yn cymeryd sylw o sylwadau Cyngor Cymuned mae yn anodd iawn cael trigolion lleol i fod yn gynghorwyr cymuned. Angen mwy o gydweithio rhwng adrannau'r Cyngor Sir, er enghraifft, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd. Angen cryfhau rheoli a gorfodaeth a chosbi llym os na fydd cydymffurfio. Angen lleol.

Ydych chi'n glir beth ydi rôl cyngor cymuned / tref yn y broses cynllunio?	Ydych chi wedi derbyn hyfforddiant ar bolisiau cynllunio?	Sut ydych chi'n derbyn gwybodaeth am geisiadau cynllunio yn eich ardal?	Pa mor fodlon ydych chi gyda'r ffordd yr ydych yn derbyn gwybodaeth / ymateb i ymholiad?	Oes yna rwystrau i gyflwyno sylwadau'r cyngor cymuned / tref ar geisiadau cynllunio?	Beth hoffech ei weld yn digwydd i wella'r profiad o ddelio gyda cheisiadau cynllunio?
Ydw	Nac ydw	Trwy'r post	Bodlon	Nac oes	Popeth yn iawn efo'r broses.
Ydw	Ydw	Trwy'r post	Bodlon	Nac oes	Fod yr Adran Cynllunio / Cyngor Gwynedd yn plismona ceisiadau llawer fwy trylwyr. Gweler mewn pentrefi sawl enghriffetiau o siediau amaethyddol yn cael eu caniatu ac yn newid defnydd heb unrhyw weithrediad gan Cyngor Gwynedd. Yn ychwanegol gwelir ceisiadau ac siediau amaethyddol yn cael eu caniatu i tir feddianwyr sydd hefo ychydig o dir o gwmpas ei tai, ac mae'r siediau yn cael ei defnyddio i bopeth ond amaethyddiaeth.
Nac ydw, erioed wedi cael ei egluro yn iawn i mi ac mi fydda templed clerod newydd o fantias.	Nac ydw ddim ar y polisiau.	Derbyn yn y post ac ar ebost gan Adran Cynllunio.	Bodlon. Heblaw bod yr amserlen weithiau yn dynn oherwydd amseriad cyfarfodydd.	Oes, weithiau yr amserlen.	Templed syml i glercod yn nodi beth yw'r disgwyliadau a cwrs hyfforddiant sydd yn defnyddio ceisiadau byw i siarad trwy sut fysa chi yn disgwyl rhywun ymateb. Y teimlad ydi bod ni yn unai cytuno neu anghytuno ond yn wir fel clerod ddim yn teimlo bod ni yn gwneud daioni o fewn y system a bod lle i wella yn sylweddol. Angen dealltwriaeth gwell o bolisiau cenedlaethol a lleol a mi fyddai hynny yn MANTAIS MAWR.
Ydw	Nac ydw	Gan y clerod.	Anfodlon. Angen cael ymateb heb orfod gofyn.	Oes. Y ffaith bod rhaid cyflwyno sylwadau o fewn 21 diwrnod ac efallai nad yw'r Cyngor yma'n cyfarfod yn ystod y cyfnod yma.	Dylai barn cyngorau cymuned a thref gael mwy o sylw na barn unigolyn fel mae'r drefn bresennol. Felly dylai barn cyngor cymuned a thref sy'n wahanol i farn y swyddogion cynllunio olygu bod cais yn mynd yn syth i'r Pwyllgor Cynllunio.
Ydw	Ydw	Cyngor Cymuned	Bodlon	Nac oes	-
Ydw	Nac ydw	Drwy'r post brenhinol	Bodlon	Nac oes	Dim newid.

Ydych chi'n glir beth ydi rôl cyngor cymuned / tref yn y broses cynllunio?	Ydych chi wedi derbyn hyfforddiant ar bolisiau cynllunio?	Sut ydych chi'n derbyn gwybodaeth am geisiadau cynllunio yn eich ardal?	Pa mor fodlon ydych chi gyda'r ffordd yr ydych yn derbyn gwybodaeth / ymateb i ymholiad?	Oes yna rwystrau i gyflwyno sylwadau'r cyngor cymuned / tref ar geisiadau cynllunio?	Beth hoffech ei weld yn digwydd i wella'r profiad o ddelio gyda cheisiadau cynllunio?
Ydw	Nac ydw	Y clercc	Anfodlon. Anodd cael cyswllt gyda Swyddog Cynllunio.	Nac oes	Mi fydd Cyngor Tref Tywyn yn symud i system ble maent yn cynnal Pwyllgorau Cynllunio yn rheolaidd - bob tair wythnos - er mwyn ystyried ceisiadau cynllunio, yn lle'r drefn bresennol o gynnal Pwyllgorau Cynllunio yn ad hoc.
Ydw	Nac ydw	Derbyn rhestr ceisiadau yn wythnosol gan y Cyngor.	Anfodlon. Rydym yn derbyn cydnabyddiaeth o sylwadau, ond rhan amlaf, ni cheir ateb pellach.	Oes. Yr amser a roddir i roi sylwadau. Mae'r Cyngor yn cyfarfod yn fisol. Os yw'r dyddiad cau yn gynt na'r cyfarfod nesaf, mae'r clercc yn hysbysu'r cyngorwyr. Nid ydym yn cael amser i drafod fel Cyngor.	Os yw'r Cyngor yn gwrthwynebu cais, teimlir mae yr un llais sydd ganddynt ac unigolyn yn gwrthwynebu. Dylai gwrthwynebiad gan 16 o Gynghorwyr fod yn sail i edrych yn ddyfnach ar y cais.
Ddim yn siwr	Nac ydw	Hwyr	Anfodlon. Dim sylw yn cael ei roi i'n sylwadau.	Nac oes	Cymryd mwy o sylw o sylwadau a wneir gan gynghorwyr lleol. Dylid rhoi mwy o resymau cynllunio pan yn derbyn / gwrthod cais yn groes i gyngor Cyngor Cymuned.
Ydw	Mae rhai ohonom wedi cael hyfforddiant ar bolisiau cynllunio - Cenedlaethol a lleol.	Trwy'r clercc	Ar y cyfan bodlon. Fodd bynnag, hoffem gael gwybod am ganlyniad unrhyw gais cynllunio yr ydym fel cyngor Cymuned wedi gwneud sylw arno. Fodd bynnag, rydym yn derbyn y byddai hyn yn golygu baich weinyddol ychwanegol i'r Cyngor.	Nac oes	Dim sylwadau.
Ydw	Nac ydw	Drwy'r clercc.	Bodlon	Oes. Amserlen cyfarfodydd cyngorau cymuned.	Rhywun o'r adran cynllunio yn dod i siarad am y broses.

Ydych chi'n glir beth ydi rôl cyngor cymuned / tref yn y broses cynllunio?	Ydych chi wedi derbyn hyfforddiant ar bolisiau cynllunio?	Sut ydych chi'n derbyn gwybodaeth am geisiadau cynllunio yn eich ardal?	Pa mor fodlon ydych chi gyda'r ffordd yr ydych yn derbyn gwybodaeth / ymateb i ymholiad?	Oes yna rwystrau i gyflwyno sylwadau'r cyngor cymuned / tref ar geisiadau cynllunio?	Beth hoffech ei weld yn digwydd i wella'r profiad o ddelio gyda cheisiadau cynllunio?
Ydw	Nac ydw (ond yn ymwybodol ei fod ar gael yn achlysurol)	Gan Cyngor Gwynedd ar bapur. Amseru ddim bob amser yn cyd-fynd efo amserlen ymateb.	Anfodlon. Nid ydym yn cael gwybod y canlyniadau. Mae'n amhosib cael gafael ar swyddog i ateb unrhyw ymholiad. Yn aml iawn derbynnir ceisiadau yn rhy hwyr i wneud unrhyw sylw / gwrthwynebiad.	Oes. Amser - derbyn ceisiadau yn rhy hwyr i fedru rhoi sylw. O dan yr hen drefn roedd bob cynghorydd sir ar y pwyllgor cynllunio. Maent bellach wedi eu hamddifadu o'r fraint o wneud sylw.	Mae barn Cyngor Tref yn bwysig gan eu bod yn adnabod yr ardal yn dda, yn cynrychioli barn pobl lleol. Mae ymwybyddiaeth o ardal / tir yn hanfodol. Dylsem gael gwybod y canlyniadau. Mae amod 106 yn cael ei ddiddymu yn rhy hawdd ac yn tanseilio ei angen a'i werth. Dylid adfer y broses ddemocrataidd yma o ystyried ceisiadau cynllunio mewn pwyllgorau mwy lleol. Dylid cael mwy o gynghorwyr lleol yn rhan o'r broses.

Ydych chi'n glir beth ydi rôl cyngor cymuned / tref yn y broses cynllunio?	Ydych chi wedi derbyn hyfforddiant ar bolisiau cynllunio?	Sut ydych chi'n derbyn gwybodaeth am geisiadau cynllunio yn eich ardal?	Pa mor fodlon ydych chi gyda'r ffordd yr ydych yn derbyn gwybodaeth / ymateb i ymholiad?	Oes yna rwystrau i gyflwyno sylwadau'r cyngor cymuned / tref ar geisiadau cynllunio?	Beth hoffech ei weld yn digwydd i wella'r profiad o ddelio gyda cheisiadau cynllunio?
Ydw	Nac ydw. Ar y cyfan, nid yw'r Cyngor wedi derbyn hyfforddiant ar bolisiau cynllunio Cenedlaethol a lleol ond mae un aelod, sef y Cyngorydd Sir wedi derbyn cyngor.	Mae y Cyngor yn derbyn gwybodaeth am geisiadau cynllunio yn yr ardal ar e-bost hy rhestau cynllunio yn cael eu cylchredeg. Hefyd mae yna ebyst uniongyrchol a chopi caled yn y post o rhai priodol. Nodir fodd bynnag na fydd rhain yn cael eu danfon ar gyfer rhai ceisiadau.	Anfodlon. Mae'r Cyngor yn anfodlon gyda'r ffordd y maent yn derbyn gwybodaeth / ymateb i ymholiad am nifer o resymau. Cred y Cyngor bod angen sicrhau ei bod yn derbyn ebost uniongyrchol a chopi o'r cynlluniau drwy'r post bob adeg. Mae yna achlysuron pan nad yw hyn wedi digwydd pan bod ceisiadau yn cael ei hail gyflwyno. Dylid sicrhau bod proses ar gael i wneud yn siwr bod swyddogion cynllunio yn ymateb i ebyst a galwadau ffon i ymholiadau ac ateb cwestiynau sy'n codi yn eu cylch yn amserol. Hefyd os oes cais yn cael ei ail gyflwyno dylai'r Cyngor gael gwybod beth sydd wedi newid yn y cais o gwbl. Os yw Cyngor tref yn gwrthwynebu cais, yna mi ddylie y cais fynd gerbron Pwyllgor Cynllunio y Sir, ac ni ddylid gael ei benderfynu gan Swyddog Cynllunio.	Nid oes rwystrau i gyflwyno sylwadau'r Cyngor dim ond i ni dderbyn y wybodaeth briodol gan y Cyngor Sir.	1. Er mwyn gwella'r profiad o ddelio gyda cheisiadau cynllunio: i. Dylai y Cyngor dderbyn ebost uniongyrchol am bob cais priodol i'r ardal a chopi o'r cynlluniau drwy'r post ii. Dylai fod proses ar gael i sicrhau bod swyddogion cynllunio yn ymateb i ebyst a galwadau ffôn yn amserol i ateb cwestiynau sy'n codi yn eu cylch iii. os oes cais yn cael ei ail gyflwyno dylai'r Cyngor gael gwybod beth sydd wedi newid o'r cais gwreiddiol iv. Os yw Cyngor Tref yn gwrthwynebu cais, yna mi ddylie cais fynd gerbron Pwyllgor Cynllunio y Sir, ac ni ddylid gael ei benderfynu gan Swyddogion Cynllunio.

Ydych chi'n glir beth ydi rôl cyngor cymuned / tref yn y broses cynllunio?	Ydych chi wedi derbyn hyfforddiant ar bolisiau cynllunio?	Sut ydych chi'n derbyn gwybodaeth am geisiadau cynllunio yn eich ardal?	Pa mor fodlon ydych chi gyda'r ffordd yr ydych yn derbyn gwybodaeth / ymateb i ymholiad?	Oes yna rwystrau i gyflwyno sylwadau'r cyngor cymuned / tref ar geisiadau cynllunio?	Beth hoffech ei weld yn digwydd i wella'r profiad o ddelio gyda cheisiadau cynllunio?
Ydw	Bum ar gwrs cenedlaethol flynyddoedd yn ol pan oedd y Cyngorau Cymuned yn dod yn rhan o'r broses cynllunio	Ers mis Hydref 2016 mae'r Adran Cynllunio yn rhoi rhestr wythnosol o holl geisiadau y sir. Maent hefyd yn rhoi gwybodaeth o geisiadau Llanbedrog sydd wedi cael eu derbyn gyda bythefnos i ymateb. Cyn Hydref 2016 doedd dim gwybodaeth am geisiadau eraill - o bosib yn ffinio y plwyf ac yn gallu effeithio ar y plwyf neu'r plwyfion agosaf heb i'r cyngorwyr fod yn gwybod a'r Cynghorydd Sir.	Nid yw Cyngor Llanbedrog yn fodlon. Mae bodlonrwydd ar y system yn awr - mae ceisiadau plwyfi cyfagos yn cael ei cynnwys. Y peth hanfodol bwysig yw canlyniad pob cais gyda'r amodau. Bu hyn yn rhan o'r broses am flynyddoedd hyd y toriadau ariannol. Yn aml mae cais arall yr un lle yn cael ei gyflwyno pryd nad yw y Cyngor Cymuned yn gwybod canlyniad y cais gwreiddiol (nid ceisiadau diwygiedig). Mae gwybodaeth ar bob cais yn hanfodol i nweud dyfarniad teg i bob cais ac i fod yn gyson.	Oes. Y rhwystr mwyaf i gyflwyno sylwadau yw diffyg cael sgwrs gyda'r swyddogion cynllunio mewn mater o ansicrwydd. Nid yw cynllun y gyfnewidfa gyfathrebu yn gymorth (dim bai ar y staff) ac mae'n annodd cael gafael ar swyddogion.	Hoffai'r Cyngor gael yr hen drefn - adran gynllunio yn anfon cais a chanlyniad y cais gyda'r amodau. Buasai'n fuddiol i gael canlyniadau Pen Llyn gan fod y cyngor yn cael syniad o gysondeb datblygiadau bob plwyf. Mae'r cyswllt gyda'r swyddogion yn gymorth ond mae'r drefn o orfod mynd drwy Penrhyndeudraeth a'r cwestiynau yn rwystr mawr - yn aml mae eisiau aros mewn rhes am amser maith. Mewn llawer achos dim ond munud fach sydd angen fel ateb i'r ymholiad. Mae angen gwell.
Ydw	Dim ond y clerc	Drwy'r bost i'r clerc yn uniongyrchol gan y Cyngor. Bydd y clerc wedyn yn rhannu'r wybodaeth gydag aelodau'r Cyngor Cymuned.	Bodlon	Nac oes	Nid yw'r Cyngor Cymuned yn derbyn lawer o geisiadau o gwbl am fod y Parc Cenedlaethol yn delio a cheisiadau o fewn y Parc. Mae'r profiad hyd yma wedi bod yn foddhaol.

Eitem 7

Pwyllgor	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad	14 Mawrth 2017
Teitl	Argymhellion Ymchwiliad Craffu Gorfodaeth Stryd
Aelod Cabinet	Y Cynghorydd John Wynn Jones
Pwrpas	I roddi diweddariad ar y cynnydd hyd yn hyn ar gyflawni argymhellion yr Ymchwiliad Craffu

1. CEFNDIR

- 1.1 Yn ei gyfarfod 22 Medi, 2016 bu i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ystyried Adroddiad Ymchwiliad Craffu i Orfodaeth Stryd.
- 1.2 Bu i'r Pwyllgor Craffu dderbyn yr adroddiad a derbyn yr argymhellion ynddo [mae 9 mewn nifer] a cheisio adroddiad yn ôl gan yr Aelod Cabinet mewn tua 6-9 mis o'r hyn sydd wedi ei gyflawni yn dilyn yr argymhellion.
- 1.3 Mae cyfnod yn agos i 6 mis wedi mynd heibio ers y penderfyniad hwnnw ac yn atodol mae diweddariad ar gyfer y 9 argymhelliad ddeilliodd o'r Ymchwiliad.

2. ARGYMHELLIAD

- 2.1 Bod y Pwyllgor Craffu yn ystyried a rhoddi sylwadau ar y diweddariad hwn.

ATODIAD

1. Pwysigrwydd y Maes

Canfyddiadau - Mae glendid stryd o'r pwysigrwydd mwyaf ar gyfer yr economi, iechyd ac ymdeimlad o les yn ein cymunedau ac mae dyletswyddau pendant ar y Cyngor yn y maes y mae'n rhaid eu hwynebu. Mae arolwg ymysg y Panel Trigolion a chynghorau cymuned wedi dangos yn eglur iawn bod gan bobl Gwynedd ddymuniad i'r Cyngor weithredu'n fwy caled yn y maes hwn.

Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –

Argymhellir bod yr Aelod Cabinet yn derbyn bod yn rhaid cymryd camau gwella pendant a newydd ac yn cadarnhau ei ymrwymiad i flaenoriaethu'r maes hwn ac yn ymrwymo i sicrhau blaenoriaeth i'r maes mewn trafodaethau o fewn Cabinet Cyngor Gwynedd.

Diweddariad

Aelod Cabinet yn parhau i roddi blaenoriaeth i'r maes hwn a wedi dwyn sylw'r Cabinet i bwysigrwydd y maes mewn sawl cyfarfod o'r Cabinet.

2. Natur y Gwasanaeth Presennol

Canfyddiadau - Mae'r gwasanaeth a ddarparir gan yr Uned yn un hynod o werthfawr; mae'r tîm yn ymroddedig ac yn gweithredu'n galed iawn mewn maes anodd a diddiolch i fynd i'r afael ag un o feysydd gwaith pwysicaf y Cyngor.

Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –

Argymhellir bod yr Aelod Cabinet yn cyfleu gwerthfawrogiad yr Ymchwiliad o waith y tîm.

Diweddariad

Y tîm wedi derbyn gwerthfawrogiad yr ymchwiliad mewn cyfarfod penodol i drafod ac i weithredu ar argymhellion y Pwyllgor Craffu.

3. Her Arbedion y Cyngor
Canfyddiadau – Mae'r Cyngor wedi gorfod cyflwyno rhai toriadau yn y gwasanaeth fel rhan o becyn toriadau Her Gwynedd ac mae hyn yn sicr o effeithio ar gapasiti'r tîm i weithredu.
Argymhelliad i'r Aelod Cabinet – Argymhellir bod yr Aelod Cabinet yn ymateb i'r lleihad yng nghapasi't'r Uned, yn derbyn yr her o edrych eto ar y gwasanaeth ac yn edrych yn greadigol ar atebion newydd wrth ail-flaenoriaethu gwaith y tîm.
Diweddariad <i>Yr Uned wedi ei ail-strwythuro yn dilyn lleihad yn ei gyllideb o ganlyniad i doriadau Her Gwynedd. Gwaith y tîm wedi ei ail-flaenoriaethu i adlewyrchu'r lleihad yn y nifer staff yr Uned.</i>

4. Codi Ymwybyddiaeth a Newid Ymddygiad
Canfyddiadau – Mae pwyslais y tîm ar godi ymwybyddiaeth a cheisio newid ymddygiad yn allweddol ac mae'n bwysig nad yw'r gwaith hynny yn dioddef yn sgil y toriadau.
Argymhelliad i'r Aelod Cabinet – Argymhellir i'r Aelod Cabinet bod y gwaith ar godi ymwybyddiaeth yn gorfod parhau wrth ail-edrych ar ddyletswyddau'r Uned wrth ddygymod â'r toriadau y maent yn gorfod eu hwynebu. Argymhellir hefyd, yn benodol, bod angen ymgyrch codi ymwybyddiaeth ffres, drwyadl a phenodol am gyfnod o oddeutu 6 mis cyn cyflwyno unrhyw drefn newydd sydd yn dangos bod agwedd y Cyngor at orfodi yn y maes hwn yn mynd i galedu (gweler Canfyddiad 8 isod).
Diweddariad <i>Gwaith ar godi ymwybyddiaeth wedi parhau e.e. yn ystod 2016/17:</i> <ul style="list-style-type: none"> ➤ <i>cefnogwyd 14 grŵp cymunedol gydag ymgyrchoedd hel sbwriel</i> ➤ <i>cydweithio gyda'r gymuned ar ymgyrchoedd atal graffiti, tipio slei bach e.e. Dyffryn Cadnant, Maesgeirchen, Aberdyfi</i> ➤ <i>cynnal 18 sioe deithiol amgylcheddol mewn ysgolion</i> ➤ <i>cynnal 5 ymgyrch ysgol ar faw cwn.</i> <i>Bydd yr ymgyrch codi ymwybyddiaeth newydd ar gyflwyno trefn newydd o osod dirwyon ar y stryd yn cael ei gydgydio gyda chyflwyno a hysbysu'r trefniant newydd.</i>

5. Cydweithio rhyngadrannol

Canfyddiadau – Mae'r gwahanol gyfrifoldebau gorfodi ar draws y Cyngor yn amrywiol iawn ac mae lle i edrych yn y tymor hwy ar resymoli rhai ohonynt er mwyn rhannu hawliau gorfodi ar draws nifer fwy o staff a gwneud gwell defnydd o'r swyddogion ar lawr gwlad.

Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –

Argymhellir bod yr Aelod Cabinet a'r Pennaeth Gwasanaeth yn cyd-drafod â'u cydweithwyr er mwyn ymestyn hawliau ac ymarferion gorfodi ar draws mwy o wasanaethau er mwyn gwneud gwell defnydd o adnoddau staff. Wrth wneud hynny dylai'r Aelod Cabinet a'r adrannau roi sylw i waith ymchwil diweddar APSE am y manteision posib a'r risgiau.

Diweddariad

O safbwynt gwaith ymchwil APSE mae hwn yn berthnasol i ymuno ystod o ddyletswyddau gorfodaeth y Cyngor dan un Adran neu Wasanaeth. Byddai hyn yn cynnwys gweithgareddau Gwarchod y Cyhoedd ac efallai Cynllunio a Thrwyddedu. Cafodd y posibiliad hwn ei ystyried ar lefel rhanbarthol gyda'r syniad o gydweithio a rhannu adnoddau rhwng siroedd. Nid yw hyn wedi dwyn ffrwyth gan fod nifer o awdurdodau'r Gogledd, fel Dinbych, Conwy a Wrecsam yn dewis defnydd o gwmnïau preifat i gynorthwyo mewn gorfodi ar y problemau sydd fwyaf o bryder i drigolion sef tipio slei bach, baw cwn a sbwriel ar y stryd.

6. Rôl Gwirfoddolwyr

Canfyddiadau - Tra nad oes rôl i wirfoddolwyr mewn gwaith gorfodi, mae lle i fanteisio ar awydd yn ein cymunedau i gymryd cyfrifoldeb am lendid ar ein strydoedd trwy gyflwyno pencampwyr gwirfoddol ("Tîm Gwynedd Daclus / Gwynedd Lân") sydd yn medru codi ymwybyddiaeth a chynnig cyngor a chymorth ac adnabod manau lle mae problemau.

Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –

Argymhellir bod yr Aelod Cabinet yn agor trafodaethau gyda grwpiau a chymunedau lleol i weld sut y gellir datblygu pecyn o weithgareddau y gallai grwpiau felly weithredu arnynt , gan roi sylw i'r gwaith hynny yn benodol yn ystod y cyfnod paratoi ar gyfer y drefn newydd.

Diweddariad

Enghreifftiau o ymgyrchoedd gwirfoddol diweddar:

Llanrug

Abergwyngregyn

Y Foryd, Caernarfon

Chwilog

Bethesda X2

Y Felinheli (gyda'r Cyngor Cymuned)

Dolgellau

Dinas Dinlle (gyda Ysgol Nebo)

Caeathro

Pwllheli

Tîm wedi cydnabod bod codi ymwybyddiaeth a marchnata yn hynod bwysig a bod y gwaith yma yn parhau gan edrych ar ffyrdd newydd er ychwanegu gwerth at yr ymgyrchoedd.

7. Cyfraniad gan Fusnesau

Canfyddiadau - Mae lle i ddenu cymorth a nawdd gan fusnesau preifat ar gyfer y gwaith hwn trwy eu cysylltu gyda'r datblygiad gwirfoddol a awgrymir yng Nghanfyddiad 6.

Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –

Argymhellir bod yr Aelod Cabinet yn cydweithio gyda'r Aelod Cabinet â chyfrifoldeb dros yr Economi a Thwristiaeth i ddatblygu cysylltiadau gyda busnesau lleol i geisio nawdd tuag at fentrau gwirfoddol a chymunedol.

Diweddariad

Trafodaethau gyda busnesau penodol yn parhau e.e. y tîm wedi gweithio gyda McDonalds a Tesco ym Mhorthmadog yn ddiweddar o ran ymgyrchoedd codi ysbwriel a chasglu hen drolis o'r Cut ym Mhorthmadog.

Nid yw'r Aelod Cabinet wedi cael cyfle i drafod hyn mewn manylder gyda'r Aelod Cabinet Economi a Chymuned ond mae hyn yn yr arfaeth.

8. Gwaith Gorfodi

Canfyddiadau –

- a) Dylai'r Cyngor edrych ar allanoli elfennau o'i waith gorfodi i ategu gwaith y fîm mewnol. Byddai'r gwaith hynny yn canolbwyntio ar orfodaeth a dirwyo sydyn (FPNs) ar sail dim cost i'r Cyngor (Dylid treialu hyn am gyfnod o 12 mis yn y lle cyntaf gan ei adolygu ar ôl hynny).
- b) Bydd angen pwysleisio rhai elfennau – ee rhaid i'r holl staff fedru siarad Cymraeg, cyflogaeth leol a'r angen i roi sylw i wahanol fathau o sbwriel a baw cŵn – fel y mae Cyngor Wrecsam wedi gwneud
- c) Bydd angen sicrhau cydweithrediad Uned Gyfathrebu'r Cyngor i roi cyhoeddusrwydd digonol i'r newid hwn mewn da bryd cyn iddo fod yn weithredol.

Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –

Argymhellir bod yr Aelod Cabinet a'r Pennaeth Gwasanaeth yn:-

- a) cychwyn proses gystadleuol i gynnal treial digost i'r Cyngor o allanoli elfennau gorfodi am gyfnod o rhwng 12 a 24 mis gyda rhai amodau penodol, yn cynnwys sicrwydd am y defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gwasanaeth, cyflogaeth leol a ffocws penodol ar ddelio â phroblem baw cwn
- b) adolygu llwyddiant yr arbrawf wedi'r cyfnod peilot ac yna ystyried y dewisiadau wedi hynny, boed hynny yn barhad efo'r gwasanaeth wedi ei allanoli neu, hyd yn oed, fewnoli'r gwasanaeth
- c) cwblhau gwaith penodol i baratoi'r cyhoedd ar gyfer y pwyslais newydd yn y gwaith trwy godi ymwybyddiaeth a nodi bod y Cyngor yn gwneud hyn mewn ymateb i farn clir y cyhoedd.

Diweddariad

Cysylltiad cychwynnol wedi ei wneud i sefydlu ar oes cwmnïau a diddordeb. Wedi cael cyngor cyfreithiol parthed dirprwyo'r hawliau ac adolygu strwythur taliadau dirwyon a chaffael y gwasanaeth.

Nawr yn barod i gychwyn y broses o hysbysebu'n gyhoeddus ar gyfer ennyn diddordeb a sicrhau cytundeb (11 wythnos).

Yn dilyn bydd cyfnod sefydlu i bwrpas rhoddi amser digonol i'r cwmni roddi adnoddau mewn lle cyn gweithredu (6 wythnos).

O ran amserlen dylid bod yn weithredol erbyn mis Mehefin 2017 gydag ymgyrch benodol i godi ymwybyddiaeth i'r newid yn cael ei gynnal yn unol â'r amserlen hwn. Yn anffodus, mae aelod allweddol o staff yr Uned yn absennol o'i waith oherwydd salwch yn ddiweddar a bydd felly llithriad i'r amseriad hwn.

9. Cyd-weithio gyda'r Heddlu

Canfyddiadau – Mae cyfrifoldebau deddfwriaethol ar Heddlu Gogledd Cymru yn ogystal ag awdurdodau lleol. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf, mae Heddlu Gogledd Cymru wedi rhoi blaenoriaeth uwch i wahanol fathau o droseddau.

Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –

Argymhellir i'r Aelod Cabinet ei fod yn cynnal trafodaethau buan gyda Chomisiynydd yr Heddlu er mwyn trafod os oes lle i gydweithio yn agosach ar droseddau amgylcheddol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn cynnwys cydweithio ar weithredu'r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlisma 2014.

Diweddariad

Mae'r Aelod Cabinet wedi cael sgwrs anffurfiol gyda'r Comisiynydd ac mae'n fwriad ceisio cyfarfod i'r pwrpas yn y dyfodol agos.